

# FFRAMWAITH DATBLYGU CENEDLAETHOL CYMRU

Aseiad Rheoliadau Cynefinoedd

GORFFENNAF 2019



## CYSYLLTIADAU



**JON DAVIES**  
Cyfarwyddwr Technegol

s +(0)7738 888331  
e [jon.davies@arcadis.com](mailto:jon.davies@arcadis.com)

Arcadis.  
**Error! Reference  
source not found.**

## RHEOLI FERSIYNAU

Fersiwn	Dyddiad	Awdur	Gwiriwr	Cymeradwydd	Newidiadau
01	21/5/19	JW	LT	JD	Drafft Cyntaf
02	3/6/19	JW/LT/JD	LT	JD	Ail ddrafft yn dilyn sylwadau gan LIC a diwygiadau i'r Fframwaith Datblygu Cenedlaethol Drafft
03	1/7/19	LT/JD	LT	JD	Trydydd Drafft yn dilyn sylwadau terfynol gan LIC

Paratowyd yr adroddiad hwn, dyddiedig 1 Gorffennaf 2019, ar gyfer Llywodraeth Cymru (y "Cleient") yn unol â thelerau ac amodau'r apwyntiad (yr "Apwyntiad") rhwng y Cleient ac **Arcadis UK** ("Arcadis") at y dibenion a nodwyd yn yr Apwyntiad. I osgoi amheuaeth, ni all unrhyw berson(au) arall/eraill ddefnyddio neu ddibynnu ar yr adroddiad hwn neu ei gynnwys, ac nid yw Arcadis yn derbyn unrhyw gyfrifoldeb am ddefnydd neu ddibyniaeth o'r fath ar hynny gan unrhyw drydydd parti arall.

# CYNNWYS

<b>1</b>	<b>CYFLWYNIAD</b> .....	<b>1</b>
1.1	Diben .....	1
1.2	Proses y Fframwaith Datblygu Cenedlaethol .....	1
1.3	Proses yr Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd .....	2
1.4	Dull cyflawni'r Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd o'r Fframwaith Datblygu Cenedlaethol drafft.	3
1.5	Asesu effeithiau sylweddol tebygol ar safleoedd Natura 2000/ Ramsar .....	5
1.6	Dull Sgrinio.....	8
<b>2</b>	<b>ASESIAD CYFUNOL</b> .....	<b>18</b>
2.1	Polisiâu yn y Fframwaith Datblygu Cenedlaethol .....	18
2.2	Cynlluniau neu Brosiectau Eraill .....	18
<b>3</b>	<b>CRYNODEB/CASGLIAD SGRINIO</b> .....	<b>20</b>
<b>4</b>	<b>ASESIAD PRIODOL</b> .....	<b>21</b>
4.1	Trosolwg.....	21
<b>5</b>	<b>EFFEITHIAU CYFUNOL</b> .....	<b>42</b>
<b>6</b>	<b>CRYNODEB/CASGLIAD YR ASESIAD PRIODOL</b> .....	<b>42</b>
<b>7</b>	<b>CASGLIAD CYFFREDINOL</b> .....	<b>43</b>
<b>8</b>	<b>CYFEIRIADAU</b> .....	<b>44</b>

**Atodiad A:** Fframwaith Datblygu Cenedlaethol Llywodraeth Cymru - Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd: Synnwyr y Fawd

**Atodiad B:** Fframwaith Datblygu Cenedlaethol Cymru - Goblygiadau i'r rhwydwaith Natura 2000 o Ardaloedd Blaenoriaeth ar gyfer Ynni Haul a Gwynt ledled Cymru - Adroddiad Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd

# 1 Cyflwyniad

## 1.1 Diben

Mae'r Adroddiad hwn yn darparu camau Sgrinio'r Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd a'r Asesiad Priodol o Fframwaith Datblygu Cenedlaethol Drafft Llywodraeth Cymru, dyddiedig 15 Mai 2019. Mae'r Adroddiad yn crynhoi sut y mae'r Fframwaith Datblygu Cenedlaethol drafft wedi esblygu o'r cam Materion ac Opsiynau hyd at y Fframwaith Datblygu Cenedlaethol drafft, ynghyd â'r gwaith Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd a wnaed ar bob cam o'r broses.

Mae'r Adroddiad yn cynnwys, felly, y gwaith o Sgrinio'r polisiau a gyflwynir yn y Fframwaith Datblygu Cenedlaethol drafft wedi ei ddilyn gan yr Asesiad Priodol o'r polisiau hyn lle na ellid sgrinio'r effeithiau sylweddol tebygol ar safleoedd Natura 2000/Ramsar allan.

## 1.2 Proses y Fframwaith Datblygu Cenedlaethol

Datblygwyd y Fframwaith Datblygu Cenedlaethol dros gyfnod o 2 flynedd gan gynnwys ymarferion ymgynghori lluosog gydag amrywiaeth o randdeiliaid o bob cwr o Gymru. Cynllun gofodol yw'r Fframwaith Datblygu Cenedlaethol sy'n pennu cyfeiriad ar gyfer lle y dylid canolbwyntio buddsoddiadau mewn seilwaith a datblygiad, fel eu bod yn cyfrannu at uchelgeisiau ehangach Llywodraeth Cymru ac at lesiant cymunedau. Nod y Fframwaith Datblygu Cenedlaethol yw darparu cyd-destun gofodol ar gyfer y ddarpariaeth o bolisi datblygu a chynllunio cenedlaethol yng Nghymru dros yr 20 flynedd nesaf. Mae'r Fframwaith Datblygu Cenedlaethol yn rhan hanfodol o'r system gynllunio yng Nghymru felly. Mae rhagor o wybodaeth am y Fframwaith Datblygu Cenedlaethol a'r system gynllunio ar gael ar [wefan Llywodraeth Cymru](#).

Cam cyntaf y Fframwaith Datblygu Cenedlaethol oedd cyflwyno amcanion drafft ar gyfer datblygu yng Nghymru yn y dyfodol, ynghyd â chywres o opsiynau gofodol. Daeth y cam hwn i ben trwy baratoi dogfen ymgynghori fanwl. Nodwyd pum opsiwn gofodol, pob un â gwahanol bwyslais o ran cyfeiriad cynlluniau, rhaglenni a strategaethau datblygu yng Nghymru yn y dyfodol. Lluniwyd dogfen Synnwyr y Fawd (Atodiad A yr Adroddiad hwn) gan Arcadis (ym mis Awst 2017) i roi cyngor i Lywodraeth Cymru ynghylch gofynion yr Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd a sut y dylai hwn ddylanwadu ar ddrafftio cychwynol y Fframwaith Datblygu Cenedlaethol (cyfeiriwch at Adran 1.4).

Y pum opsiwn gofodol oedd:

- Canolbwyntio ar Gymunedau
- Canolbwyntio ar Dwf yn yr Ardaloedd Marchnad Cryfaf
- Canolbwyntio ar Ddatgarboneiddio
- Canolbwyntio ar Gydnerthedd Adnoddau Dynol
- Peidio â Pharatoi'r Fframwaith Datblygu Cenedlaethol

Nododd yr Opsiwn a Ffeirir ar gyfer y Fframwaith Datblygu Cenedlaethol wedyn sut y byddai'r system cynllunio defnydd tir yn cefnogi nodau hirdymor Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol, 2015 yn ogystal â pholisïau llywodraeth eraill. Roedd gan Opsiwn a Ffeirir y Fframwaith Datblygu Cenedlaethol ddwy swyddogaeth allweddol: darparu cyfeiriad gofodol ar gyfer twf a seilwaith newydd a nodi meysydd o newid, gwarchod, gwella a lliniaru; ac i sefydlu'r cyfeiriad ar gyfer polisi gofodol strategol. Fe'i datblygwyd ar sail pum thema:

- Creu Lleoedd;
- Lleoedd Unigryw a Naturiol;
- Lleoedd Cynhyrchiol a Mentrus;
- Lleoedd Actif a Chymdeithasol; a
- Rhanbarthau Cymru.

Yn dilyn cyfnod ymgynghori ffurfiol, lluniwyd drafft cyntaf y Fframwaith Datblygu Cenedlaethol, a'r drafft hwn (dyddiedig 15 Mai 2019) yw testun yr Adroddiad Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd hwn.

### 1.3 Proses yr Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd

Mae Rheoliadau Cadwraeth Cynefinoedd a Rhywogaethau 2017 (y cyfeirir atynt o hyn ymlaen fel y 'Rheoliadau Cynefinoedd') yn nodi bod yn rhaid cynnal Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd ar bob Cynllun a Phrosiect sydd â'r potensial i effeithio ar safleoedd a ddynodwyd ar gyfer cefnogi cynefinoedd neu rywogaethau o bwysigrwydd rhyngwladol, a adnabyddir hefyd fel safleoedd Natura 2000 neu safleoedd dynodedig Ewropeaidd. Yn y Deyrnas Unedig (DU), caiff gofynion y Rheoliadau Cynefinoedd eu hymestyn hefyd i ystyried yr effeithiau ar safleoedd Ramsar (a restrir o dan Gonfensiwn Ramsar ar Wlyptiroedd O Bwysigrwydd Rhyngwladol). Mae presenoldeb safleoedd Natura 2000/Ramsar yng Nghymru, a'r effeithiau posibl a allai godi o ganlyniad i weithredu'r Fframwaith Datblygu Cenedlaethol, yn ei gwneud yn ofynnol i asesiad gael ei gynnal o dan y Rheoliadau Cynefinoedd.

#### Beth yw Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd?

O dan Erthygl 6 y Gyfarwyddeb Cynefinoedd (a Rheoliad 102 y Rheoliadau Cynefinoedd), mae asesiad yn ofynnol pan allai cynllun arwain at effeithiau sylweddol tebygol ar safle Natura 2000. Mae safleoedd Natura 2000 yn cynnwys Ardaloedd Cadwraeth Arbennig (ACA) (gan gynnwys 'ymgeiswyr' ACA) ac Ardaloedd Gwarchodaeth Arbennig (AGA) (gan gynnwys AGAau 'posibl'). Yn y DU, mae'n ofyniad i safleoedd Ramsar gael eu cynnwys yn yr asesiad:

- Caiff ACAau eu dynodi o dan y Gyfarwyddeb Cynefinoedd ar sail eu cynefinoedd a/neu rywogaethau o bwysigrwydd Ewropeaidd (gan gynnwys Prif Resymau/Nodweddion Cymhwysio - Atodiad I Cynefinoedd/Atodiad II Rhywogaethau).
- Caiff AGAau eu dynodi o dan Gyfarwyddeb ar Warchod Adar Gwyllt ar sail rhywogaethau adar mudol prin, agored i niwed ac sy'n ymddangos yn rheolaidd a gwlyptiroedd o bwysigrwydd rhyngwladol (gan gynnwys adar Erthygl 4.1/4.2).
- Caiff safleoedd Ramsar eu dynodi o dan Gonfensiwn Ramsar ar sail eu gwlyptiroedd o bwysigrwydd rhyngwladol (gan gynnwys Meini Prawf).

Gellir diffinio Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd fel:

*Yr ystyriaeth o effaith y prosiect neu'r cynllun ar gyfanrwydd y safle Natura 2000, naill ai ar ei ben ei hun neu yn gyfunol â phrosiectau neu gynlluniau eraill, o ran strwythur a swyddogaeth y safle a'i amcanion cadwraeth*

Pan:

- Ystyrir cyfanrwydd fel *cydlyniant ei strwythur a'i swyddogaeth ecolegol, ar draws ei holl arwynebedd, sy'n caniatáu iddo gynnal cynefin, cymhlyg o gynefinoedd a/neu lefelau'r poblogaethau o'r rhywogaethau y cafodd ei ddsbarthu o'u herwydd* - felly mae hyn yn mynd y tu hwnt i fân effeithiau;
- Cynhelir asesiad o'r goblygiadau i'r safle o safbwynt ei amcanion cadwraeth (maint/cyflwr cynefinoedd, maint/statws poblogaethau – a nodir mewn Cynlluniau Rheoli Craidd, Cynlluniau Gwella â Blaenoriaeth, ac ati);
- Mae effaith yn sylweddol ac y byddai'n tansellio amcanion cadwraeth y safle (Dyfarniad Waddenzee<sup>1</sup>) – mae hwn yn cynrychioli dirprwy ar gyfer effaith ar gyfanrwydd safle.

Mae'n bosibl rhoi cydsyniad i gynllun a fyddai'n cael effeithiau sylweddol, ond o dan Erthygl 6(4) (Cyfarwyddeb Cynefinoedd CE), os ydych yn debygol o gael effaith niweidiol ar gyfanrwydd safle Natura 2000/ Ramsar, mae'n rhaid bod:

- Dim ateb arall ar gael;
- Rhesymau hanfodol sef er budd cyhoeddus tra phwysig i'r cynllun neu'r prosiect fynd rhagdo; a

<sup>1</sup> Achos CE C-127/02 *Reference for a Preliminary Ruling 'Waddenzee'* Medi 2004

- Mesurau gwneud iawn digonol ar waith (ac erbyn adeg yr effaith) er mwyn cynnal cydlyniant y rhwydwaith Natura 2000.

## Deddfwriaeth a Chanllawiau

Mae'r Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd yn cael ei gynnal yn unol â gofynion Rheoliadau Cadwraeth Cynefinoedd a Rhywogaethau 2017, fel y'u diwygiwyd. Trwy wneud hynny, mae'r Adroddiad Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd hwn wedi manteisio ar y canllawiau canlynol:

- Y Comisiwn Ewropeaidd, *Managing Natura 2000 sites: The provisions of Article 6 of the Habitats Directive 92/43/EEC*.
- Y Comisiwn Ewropeaidd, *Guidance document on Article 6(4) of the Habitats Directive 92/43/EEC*.
- Yr Adran Cymunedau a Llywodraeth Leol (2006) *Planning for the Protection of European Sites: Appropriate Assessment. Guidance for Regional Spatial Strategies and Local Development Documents*.
- David Tyldesley and Associates (DTA) Publications Limited, *The Habitats Regulations Assessment Handbook*.
- People Over Wind a Sweetman yn erbyn Coillte Teoranta – Llys Cyfiawnder Ewrop, Achos C323/17.

## 1.4 Dull cyflawni'r Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd o'r Fframwaith Datblygu Cenedlaethol drafft

Mae Tabl 1 yn crynhoi camau'r Fframwaith Datblygu Cenedlaethol a mewnbwnau cyfatebol yr Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd a ddarparwyd (sylwer, ni chynhaliwyd ymgynghoriad ar y Fframwaith Datblygu Cenedlaethol terfynol eto).

Tabl 1: Y Fframwaith Datblygu Cenedlaethol a Mewnbwn yr Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd

Cam y Fframwaith Datblygu Cenedlaethol	Mewnbwn yr Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd
Casglu Tystiolaeth	Rhoddodd dogfen <b>Synnwyr y Fawd</b> (Atodiad A yr Adroddiad hwn) gyngor i Lywodraeth Cymru ynghylch gofynion yr Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd a sut y dylai hwn ddylanwadu ar ddrafftio cychwynnol y Fframwaith Datblygu Cenedlaethol. Manylion y safleoedd dynodedig yng Nghymru a'r mathau o lwybrau effaith posibl. Crëwyd ffeil System Gwybodaeth Ddaearyddol i alluogi cynllunwyr i wirio lleoliadau datblygu posibl ar gyfer presenoldeb safleoedd dynodedig a'r mathau o ddatblygiad a allai effeithio ar safleoedd o'r fath. Fe'i dyluniwyd fel canllaw i gynorthwyo datblygiad amcanion, polisi a lleoliadau strategol.
Materion ac Opsiynau	Adolygiad o amcanion a'r ddogfen Materion ac Opsiynau yn cynnig adborth llafar i Lywodraeth Cymru (dim adrodd ffurfiol).
Opsiwn a Ffeirir Drafft	Darparodd <b>Adroddiad Sgrinio Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd Rhagarweiniol</b> (Ebrill 2018) adolygiad lefel uchel o'r Opsiwn a Ffeirir ar gyfer y Fframwaith Datblygu Cenedlaethol drafft ac argymhellion i hysbysu datblygiad polisi parhaus y Fframwaith Datblygu Cenedlaethol.
Fframwaith Datblygu Cenedlaethol Drafft	<b>Adroddiad Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd ar gyfer y Fframwaith Datblygu Cenedlaethol Drafft</b> (yr Adroddiad Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd hwn) – yn cynnwys yr asesiad cyfunol, ynghyd â'r asesiad Sgrinio ac Asesiad Priodol o'r polisiâu drafft.
Fframwaith Datblygu Cenedlaethol Terfynol	<b>Adroddiad Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd Terfynol</b> yn dilyn cyfnod ymgynghori i gymryd i ystyriaeth unrhyw ddiweddariadau a wnaed i'r Fframwaith Datblygu Cenedlaethol i'w gyhoeddi'n derfynol a'i fabwysiadu.

Roedd cam cyntaf yr Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd ar gyfer y prosiect Fframwaith Datblygu Cenedlaethol yn cynnwys cyfnod o gasglu tystiolaeth ac ymchwil cefndirol i grynhoi manylion y safleoedd Natura 2000/ Ramsar y byddai angen cyfeirio atynt drwy gydol y broses. Yn ystod y cam hwn, lluniwyd dull System Gwybodaeth Ddaearyddol a dogfen 'Synnwyr y Fawd' i ategu'r wybodaeth a ddarparwyd yn y System Gwybodaeth Ddaearyddol ac fe'u dosbarthwyd i dîm cynllunio Llywodraeth Cymru i'w cynorthwyo yn ystod datblygiad y Fframwaith Datblygu Cenedlaethol drafft. Y nod yma oedd sicrhau bod goblygiadau posibl y cynllun i safleoedd Natura 2000 a Ramsar yn cael eu hystyried drwy gydol datblygiad y Cynllun.

Defnyddiwyd egwyddorion Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd fel y nodir yn y ddogfen Synnwyr y Fawd hon (gan gynnwys natur llwybrau effaith, maint clustogfeydd o amgylch gwahanol fathau o safleoedd dynodedig, y mathau o ddatblygiad a all effeithio ar gynefinoedd a rhywogaethau cymwys, ac ati) yng nghanau dilynol yr asesiad er mwyn penderfynu a oedd polisi yn debygol o gael effaith sylweddol ar unrhyw safleoedd Natura 2000 a/neu Ramsar ai peidio. Cyflwynir y ddogfen Synnwyr y Fawd eto felly, yn Atodiad A yr adroddiad hwn [Sylwer y lluniwyd y ddogfen hon ar gam cynnar datblygiad y Fframwaith Datblygu Cenedlaethol (ym mis Awst 2017), ac felly bydd rhywfaint o'r wybodaeth a ddarperir wedi cael ei disodli wrth i'r Cynllun esblygu]. Darperir crynodeb o'r broses lle mae effeithiau posibl ar safleoedd dynodedig Ewropeaidd yn cael eu hasesu yn Adran 1.5, isod.

Yn dilyn y cyfnod casglu tystiolaeth, datblygwyd cyfres o amcanion Fframwaith Datblygu Cenedlaethol drafft ac opsiynau gofodol ym mis Hydref 2017; roedd hyn yn cynnwys pedwar gwahanol opsiwn gofodol drafft ac opsiwn meincnod, yn ogystal â drafft cyntaf yr amcanion. Yn dilyn adolygiad o'r amcanion a'r opsiynau drafft, darparwyd adborth llafar ar y goblygiadau posibl i safleoedd Natura 2000/ Ramsar i dîm cynllunio Llywodraeth Cymru. O gofio lefel gyfyngedig y manylder a ddarparwyd ar y cam cynnar hwn, penderfynwyd nad oedd angen adroddiad Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd ffurfiol.

Lluniwyd Opsiwn a Ffeirir drafft ar gyfer y Fframwaith Datblygu Cenedlaethol wedyn (gan gynnwys y Strategaeth Ofodol a Ffeirir), a pharatowyd Adroddiad Sgrinio Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd rhagarweiniol yn asesu'r goblygiadau i safleoedd Natura 2000/ Ramsar. Nid oedd yr Opsiwn a Ffeirir yn cynnwys unrhyw bolisiâu gofodol penodol yn nodi cyfleoedd neu leoliadau datblygu posibl. Heb fanylion penodol, nid oedd yn bosibl cadarnhau a fyddai'r amcanion neu gyfarwyddiadau'r strategaeth ofodol yn cael effaith sylweddol debygol ar safleoedd Natura 2000 a Ramsar. Diwygiwyd amcanion a chyfarwyddyd gofodol polisiâu'r Fframwaith Datblygu Cenedlaethol felly i nodi a allai fod unrhyw oblygiadau *posibl* i safleoedd Natura 2000 a Ramsar. Caniataodd nodi goblygiadau posibl o'r fath i'r tîm cynllunio eu cymryd i ystyriaeth wrth i'r polisiâu yn y Fframwaith Datblygu Cenedlaethol drafft gael eu datblygu.

Mae'r Fframwaith Datblygu Cenedlaethol drafft (sef testun yr Adroddiad Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd hwn) yn nodi 33 o bolisiâu yn trafod amrywiaeth o bynciau sy'n pennu'r cyfeiriad ar gyfer datblygu yng Nghymru o 2020 i 2040. Y Fframwaith Datblygu Cenedlaethol yw'r haen uchaf o gynllun datblygu yng Nghymru ac mae'n canolbwyntio ar faterion a heriau ar raddfa genedlaethol. Nid yw'n nodi prosiectau penodol felly, nac yn neilltuo datblygiad i bob rhan o Gymru, ac nid yw chwaith yn cynnwys polisiâu ar bob math o ddefnydd tir. Yn hytrach, mae'n fframwaith a fydd yn cael ei ategu a'i gefnogi gan Gynlluniau Datblygu Strategol ar lefel ranbarthol a Chynlluniau Datblygu Lleol ar lefel awdurdod lleol. Y cynlluniau 'haen is' hyn fydd yn cynnig mwy o fanylion am leoliadau penodol a mathau o seilwaith a datblygiad.

Yn unol â chanllawiau DTA, er mwyn canfod na fyddai unrhyw effaith niweidiol ar gyfanrwydd safle Natura 2000/ Ramsar, caiff corff llunio cynlluniau ddibynnu ar fesurau lliniaru mewn cynllun haen is neu lefel prosiect dim ond os bydd y tri maen prawf canlynol wedi eu bodloni:

- *Ni all asesiad y cynllun lefel uwch ragweld yn rhesymol unrhyw effaith ar safle Ewropeaidd mewn ffordd ystyrlon; tra bydd gan*
- *Y cynllun haen is neu lefel prosiect, a fydd yn nodi'n fwy cywir natur, amseriad, hyd, maint neu leoliad datblygiad, ac felly ei effeithiau posibl, yr hyblygrwydd angenrheidiol o ran union natur, amseriad, hyd, maint a lleoliad y cynnig i alluogi effaith niweidiol ar gyfanrwydd safle i gael ei hosgoi; ac*
- *Mae'r Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd o'r cynllun neu brosiect haen is yn ofynnol fel mater o gyfraith neu bolisi Llywodraeth.*



O ystyried natur y Fframwaith Datblygu Cenedlaethol, y cynlluniau haen is fydd yn cynnwys manylion digonol felly ar gyfer asesiad ystyrion o'r effeithiau posibl y gallai datblygiad o'r fath eu cael ar safleoedd Natura 2000/Ramsar. Mae'r Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd ar lefel hon yr hierarchaeth gynllunio yn angenrheidiol lefel uchel a rhagofalus felly.

Mae'r cam Sgrinio yn nodi'r polisïau hynny yr ystyrir y gallent arwain at ddatblygiad a allai fod â'r *potensial* o effeithiau sylweddol tebygol ar safleoedd Natura 2000/Ramsar. Cynorthwyodd y ddogfen Synnwyr y Fawd (Atodiad A) i ganolbwyntio'r asesiad sgrinio ar y mathau hynny o ddatblygiadau a allai effeithio ar gynefinoedd a rhywogaethau cymwys safleoedd Natura 2000/ Ramsar (gweler hefyd 1.5, isod, am grynoded o'r broses asesu hon). Aethpwyd â'r polisïau a 'sgriniwyd i mewn' i'r Asesiad Priodol wedyn, a nododd effeithiau penodol i bolisi a mesurau lliniaru cysylltiedig; nod hyn oedd tynnu sylw at y materion penodol y byddai angen mynd i'r afael â nhw yn Asesiadau Rheoliadau Cynefinoedd cynlluniau a phrosiectau haen is.

Fel y nodir yn y trydydd pwynt bwled uchod, mae'n ofynnol i bobl cynllun a phrosiect haen is o fewn neu'n agos at safleoedd Natura 2000/ Ramsar gydymffurfio â'r Rheoliadau Cadwraeth Cynefinoedd a Rhywogaethau (2017) fel mater o gyfraith. Felly, beth bynnag fo'r geiriad polisi sydd wedi ei gynnwys yn y Fframwaith Datblygu Cenedlaethol, byddai Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd statudol o gynlluniau/ prosiectau haen is yn ofynnol. Serch hynny, mae'n bwysig bod yr Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd hwn o'r Fframwaith Datblygu Cenedlaethol haen uwch yn nodi'r mathau o effeithiau posibl a allai ddeillio o weithredu polisi, a sut y gellid osgoi/lliniaru'r rhain yn ddiweddarach (h.y. tynnu sylw at broblemau posibl yn gynnar), yn ogystal â darparu'r sicrwydd polisi lefel uchel y bydd Cynlluniau Datblygu Strategol a Chynlluniau Datblygu Lleol yn y dyfodol yn dilyn y broses angenrheidiol i nodi ac asesu goblygiadau posibl i safleoedd Natura 2000/Ramsar wrth neilltuo tir ar gyfer datblygu. Bydd angen i'r cynllun lleol dilynol, neu hyd yn oed Asesiadau Rheoliadau Cynefinoedd lefel prosiect gymryd i ystyriaeth yr effeithiau posibl a nodir yn yr Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd hwn i lywio eu datblygiad polisi a sicrhau y gellir darparu mesurau lliniaru neu wneud iawn priodol pan nodir y potensial ar gyfer effeithiau niweidiol.

Mae'n bwysig nodi mai dyma sut y mae'r broses Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd ailadroddol yn sicrhau na ellir cydsynio neu weithredu cynlluniau a phrosiectau heb sicrhau yn gyntaf na fyddent yn cael effaith niweidiol sylweddol ar gyfanrwydd y rhwydwaith Ewropeaidd o safleoedd Natura 2000 a Ramsar. Mae'r adran nesaf yn disgrifio sut y caiff yr effeithiau posibl hyn eu hasesu.

## 1.5 Asesu effeithiau sylweddol tebygol ar safleoedd Natura 2000/ Ramsar

Mae'r asesiad o oblygiadau'r gwahanol bolisïau a nodir yn y Fframwaith Datblygu Cenedlaethol ar gyfer y safleoedd Natura 2000/ Ramsar yn seiliedig ar ystyriaeth nid yn unig o'r cynefinoedd a'r rhywogaethau cymwys o fewn pob safle Natura 2000/ Ramsar ond hefyd y pellter y tu hwnt i ffiniau pob safle lle gellid cael effeithiau sylweddol o hyd, o bosibl. Dyma'r sail ar gyfer sefydlu 'clustogfeydd' o amgylch pob safle Natura 2000/ Ramsar. Yn amlwg mae'r ystyriaeth fanwl hon o glustogfeydd yn bosibl dim ond lle ceir elfen ofodol amlwg i bolisi (e.e. ehangu arfaethedig maes awyr Caerdydd), ond er gwaethaf hynny gellir cymhwyso'r egwyddorion yn fwy cyffredinol wrth ystyried y potensial i bolisïau arwain at effeithiau.

Darparodd y ddogfen Synnwyr y Fawd (gweler Atodiad A) yr egwyddorion sy'n sail i'r broses Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd i'r cynllunwyr a oedd yn datblygu ac yn ysgrifennu'r Fframwaith Datblygu Cenedlaethol. Yn benodol, disgrifiodd sut y mae'n angenrheidiol deall y llwybrau effaith posibl rhwng y gwahanol fathau o ddatblygiad a gefnogir gan y Fframwaith Datblygu Cenedlaethol a'r cynefinoedd a'r rhywogaethau cymwys ar gyfer Natura 2000/ Ramsar ledled Cymru. Disgrifiodd hefyd sut yr oedd yn angenrheidiol ystyried i ba raddau y gellid peryglu Amcanion Cadwraeth y safleoedd hyn o bosibl. Crynhowyd y mathau o lwybr effaith posibl fel a ganlyn:

- Cymryd tir ar safle Natura 2000/ Ramsar (h.y. colli cynefin uniongyrchol);
- Diraddio cynefin ar safle Natura 2000/ Ramsar (h.y. colli cynefin anuniongyrchol);
- Effeithiau o ganlyniad i ddirywiad ansawdd aer;
- Effeithiau ar ansawdd neu gyfaint dŵr;
- Perygl o ddatleoli tarfu rhywogaethau sy'n nodweddiad cymhwyso safle Natura 2000/ Ramsar;
- Perygl o farwolaeth (i rywogaethau symudol); a

- Gwahanu a darnio yn creu rhwystrau i symudiad.

O gofio y gall nifer o'r effeithiau hyn ymestyn ymhell y tu hwnt i ffiniau safleoedd Natura 2000/ Ramsar, mae angen esboniad pellach ynghylch y defnydd o glustogfeydd o amgylch gwahanol fathau o safle dynodedig. Darperir enghraifft o'r defnydd o glustogfeydd fel hyn yn yr Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd o'r Ardaloedd Blaenoriaeth ar gyfer Ynni'r Haul a'r Gwynt ledled Cymru (Atodiad B); mae Ffigur 2 yn Atodiad B nid yn unig yn dangos y berthynas ofodol rhwng yr Ardaloedd Blaenoriaeth a'r safleoedd Natura 2000/ Ramsar ledled Cymru ond hefyd yn dangos y clustogfeydd o amgylch pob safle.

At ddibenion yr Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd ar gyfer Ynni'r Haul a'r Gwynt a'r Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd hwn o'r Fframwaith Datblygu Cenedlaethol ei hun, mae clustogfeydd o amgylch safleoedd Natura 2000/ Ramsar wedi cael eu defnyddio gyda'r cyfiawnhad canlynol:

- Gan fod ACAau a safleoedd Ramsar yn seiliedig ar gynefinoedd yn gyffredinol, mae'r effeithiau (y tu hwnt i'r cymryd tir uniongyrchol amlwg) yn ymwneud yn bennaf ag effeithiau hydrolegol ar gynefinoedd gwlyptir ac effeithiau posibl newidiadau i ansawdd aer fel gwaddodi nitrogen. Er y gall yr olaf ddigwydd dros bellteroedd hwy, yn enwedig pan fo'r cynefin yn arbennig o sensitif i orfaethu, mae effeithiau sylweddol (e.e. fel bod planhigion unigol yn cael eu niweidio yn ffisiolegol neu fod cymunedau planhigion yn cael eu newid gan gystadleurwydd cynyddol y rhywogaethau mwy gwydn sy'n bresennol) yn eithriadol o annhebygol dros bellteroedd hwy, oherwydd gwaddodiad allyriadau yn yr aer. **Pennwyd y glustogfa ar gyfer safleoedd Ramsar ac ar gyfer ACAau lle nad yw ystlumod (ac adar) yn nodwedd gymhwyso fel 5 cilomedr felly.**
- Er y gall rhai rhywogaethau ystlumod hedfan pellteroedd hwy na 10 cilomedr i gyrraedd manau chwilota am fwyd, mae mwyafrif llethol y cynefin bwydo sydd ei angen i ddarparu ar gyfer clwyd (h.y. 'ardal gynhaliath y glwyd (RSZ)') yn llawer agosach na hyn (ystyrir mai radiws o 4 cilomedr o'r glwyd yw'r RSZ ar gyfer ystlumod trwyn pedol yn gyffredinol). Er y gall ystlumod hedfan pellteroedd maith o glwydi haf i safleoedd gaeafgysgu, mae'r peryglon sy'n gysylltiedig ag amlygiad i unrhyw fath o ddatblygiad (e.e. ffermydd gwynt, cynlluniau ffyrdd, ac ati) yn llawer is o gofio y cyflawnir y teithiau hyn unwaith y flwyddyn yn unig (yn hytrach na'n rheolaidd, fel yn ystod y misoedd gweithredol, sef Ebrill i Hydref yn fras). **Pennwyd y glustogfa ar gyfer ACAau lle mae ystlumod yn nodwedd gymhwyso fel 10 cilomedr felly.**
- Mae'r glustogfa a bennwyd ar gyfer adar yn fwy nag ar gyfer ystlumod yn bennaf oherwydd bod adar penodol sy'n gysylltiedig ag AGAau a safleoedd Ramsar (e.e. adar ysglyfaethus, adar hela a rhydyddion, ac ati) yn tueddu i hedfan pellteroedd hwy yn fodlon yn rhan o'u hymddygiad chwilota am fwyd. Yn sicr felly, nid yw adar sy'n gysylltiedig â safle dynodedig wedi eu cyfyngu i ffiniau'r lleoliad hwnnw a byddant yn aml yn hedfan cryn bellter ohono i fwyta, clwydo neu fridio. Dyma sail y cysyniad o 'dir cysylltiedig â swyddogaeth' a'r ffaith bod angen i Asesiadau Rheoliadau Cynefinoedd o AGAau/ safleoedd Ramsar gymryd i ystyriaeth y ffaith y bydd adar o'r boblogaeth ddynodedig yn aml yn treulio amser y tu allan i ffiniau'r ardal ddynodedig. Er bod hyn yn annhebygol o fod yn broblem sylweddol i fathau penodol o ddatblygiad sy'n cael eu hybu gan y Fframwaith Datblygu Cenedlaethol, fel ffermydd solar (er y gallai presenoldeb nodweddion o'r fath ddisodli adar o ardaloedd y byddent wedi eu defnyddio yn flaenorol), ceir perygl yn sicr o farwolaeth, tarfu ac effeithiau eraill (e.e. yn gysylltiedig â ffermydd gwynt, ffyrdd, twristiaeth, cathod a/neu fynd â chŵn am dro o ddatblygiad preswyl newydd, ac ati), hyd yn oed os ydynt gryn bellter o ffin safle Natura 2000/ Ramsar sy'n cynnal adar. **Pennwyd y glustogfa ar gyfer AGAau (ac ar gyfer safleoedd Ramsar lle mae'r nodweddion cymhwyso yn cynnwys rhywogaethau adar) fel 20 cilomedr felly.**
- Pennwyd clustogfa benodol hefyd ar gyfer yr AGAau hynny lle mae'r frân goesgoch yn nodwedd gymhwyso. Yn dilyn ymgynghoriad â Cyfoeth Naturiol Cymru, cytunwyd bod statws penodol y rhywogaeth hon yng Nghymru (mae rhwydwaith AGA Cymru yn cynnal tua 30% o holl boblogaeth y DU), a'r ffaith ei bod yn hysbys bod adar ifanc yn gwasgaru dros bellteroedd arbennig o fawr, yn golygu bod angen clustogfa fwy. Mae tystiolaeth yn awgrymu bod 98% o wrywod yn gwasgaru hyd at 35 cilomedr o'r safle geni, tra bod tua 82% o fenywod yn gwasgaru hyd at 40 cilomedr. **Pennwyd y glustogfa ar gyfer AGAau lle mae'r nodweddion cymhwyso yn cynnwys y frân goesgoch fel 40 cilomedr felly.**

- Yn olaf, er bod clustogfa o 5 cilomedr wedi cael ei phennu ar gyfer cynefinoedd ACA, lle bynnag y mae ACA afonol i lawr yr afon o ddatblygiad arfaethedig, gallai effeithiau sy'n gysylltiedig â symudiad sylweddol gwaddodion ymestyn ymhellach na hyn. Nid yw hyn cymaint oherwydd y ffaith bod gwaddodion yn debygol o deithio ymhellach na hyn, ond yn fwy oherwydd y gall rhywogaethau pysgod unigol sy'n gysylltiedig â'r safleoedd hyn ymddangos yn hawdd gryn bellter i fyny'r afon o ffin yr afon ddynodedig (e.e. mewn isafonydd nad ydynt wedi'u dynodi).

Dylid nodi nad yw'r pellteroedd clustogfa hyn wedi cael eu datblygu'n gyffredinol ar sail dadansoddiad cynhwysfawr o'r llenyddiaeth (ac eithrio ar gyfer y frân goesgoch) ond maent yn hytrach yn bellteroedd cymharol safonol a fabwysiadwyd gan y diwydiant ymgynghori ecolegol. Rydym wedi mabwysiadu'r pellteroedd hyn ar sail ein barn broffesiynol ein hunain a mabwysiadu'r egwyddor ragofalus. Byddant yn weddol ragofalus o ran mathau penodol o ddatblygiad Fframwaith Datblygu Cenedlaethol (e.e. ffermydd solar, seilwaith telathrebu symudol, ac ati), oherwydd er bod y potensial yn dal i fodoli i adar o AGAau/ safleoedd Ramsar cyfagos gael eu disodli o diroedd bwydo gan ddatblygiad o'r fath, mae'r effaith yn debygol o fod yn llai na'r hyn sy'n gysylltiedig â mathau eraill o ddatblygiad (fel ffermydd gwynt a'r potensial o wrthdaro â thyrbinau) lle mae effeithiau niweidiol sylweddol ar boblogaethau yn fwy tebygol.

Mae'r clustogfeydd hyn yn bwysig iawn o ran yr ystyriaeth o ddatblygiad ledled Cymru yn y dyfodol. Yn eu hanfod, dylai'r clustogfeydd hyn gynorthwyo proses Sgrinio'r Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd ar gyfer cynigion datblygu dilynol. Gellir sgrinio unrhyw ddatblygiad arfaethedig sydd y *tu allan* i'r glustogfa ar gyfer unrhyw safleoedd Natura 2000/ Ramsar allan o'r Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd, gan y gellir tybio bod effeithiau sylweddol yn eithriadol o annhebygol. Mewn cyferbyniad, bydd angen sgrinio unrhyw ddatblygiad arfaethedig o fewn clustogfa (gan dybio bod llwybrau effaith cydnabyddedig). Nid yw hyn yn golygu y bydd angen Asesiad Priodol yn awtomatig, ond mae yn golygu y bydd angen paratoi Adroddiad Sgrinio Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd, yn cyflwyno ystyriaeth fanwl o'r llwybrau effaith rhwng y datblygiad arfaethedig ac unrhyw gynefinoedd a/neu rywogaethau cymwys ar gyfer safle Natura 2000/ Ramsar, ac felly'r potensial ar gyfer Effeithiau Sylweddol Tebygol.

Yr agosaf yw datblygiad arfaethedig (h.y. un sy'n deillio o'r Fframwaith Datblygu Cenedlaethol) i safle Natura 2000/ Ramsar, y lleiaf tebygol y bydd o basio prawf yr Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd ac felly derbyn cydsyniad. Fodd bynnag, nid yw hyn yn golygu bod ardal 'sterilaidd' o gwmpas pob safle Natura 2000/ Ramsar yn awtomatig. Fel rheol fras gyffredinol ar gyfer AGAau/ safle Ramsar, fodd bynnag, mae unrhyw ddatblygiad arfaethedig sydd o fewn 10 cilomedr i safle sy'n cynnal hebogiaid neu fodaod tinwen yn debygol o gael trafferth yn pasio prawf yr Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd, gan y bydd yn anodd 'dangos y tu hwnt i amheuaeth wyddonol resymol' na fydd adar sy'n gysylltiedig â'r AGA/ safle Ramsar yn agored i effeithiau (fel tarfu neu wrthdaro â thyrbinau gwynt/cerbydau). Mae hyn oherwydd y ffaith bod y pellteroedd chwilota am fwyd hysbys ar gyfer bodaod tinwen a hebogiaid o'r llenyddiaeth yn 10 cilomedr a 18 cilomedr, yn eu trefn. Yn yr un modd, mae unrhyw gynnig o fewn 5 cilomedr i AGA/ safle Ramsar sy'n cynnal cudyllod bach, barcutiaid neu wyddau talcen-wen yr Ynys Werdd (y mae eu pellteroedd chwilota am fwyd yn 5 cilomedr, 6 cilomedr a 5-8 cilomedr, yn eu trefn) hefyd yn debygol o'i chael yn anodd dangos dim effaith sylweddol debygol. Mae'r glustogfa AGA/ safle Ramsar gyffredinol o 20 cilomedr (a nodir uchod) yn ddigonol felly (ac yn hynod ragofalus i lawer o rywogaethau) i gynnwys yr holl rywogaethau adar cymwys ac eithrio'r frân goesgoch.

Yn olaf, mae nifer o adar dŵr yn fudol, ac felly'n hedfan pellteroedd llawer hwy rhwng eu tiroedd bridio a gaeafu. Er ei bod yn amlwg ddim yn ymarferol cymryd y pellteroedd hyn i ystyriaeth wrth sefydlu clustogfeydd, mae'n bwysig serch hynny nodi y bydd angen cymryd hyntiau traddodiadol ar gyfer y rhywogaethau hyn i ystyriaeth wrth gynnal Asesiadau Rheoliadau Cynefinoedd lefel cynllun neu brosiect lleol. Mae hyn oherwydd hyd yn oed os yw safle cynnig lawer o gilomedrau i ffwrdd o ffin AGA/ safle Ramsar, efallai ei fod yn dal wedi ei leoli'n uniongyrchol ar lwybr hedfan mudol rhywogaeth AGA/ Ramsar. Wedi dweud hynny, mae mudo yn aml yn digwydd ar gryn uchder, felly mae'r peryglon yn debygol o fod yn fach (ac eithrio ar gyfer ehangu maes awyr), ond bydd angen ystyried yr effaith bosibl hon o leiaf wrth sgrinio.

Mae'n bwysig felly ystyried goblygiadau posibl datblygiad a hwylusir gan y Fframwaith Datblygu Cenedlaethol ar safleoedd Natura 2000/ Ramsar hyd yn oed os ydynt wedi eu lleoli cryn bellter i ffwrdd (hyd at 20 cilomedr), o gofio'r potensial ar gyfer rhywogaethau cymwys symudol (yn enwedig adar ac ystlumod) i gael eu heffeithio i ffwrdd o ffiniau eu safleoedd dynodedig.

## 1.6 Dull Sgrinio

Fel y disgrifiwyd yn Adran 1.4, nid yw'n bosibl ar y lefel strategol hon bod yn benodol am y safleoedd Natura 2000/ Ramsar a allai gael eu heffeithio, na'r effeithiau penodol a allai ddeillio o bosibl o'r polisiâu a amlinellir yn y Fframwaith Datblygu Cenedlaethol (ac eithrio lle ceir elfennau gofodol i'r cynllun, fel yr Ardaloedd Blaenoriaeth ar gyfer datblygiad Ynni Adnewyddadwy). Yn hytrach, mae angen i'r broses sgrinio ddilyn canllawiau sy'n benodol i ddogfennau cynllun a pholisi fel hon. Adolygwyd y 33 polisi felly yn erbyn y categorïau asesiad sgrinio a nodir yn Llawlyfr Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd DTA ('Llawlyfr DTA'), sef y canllaw arfer gorau ar gyfer cwblhau Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd o'r math hwn o ddogfen (cyfeiriwch at Dabl 2).

Cynlluniwyd y categorïau asesu hyn yn benodol i nodi'r gwahanol fathau o bolisi y gellid eu gweithredu trwy ddogfennau cynllunio lefel uchel, ac i benderfynu a allai camau yn y dyfodol sy'n deillio o bolisi arwain at ddatblygiad a allai effeithio wedyn ar safleoedd Natura 2000/Ramsar.

Tabl 2: Categorïau Asesiad Sgrinio (Llawlyfr DTA)

Categori	Disgrifiad
Categori A:	<b>Datganiadau polisi cyffredinol/dyheadau cyffredinol.</b> Dylai polisiâu nad ydynt yn ddim mwy na datganiadau polisi cyffredinol neu ddyheadau gwleidyddol cyffredinol gael eu sgrinio allan gan na allant gael effaith arwyddocaol ar safle.
Categori B:	<b>Polisiâu sy'n rhestru meini prawf cyffredinol ar gyfer profi derbynioldeb/cynaliadwyedd cynigion.</b> Ni all y polisiâu cyffredinol hyn gael unrhyw effaith ar safle Ewropeaidd ac felly dylid eu sgrinio allan.
Categori C:	<b>Cynigion y cyfeirir atynt ond nad ydynt wedi'u cynnig gan y cynllun.</b> Dylid sgrinio allan unrhyw gyfeiriadau at gynigion penodol am brosiectau, megis y rheiny a nodir, er enghraifft, mewn fframweithiau polisi uwch megis Datganiadau Polisi Cenedlaethol, sy'n ymwneud efallai â phrosiectau seilwaith arwyddocaol. Caiff y rhain eu hasesu gan yr Ysgrifennydd Gwladol neu Weinidogion Cymru.
Categori D:	<b>Polisiâu Diogelu'r Amgylchedd/gwarchod safleoedd.</b> Polisiâu yw'r rhain sydd â'r diben amlwg o ddiogelu'r amgylchedd naturiol, gan gynnwys bioamrywiaeth, a/neu gadw neu wella'r amgylchedd naturiol, adeiledig neu hanesyddol, lle byddai mesurau gwella yn annhebygol o gael unrhyw effeithiau andwyol ar safle Ewropeaidd. Gellir eu sgrinio allan gan fod gweithredu'r polisiâu yn debygol o ddiogelu safleoedd Ewropeaidd yn hytrach na chael effaith andwyol, ac ni fyddent yn tanseilio'r amcanion cadwraeth.
Categori E:	<b>Polisiâu neu gynigion sy'n llywio newidiadau mewn ffordd sy'n diogelu safleoedd Ewropeaidd rhag effeithiau andwyol.</b> Bydd effaith y polisiâu neu'r cynigion hyn yn llywio newidiadau mewn ffordd sy'n diogelu safleoedd Ewropeaidd y gallai'r newidiadau effeithio ar eu nodweddion cymhwysol, ac felly geir eu sgrinio allan.
Categori F:	<b>Polisiâu neu gynigion na allant arwain at ddatblygu neu newid arall.</b> Polisiâu nad ydynt ynddynt eu hunain yn arwain at ddatblygu neu newidiadau eraill, er enghraifft, gan eu bod yn ymwneud â dylunio neu feini prawf ansoddol eraill ar gyfer datblygu, megis deunyddiau ar gyfer datblygiad newydd. Nid ydynt yn sbarduno unrhyw ddatblygiadau neu newidiadau eraill a allai effeithio ar safle Ewropeaidd a gellir eu sgrinio allan.
Categori G:	<b>Polisiâu neu gynigion na allai gael unrhyw effaith andwyol ddirnadwy ar safle.</b> Polisiâu sy'n gwneud darpariaethau ar gyfer newid, ond na allai gael unrhyw effaith ddirnadwy ar safle Ewropeaidd, am nad oes unrhyw gysylltiad achosol neu gysylltiad rhyngddynt hwy a nodweddion cymhwysol unrhyw safleoedd Ewropeaidd, ac felly gellir eu sgrinio allan.
Categori H:	<b>Polisiâu neu gynigion na allai eu heffeithiau (gwirioneddol neu ddamcaniaethol) danseilio'r amcanion cadwraeth (naill ai ar eu pen eu hunain neu o'u cyfuno ag agweddau eraill ar y cynllun hwn neu gynlluniau neu brosiectau eraill).</b> Polisiâu neu gynigion sy'n gwneud darpariaethau ar gyfer newid, ond nad ydynt yn cael unrhyw effaith arwyddocaol ar safle Ewropeaidd, naill ai ar eu pen eu hunain neu o'u cyfuno ag agweddau o'r un cynllun, neu o'u cyfuno â chynlluniau neu brosiectau eraill, ac felly gellir eu sgrinio allan. Gallai'r rhain gynnwys achosion lle bo rhai effeithiau posibl a fyddai (yn ddamcaniaethol hyd yn oed o'u cyfuno) yn amlwg yn anarwyddocaol ac ni fyddai modd iddynt danseilio'r amcanion cadwraeth.
Categori I:	<b>Polisiâu neu gynigion ag effaith arwyddocaol debygol ar safle ar eu pen eu hunain.</b> Dylai polisiâu neu gynigion sy'n debygol o gael effaith arwyddocaol ar safle Ewropeaidd ar eu pen eu hunain gael eu sgrinio i mewn.
Categori J:	<b>Polisiâu neu gynigion nad ydynt yn debygol o gael effaith arwyddocaol ar eu pen eu hunain.</b> Byddai'r agweddau hyn ar y cynllun yn cael rhywfaint o effaith ar safle, ond nid yw'r effaith yn debygol o fod yn arwyddocaol; felly mae angen eu hystyried o safbwynt effeithiau cronus (o'u cyfuno ag

Categori	Disgrifiad
	eraill). Byddant wedyn yn cael eu hail-gategoreiddio naill ai i Gategori K (dim effaith arwyddocaol o'u cyfuno) neu Gategori L (yn debygol o gael effaith arwyddocaol o'u cyfuno).
Categori K ac L:	<b>Polisïau neu gynigion nad ydynt yn debygol o gael effaith arwyddocaol naill ai ar eu pen eu hunain neu'n gyfunol (K), neu'n debygol o gael effaith arwyddocaol cyfunol (L) ar ôl y prawf cyfuno.</b>
Categori M:	<b>Polisïau neu gynigion ardal, safle neu achos penodol wedi'u teilwra sydd â'r bwriad o osgoi neu leihau effeithiau niweidiol ar safleoedd Ewropeaidd.</b> Polisïau neu gynigion sydd wedi cael eu cynnwys yn y cynllun gyda'r bwriad o osgoi neu leihau effeithiau ar safle(oedd) Ewropeaidd penodol y gallai eu nodweddion cymhwyso gael eu heffeithio fel arall gan weithrediad y cynllun.

Yn dilyn asesiad yn erbyn y categorïau a nodir yn Tabl 2, aethpwyd â pholisïau na ellid eu 'sgrinio allan' ymlaen i ail gam yr Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd, yr Asesiad Priodol. (hynny yw, y rhai yr aseswyd eu bod yng Nghategori I na ellid dangos na fyddai unrhyw effeithiau sylweddol tebygol ar safleoedd Natura 2000/Ramsar)

Mae Tabl 3 yn darparu'r asesiad sgrinio ar gyfer yr holl bolisïau a amlinellir yn y Fframwaith Datblygu Cenedlaethol. Uwchleuwyd polisïau Categori I yr aethpwyd â nhw ymlaen i Asesiad Priodol yn llwyd.

Tabl 3: Asesiad Sgrinio o Bolisiau'r Fframwaith Datblygu Cenedlaethol

Polisi	Cyfiawnhad sgrinio	Penderfyniad Sgrinio
<b>Pennod 4: Dewisiadau Strategol a Gofodol</b>		
P1 – Twf Trefol Cynaliadwy	Mae'r polisi hwn yn cefnogi twf trefol mewn canolfannau trefol cywasgedig gyda rhwydwaith trafndiaeth gyhoeddus integredig. Mae'n hybu datblygiad dwysedd uwch a defnydd cymysg ar safleoedd â mynediad da at ganolfannau presennol a chanolfannau trafndiaeth gyhoeddus. Mae'n cyflwyno egwyddorion cynllunio a dylunio trefol da i'w hystyried wrth gynllunio ar gyfer twf yn y dyfodol. Mae hwn yn gyfeiriad polisi cyffredin a rhoddir sylw i oblygiadau i safleoedd Natura 2000/ Ramsar yn fwy priodol o dan bolisiau eraill yn y Fframwaith Datblygu Cenedlaethol sy'n cynnig mwy o fanylion gofodol.	Sgriniwyd allan (Categori A)
P2 – Cefnogi Canolfannau Trefol	Mae'r polisi hwn yn darparu cymorth i gyfleusterau gwasanaethau cyhoeddus o faint sylweddol gael eu lleoli yng nghanol trefi a dinasoedd. Mae'n cynnig canllawiau ar leoli gwasanaethau a'r dull i'w ddilyn i asesu neilltuadau cynllun datblygu ond ni fyddai gweithredu'r polisi ynddo'i hun yn arwain at newid.	Sgriniwyd allan (Categori B)
P3 – Buddsoddiad Cyhoeddus, Adeiladau Cyhoeddus a Thir Cyhoeddus	Mae'r polisi hwn yn cyflwyno safbwynt Llywodraeth Cymru o ran ei buddsoddiadau a'i daliadau tir a sut y bydd yn eu defnyddio i gynorthwyo darpariaeth lleoedd cynaliadwy. Mae'n pennu'r cyfeiriad polisi ar gyfer Cynlluniau Strategol a Datblygu Lleol o ran tir cyhoeddus ond ni fyddai gweithredu'r polisi ynddo'i hun yn arwain at newid.	Sgriniwyd allan (Categori B)
P4 – Cefnogi Cymunedau Gwledig	Mae'r polisi hwn yn amlinellu cefnogaeth Llywodraeth Cymru i gymunedau gwledig cynaliadwy. Mae'n nodi'r cyfeiriad polisi ar gyfer Cynlluniau Strategol a Datblygu Lleol o ran diwallu anghenion cymunedau gwledig. Mae hwn yn gyfeiriad polisi cyffredin a rhoddir sylw i oblygiadau i safleoedd Natura 2000/ Ramsar yn fwy priodol o dan bolisiau eraill yn y Fframwaith Datblygu Cenedlaethol a/neu drwy gynlluniau haen is.	Sgriniwyd allan (Categori A)
P5 – Darparu Cartrefi Fforddiadwy	Mae'r polisi hwn yn nodi meini prawf ar gyfer sicrhau bod y ddarpariaeth o gartrefi fforddiadwy yn cael ei chynyddu trwy gadarnhau bod cyllid yn cael ei ddyrannu a'i ddefnyddio yn effeithiol. Mae'r polisi yn darparu canllawiau ar gyfer Cynlluniau Strategol a Datblygu Lleol o ran anghenion tai fforddiadwy. Caiff manylion y lleoliadau ar gyfer twf, gan gynnwys datblygiadau tai, eu hasesu o dan bolisiau eraill ar gyfer pob rhanbarth. Ni fyddai gweithredu'r polisi ynddo'i hun yn arwain at newid.	Sgriniwyd allan (Categori B)
P6 – Cynllunio mewn Parthau Gweithredu Symudol	Mae'r polisi hwn yn cyflwyno ymrwymiad i gynyddu signal ffonau symudol ac yn darparu ar gyfer tybiaeth o blaid seilwaith telathrebu symudol newydd. Er yr ystyrir ei bod yn debygol y byddai'r rhan fwyaf o seilwaith o'r fath ar raddfa fach, ac y byddai'n dod o dan ddatblygiad a ganiateir, ceir y potensial y bydd gofynion seilwaith mwy o bosibl yn effeithio ar safleoedd Natura 2000/Ramsar.  Darperir y goblygiadau posibl i safleoedd Natura 2000/ Ramsar o ganlyniad i'r polisi hwn yn fwy manwl yn yr Asesiad Priodol.	Sgriniwyd i mewn (Categori I)

Polisi	Cyfiawnhad sgrinio	Penderfyniad Sgrinio
P7 – Cerbydau Allyriadau Isel lawn	Mae'r polisi hwn yn nodi cefnogaeth Llywodraeth Cymru i gerbydau allyriadau isel iawn yng Nghymru. Byddai unrhyw ddatblygiad sy'n gysylltiedig â seilwaith cerbydau trydan ar raddfa fach ac yn gysylltiedig â rhwydweithiau ffyrdd presennol ac felly byddent yn annhebygol o arwain at unrhyw effaith dirnadwy ar safleoedd Natura 2000/ Ramsar. Byddai lleihau allyriadau cerbydau hefyd yn cynnig potensial ar gyfer effeithiau buddiol ar safleoedd Natura 2000/ Ramsar, trwy leihau llygredd aer er enghraifft.	Sgriniwyd allan (Categori H)
P8 – Fframwaith strategol ar gyfer gwella bioamrywiaeth a chydnerthedd ecosystemau	Mae'r polisi hwn yn pennu meini prawf i sicrhau gwelliant bioamrywiaeth a chydnerthedd ecosystemau. Rhagwelir y bydd y polisi hwn yn darparu clustogfeydd diogelu i safleoedd Natura 2000/ Ramsar yn anuniongyrchol trwy ddiogelu a gwella gwasanaethau ecosystem, rhwydweithiau ecolegol a bioamrywiaeth yn y cefn gwlad ehangach. Polisi diogelu yw hwn felly, ar gyfer asedau amgylcheddol.	Sgriniwyd allan (Categori D)
P9 – Coedwig Genedlaethol	Mae'r polisi hwn yn nodi ymrwymiad Llywodraeth Cymru i ddatblygu coedwig genedlaethol i Gymru. Er bod y polisi yn darparu ar gyfer canlyniad amgylcheddol cadarnhaol, efallai na fydd datblygu cynefin coedwig o reidrwydd yn cyd-fynd â'r amcanion cadwraeth ar gyfer safleoedd Natura 2000/ Ramsar a ddynodwyd ar sail presenoldeb mathau eraill o gynefin neu rywogaethau nad ydynt yn gysylltiedig â choedwigoedd. Fel y cyfryw, ni chymerir y potensial i safleoedd anaddas gael eu troi'n goedwigoedd i ystyriaeth yn y polisi ac ni ellir diystyru effeithiau posibl.  Darperir y goblygiadau posibl i safleoedd Natura 2000/ Ramsar o ganlyniad i'r polisi hwn yn fwy manwl yn yr Asesiad Priodol.	Sgriniwyd i mewn (Categori I)
P10 – Ynni'r Gwynt a'r Haul mewn Ardaloedd Blaenoriaeth	Mae'r polisi hwn yn nodi cefnogaeth Llywodraeth Cymru i ynni'r gwynt a'r haul ar y tri sy'n gysylltiedig ag Ardaloedd Blaenoriaeth ar gyfer Ynni'r Haul a'r Gwynt, gyda thymbylfaeth o blaid datblygu a derbynnyd cysylltiedig o newidiadau tirwedd. Mae'r polisi yn cynnwys y gofyniad i geisiadau cynllunio ddangos y sicrhawyd bod effeithiau ar safleoedd cadwraeth natur cyn lleied â phosibl.  Mae'n bosibl y gallai prosiectau ynni adnewyddadwy effeithio ar safleoedd Natura 2000/ Ramsar mewn nifer o ffyrdd, gan gynnwys effeithiau uniongyrchol (fel colli a diraddio cynefin, a marwolaeth adar ac ystumod o ganlyniad i wrthdaro â thyrbinau gwynt), ac effeithiau anuniongyrchol (fel tarfu a golau'r haul). Nododd adolygiad o oblygiadau'r lleoliad i'r Ardaloedd Blaenoriaeth drafft a nodwyd eu bod wedi osgoi mwyafrif y safleoedd Natura 2000/ Ramsar i raddau helaeth, ond roedd y potensial ar gyfer effeithiau o ganlyniad i agosrwydd yn parhau, a mireiniwyd yr Ardaloedd Blaenoriaeth ymhellach. Er i'r gwaith mireinio hwn leihau ymhellach y perygl i safleoedd Natura 2000/ Ramsar, ni fydd yn cael gwared ar y risg yn llwyr.  Darperir y goblygiadau posibl i safleoedd Natura 2000/ Ramsar o ganlyniad i'r polisi hwn yn fwy manwl yn yr Asesiad Priodol, ac Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd Ardaloedd Blaenoriaeth ar gyfer Ynni'r Haul a'r Gwynt (Atodiad B).	Sgriniwyd i mewn (Categori I)



Polisi	Cyfiawnhad sgrinio	Penderfyniad Sgrinio
P11 - Ynni'r Gwynt a'r Haul y Tu Allan i Ardaloedd Blaenoriaeth	<p>Mae'r polisi hwn yn pennu'r meini prawf i'w bodloni gan geisiadau ar gyfer datblygiadau ynni'r gwynt a'r haul ar y tir y <i>tu allan</i> i'r Ardaloedd Blaenoriaeth a nodir ym Mholisi P10. Mae'r polisi yn ei gwneud yn ofyniad ar brosiectau i ddangos na fyddai unrhyw effeithiau niweidiol annerbyniol ar safleoedd cadwraeth natur o ganlyniad i geisiadau o'r fath. Er bod hyn yn cynnig rhywfaint o sicrwydd y bydd yn ofynnol i geisiadau ddangos eu bod wedi asesu'r effeithiau posibl ar safleoedd dynodedig, ni ellir dibynnu arno i ddod i'r casgliad na fyddai unrhyw effeithiau sylweddol tebygol ar safleoedd Natura 2000/ Ramsar.</p> <p>Darperir y goblygiadau posibl i safleoedd Natura 2000/ Ramsar o ganlyniad i'r polisi hwn yn fwy manwl yn yr Asesiad Priodol.</p>	Sgriniwyd i mewn (Categori I)
P12 – Ynni'r Gwynt a'r Haul mewn Parciau Cenedlaethol ac Ardaloedd o Harddwch Naturiol Eithriadol	<p>Mae'r polisi hwn yn eithrio datblygiadau ynni ar y tir ac ynni'r haul mawr rhag cael eu caniatáu mewn Parciau Cenedlaethol neu Ardaloedd o Harddwch Naturiol Eithriadol (AHNE). Mae safleoedd o'r fath yn aml yn cefnogi safleoedd eraill o bwysigrwydd cadwraeth natur ac felly bydd y polisi hwn yn diogelu safleoedd dynodedig rhag datblygiad.</p>	Sgriniwyd allan (Categori D)
P13 – Datblygiadau Ynni Adnewyddadwy Eraill	<p>Mae'r polisi hwn yn nodi cefnogaeth Llywodraeth Cymru, mewn egwyddor, i bob technoleg ynni adnewyddadwy i gynorthwyo i fodloni targedau 2030. Mae'r polisi yn cyfeirio at gynigion ar gyfer prosiectau cynhyrchu ynni adnewyddadwy graddfa fawr (10MW ac uwch) eraill yn hytrach na'r rhai a ddarperir ym Mholisi P11; felly byddai angen yn yr un modd i brosiectau ddangos na fyddai unrhyw effeithiau niweidiol annerbyniol ar safleoedd cadwraeth natur a rhywogaethau o ganlyniad i geisiadau o'r fath. Er bod hyn yn cynnig rhywfaint o sicrwydd y bydd yn ofynnol i geisiadau ddangos eu bod wedi asesu'r effeithiau posibl ar safleoedd dynodedig, ni ellir dibynnu arno i ddod i'r casgliad na fyddai unrhyw effeithiau sylweddol tebygol ar safleoedd Natura 2000/ Ramsar.</p> <p>Darperir y goblygiadau posibl i safleoedd Natura 2000/ Ramsar o ganlyniad i'r polisi hwn yn fwy manwl yn yr Asesiad Priodol.</p>	Sgriniwyd i mewn (Categori I)
P14 – Ardaloedd Blaenoriaeth ar gyfer Rhwydweithiau Gwresogi Ardal	<p>Mae'r polisi hwn yn annog awdurdodau cynllunio i nodi cyfleoedd ar gyfer rhwydweithiau gwresogi ardal mewn Ardaloedd Blaenoriaeth ac yn ei gwneud yn ofynnol i ddatblygiadau newydd a phresennol eu hintegreiddio pan fo'n briodol. Ni fyddai'r polisi yn arwain at ddatblygiad ac felly ni fyddai'n effeithio ar safleoedd Natura 2000/ Ramsar.</p>	Sgriniwyd allan (Categori F)
P15 Uwchgynllunio ar gyfer Rhwydweithiau Gwresogi Ardal	<p>Mae'r polisi hwn yn pennu'r gofyniad i ddatblygiadau graddfa fawr, defnydd cymysg baratoi Uwchgynllun Ynni i ddarganfod ai Rhwydwaith Gwresogi Ardal yw'r opsiwn ynni mwyaf effeithiol. Ni fyddai gweithredu'r polisi hwn ynddo'i hun yn arwain at ddatblygiad.</p>	Sgriniwyd allan (Categori B)

**Pennod 5: Y Rhanbarthau**



Polisi	Cyfiawnhad sgrinio	Penderfyniad Sgrinio
P16 –Polisiâu Strategol ar gyfer Cynllunio Rhanbarthol	Mae'r polisi hwn yn cynnig amlinelliad o'r meini prawf i'w hymsefydlu mewn Cynlluniau Strategol a Chynlluniau Datblygu Lleol cyfansoddol pan fo'n berthnasol. Mae'n pennu'r cyfeiriad polisi ar gyfer Cynlluniau Strategol a Datblygu Lleol ac mae'n ddatganiad polisi cyffredinol na fyddai'n arwain at ddatblygiad ynddo'i hun. Mae'r polisi yn cynnwys y gofyniad i Gynlluniau Strategol sefydlu rhwydweithiau a chyfleoedd ecolegol ar gyfer diogelu neu wella cysylltedd y rhwydweithiau hyn. Ni fyddai gweithredu'r polisi hwn ynddo'i hun yn arwain at ddatblygiad.	Sgriniwyd allan (Categori B)
<b>Gogledd Cymru</b>		
P17 – Wrecsam a Glannau Dyfrdwy	<p>Mae'r polisi hwn yn nodi cefnogaeth Llywodraeth Cymru i Wrecsam a Glannau Dyfrdwy fod yn brif ganolbwynt ar gyfer twf a buddsoddiad rhanbarthol yn y gogledd. Mae'r polisi yn pennu'r cyfeiriad y dylai Cynlluniau Strategol a Datblygu Lleol ei ddilyn wrth gynllunio twf a datblygiad yn y rhanbarth.</p> <p>Mae nifer o safleoedd Natura 2000/ Ramsar wedi eu lleoli yn agos at y trefi hyn, yn ogystal ag o amgylch y morlin i'r gogledd o Lannau Dyfrdwy, a allai gael eu heffeithio gan dwf cynyddol yn yr ardaloedd hyn.</p> <p>Darperir y goblygiadau posibl i safleoedd Natura 2000/ Ramsar o ganlyniad i'r polisi hwn yn fwy manwl yn yr Asesiad Priodol.</p>	Sgriniwyd i mewn (Categori I)
P18 – Aneidiadau Arfordirol Gogledd Cymru	<p>Mae'r polisi hwn yn nodi cefnogaeth Llywodraeth Cymru i'r bwa arfordirol o Gaernarfon i Lannau Dyfrdwy fel y canolbwynt ar gyfer twf a reolir gan gydnabod swyddogaeth bwysig isranbarthol yr ardal. Mae'n ei gwneud yn ofynnol i Gynlluniau Strategol a Datblygu Lleol gydnabod swyddogaeth y coridor hwn fel canolbwynt ar gyfer tai, cyflogaeth a gwasanaethau allweddol.</p> <p>Mae nifer o safleoedd Natura 2000/ Ramsar wedi eu lleoli o amgylch arfordir y gogledd, ar y tir ac ar y môr, a allai gael eu heffeithio gan dwf cynyddol yn yr ardaloedd hyn.</p> <p>Darperir y goblygiadau posibl i safleoedd Natura 2000/ Ramsar o ganlyniad i'r polisi hwn yn fwy manwl yn yr Asesiad Priodol.</p>	Sgriniwyd i mewn (Categori I)
P19 – Lleiniau Glas yng Ngogledd Cymru	Mae'r polisi hwn yn cefnogi'r broses o nodi a rheoli lleiniau glas a fyddai'n diogelu asedau amgylcheddol rhag datblygiad.	Sgriniwyd allan (Categori D)
P20 – Porthladd Caergybi	<p>Mae'r polisi hwn yn nodi safbwynt Llywodraeth Cymru o ran datblygu'r porthladd a'i chefnogaeth i fuddsoddiad i wella capasiti.</p> <p>Gallai cynyddu capasiti'r porthladd, a gweithgareddau eraill sy'n gysylltiedig â'r porthladd, effeithio ar y safleoedd Natura 2000/ Ramsar sydd wedi eu lleoli o amgylch arfordir Ynys Môn.</p> <p>Darperir y goblygiadau posibl i safleoedd Natura 2000/ Ramsar o ganlyniad i'r polisi hwn yn fwy manwl yn yr Asesiad Priodol.</p>	Sgriniwyd i mewn (Categori I)

Polisi	Cyfiawnhad sgrinio	Penderfyniad Sgrinio
P21 – Cysylltiadau Trafnidiaeth â Gogledd-orllewin Lloegr	<p>Mae'r polisi hwn yn nodi safbwynt Llywodraeth Cymru o ran buddsoddiad mewn trafndiaeth yn y gogledd ac o ran gweithio gydag awdurdodau trawsffiniol. Mae'n pennu'r cyfeiriad polisi ar gyfer Cynlluniau Strategol a Datblygu Lleol o ran cefnogi cysylltiadau trafndiaeth a manteisio i'r eithaf ar gyfleoedd o gysylltedd gwell.</p> <p>Gallai gwella cysylltedd trafndiaeth trwy ddatblygu seilwaith newydd effeithio ar safleoedd Natura 2000/ Ramsar yn y rhanbarth, er enghraifft gallai ffyrdd newydd wahanu cynefinoedd a lleihau cysylltedd rhwng ardaloedd dynodedig.</p> <p>Darperir y goblygiadau posibl i safleoedd Natura 2000/ Ramsar o ganlyniad i'r polisi hwn yn fwy manwl yn yr Asesiad Priodol.</p>	Sgriniwyd i mewn (Categori I)
P22 – Gogledd-orllewin Cymru ac Ynni	<p>Mae'r polisi hwn yn nodi cefnogaeth Llywodraeth Cymru i fuddsoddiad mewn datblygiadau ynni newydd yn y gogledd-orllewin ac yn pennu meini prawf y bydd yn ofynnol i gynigion datblygu newydd eu bodloni.</p> <p>Gallai datblygiadau ynni newydd yng ngogledd-orllewin Cymru effeithio ar safleoedd Natura 2000/ Ramsar wedi eu lleoli ar dir ac o amgylch morlin y rhanbarth.</p> <p>Darperir y goblygiadau posibl i safleoedd Natura 2000/ Ramsar o ganlyniad i'r polisi hwn yn fwy manwl yn yr Asesiad Priodol.</p>	Sgriniwyd i mewn (Categori I)

#### **Canolbarth a De-orllewin Cymru**

P23 – Bae Abertawe a Llanelli	<p>Mae'r polisi hwn yn amlinellu cefnogaeth Llywodraeth Cymru i Fae Abertawe a Llanelli fod yn ganolbwynt ar gyfer twf a buddsoddiad rhanbarthol yn y canolbarth a'r de-orllewin. Mae'n pennu'r cyfeiriad y dylai Cynlluniau Strategol a Datblygu Lleol ei ddilyn.</p> <p>Mae nifer o safleoedd Natura 2000/ Ramsar wedi eu lleoli yn agos at y trefi hyn yn ogystal ag o amgylch y morlin i'r de a'r gorllewin a allai gael eu heffeithio gan dwf cynyddol yn yr ardaloedd hyn.</p> <p>Darperir y goblygiadau posibl i safleoedd Natura 2000/ Ramsar o ganlyniad i'r polisi hwn yn fwy manwl yn yr Asesiad Priodol.</p>	Sgriniwyd i mewn (Categori I)
P24 – Canolfannau Rhanbarthol	<p>Mae'r polisi hwn yn nodi cefnogaeth Llywodraeth Cymru i drefi Caerfyrddin, Llanfair-ym-Muallt, Llandrindod, Aberystwyth, y Drenewydd a phedair tref y Ddau Gleddau i fod yn ganolbwynt ar gyfer twf a buddsoddiad isranbarthol yn y canolbarth a'r de-orllewin. Mae'n pennu'r cyfeiriad y dylai Cynlluniau Strategol a Datblygu Lleol ei ddilyn.</p> <p>Mae nifer o safleoedd Natura 2000/ Ramsar wedi eu lleoli yn agos at rai o'r trefi hyn, yn ogystal ag o amgylch y morlin, gan gynnwys Dyfrffordd y Ddau Gleddau nesaf at Drefi y Ddau Gleddau a Chaerfyrddin a safle Ardal Forol Gorllewin Cymru oddi ar arfordir Aberystwyth, a allai gael eu heffeithio gan dwf cynyddol yn yr ardaloedd hyn.</p> <p>Darperir y goblygiadau posibl i safleoedd Natura 2000/ Ramsar o ganlyniad i'r polisi hwn yn fwy manwl yn yr Asesiad Priodol.</p>	Sgriniwyd i mewn (Categori I)

Polisi	Cyfiawnhad sgrinio	Penderfyniad Sgrinio
P25 – Dyfrffordd y Ddau Gleddau	<p>Mae'r polisi hwn yn nodi safbwynt Llywodraeth Cymru o ran gweithrediad a datblygiad yn Nyfrffordd y Ddau Gleddau.</p> <p>Gallai cynyddu capasiti'r porthladd a gweithgareddau eraill sy'n gysylltiedig â'r porthladd effeithio ar y safleoedd Natura 2000/ Ramsar sydd wedi eu lleoli o amgylch arfordir Sir Benfro, gan gynnwys Dyfrffordd y Ddau Gleddau ei hun.</p> <p>Darperir y goblygiadau posibl i safleoedd Natura 2000/ Ramsar o ganlyniad i'r polisi hwn yn fwy manwl yn yr Asesiad Priodol.</p>	Sgriniwyd i mewn (Categori I)
P26 – Metro Abertawe	<p>Mae'r polisi hwn yn nodi cefnogaeth Llywodraeth Cymru i ddatblygiad Metro Abertawe a sicrhau bod Cynlluniau Strategol a Datblygu Lleol hefyd yn cefnogi ac yn cynllunio ar gyfer twf i fanteisio i'r eithaf ar y cyfleoedd sy'n deillio o'r Cynllun.</p> <p>Gallai seilwaith rheilffordd newydd posibl, a datblygiadau eraill sy'n gysylltiedig â Metro Bae Abertawe, fod â goblygiadau i safleoedd Natura 2000/ Ramsar gan gynnwys ACA Cors Crymlyn, sydd rhwng Abertawe a Chastell-nedd.</p> <p>Darperir y goblygiadau posibl i safleoedd Natura 2000/ Ramsar o ganlyniad i'r polisi hwn yn fwy manwl yn yr Asesiad Priodol.</p>	Sgriniwyd i mewn (Categori I)
<b>De-ddwyrain Cymru</b>		
P27 – Caerdydd	<p>Mae'r polisi hwn yn rhoi cefnogaeth i Gaerdydd fel y brif ganolfan genedlaethol ar gyfer diwylliant, chwaraeon, hamdden, y cyfryngau, yr economi gyda'r nos a chyllid. Mae'r polisi yn cydnabod heriau lleoliad daearyddol Caerdydd sy'n cyfyngu faint y gall y ddinas ehangu ac felly'n dangos cefnogaeth i ddatblygu rhanbarthol sy'n mynd i'r afael â'r heriau hyn gan sicrhau bod y ddinas yn cadw ei swyddogaethau fel prifddinas.</p> <p>Mae safle ACA/AGA/Ramsar Aber Afon Hafren yn bresennol i'r de o Gaerdydd, a cheir potensial i'r safle hwn gael ei effeithio o ganlyniad i dwf yn y ddinas a'r cyffiniau (er yr ystyrir bod y potensial ar gyfer effeithiau sylweddol tebygol yn llai nag mewn ardaloedd eraill yn y rhanbarth). Darperir y goblygiadau posibl i safleoedd Natura 2000/ Ramsar o ganlyniad i'r polisi hwn yn fwy manwl yn yr Asesiad Priodol felly.</p>	Sgriniwyd i mewn (Categori I)
P28 - Casnewydd	<p>Mae'r polisi hwn yn rhoi cefnogaeth i Gasnewydd fel y canolbwynt ar gyfer twf a buddsoddiad yn Rhanbarth De-ddwyrain Cymru. Mae'r polisi yn amlinellu canllawiau ar gyfer Cynlluniau Strategol a Datblygu Lleol ar gyfer tai strategol a thwf economaidd yn yr ardal drefol bresennol, ac ar gyfyngu maint twf o ganlyniad i aneddiadau newydd neu achosion o ryddhau safleoedd maes glas mawr i'r dwyrain o Gasnewydd.</p> <p>Mae ACA Afon Wysg yn llifo drwy'r ddinas ac mae safle ACA/AGA/Ramsar Aber Afon Hafren yn bresennol i'r de. Ceir potensial i'r safle hwn gael ei effeithio o ganlyniad i dwf yng Nghasnewydd a'r cyffiniau (er yr ystyrir bod y potensial ar gyfer effeithiau sylweddol tebygol yn llai nag mewn ardaloedd eraill yn y rhanbarth).</p>	Sgriniwyd i mewn (Categori I)

Polisi	Cyfiawnhad sgrinio	Penderfyniad Sgrinio
	Darperir y goblygiadau posibl i safleoedd Natura 2000/ Ramsar o ganlyniad i'r polisi hwn yn fwy manwl yn yr Asesiad Priodol.	
P29 – Blaenau'r Cymoedd	<p>Mae'r polisi hwn yn nodi cefnogaeth Llywodraeth Cymru i adfywio a buddsoddiad yn ardal Blaenau'r Cymoedd. Er y gellid ystyried bod y pwyslais ar adfywio yn lleihau'r potensial o effeithiau sylweddol tebygol ar safleoedd Natura 2000/ Ramsar, ni ellir diystyru effeithiau o'r fath.</p> <p>Darperir y goblygiadau posibl i safleoedd Natura 2000/ Ramsar o ganlyniad i'r polisi hwn yn fwy manwl yn yr Asesiad Priodol.</p>	Sgriniwyd i mewn (Categori I)
P30 – Lleiniau Glas yn Neddwyrain Cymru	Mae'r polisi hwn yn ei gwneud yn ofynnol i nodi a rheoli lleiniau glas a fyddai'n diogelu asedau amgylcheddol rhag datblygiad.	Sgriniwyd allan (Categori D)
P31 – Twf mewn trafndiaeth gynaliadwy – yn ymateb i ofynion aneddiadau	<p>Mae'r polisi hwn yn nodi cefnogaeth i'r pwyslais ar dwf a datblygiad yn y de i fod ar leoedd â chysylltiadau teithio llesol a thrafnidiaeth gyhoeddus da, gan sicrhau bod Cynlluniau Strategol a Datblygu Lleol yn cefnogi ac yn cynllunio ar gyfer twf i sicrhau bod cymaint â phosibl o gyfleoedd yn deillio o well cysylltedd rhanbarthol. Mae hefyd, yn fwy penodol, yn nodi cefnogaeth Llywodraeth Cymru i ddatblygiad Metro De Cymru.</p> <p>Daeth Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd Strategol ar gyfer Metro De Cymru i'r casgliad nad yw'r cynllun yn debygol o gael effaith sylweddol ar unrhyw safleoedd dynodedig Natura 2000/Ramsar na'u nodweddion cysylltiedig (Mott Macdonald, 2017). Bydd pob cam dilynol o'r Cynllun i ddatblygu'r Metro hefyd yn destun asesiad amgylcheddol ac Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd penodol i'r prosiect; bydd hyn yn sicrhau bod mesurau lliniaru priodol yn cael eu datblygu a'u darparu i sicrhau bod y tebygolrwydd o effeithiau niweidiol sylweddol cyn lleied â phosibl.</p> <p>Er bod datblygiad sy'n gysylltiedig â'r cynllun Metro wedi cael ei asesu, gan ddod i'r casgliad na ragwelir unrhyw effeithiau sylweddol tebygol, ni ellir diystyru effeithio o ddatblygiadau eraill yn y rhanbarth yn gysylltiedig â'r polisi hwn heb fwy o fanylion gofodol ar fath neu leoliad datblygiadau penodol.</p> <p>Darperir y goblygiadau posibl i safleoedd Natura 2000/ Ramsar o ganlyniad i'r polisi hwn yn fwy manwl yn yr Asesiad Priodol.</p>	Sgriniwyd i mewn (Categori I)
P32 – Maes Awyr Caerdydd	<p>Mae'r polisi hwn yn cefnogi twf a datblygiad Maes Awyr Caerdydd. Mae'r polisi yn annog symudiad o drafnidiaeth breifat i gyhoeddus, ac yn cyfarwyddo datblygiad tir nesaf at y maes awyr i fod yn gefnogol o swyddogaethau'r maes awyr.</p> <p>Gallai unrhyw gam i ehangu capasiti'r maes awyr o ran nifer y teithiau gael effeithiau amgylcheddol ehangach, ac ni ellir diystyru'r potensial o effeithiau ar safleoedd Natura 2000/ Ramsar.</p> <p>Darperir y goblygiadau posibl i safleoedd Natura 2000/ Ramsar o ganlyniad i'r polisi hwn yn fwy manwl yn yr Asesiad Priodol.</p>	Sgriniwyd i mewn (Categori I)

Polisi	Cyfiawnhad sgrinio	Penderfyniad Sgrinio
P33 – Parc Rhanbarthol y Cymoedd	<p>Mae'r polisi hwn yn cefnogi sefydliad Parc Rhanbarthol y Cymoedd, fframwaith sy'n ceisio manteisio i'r eithaf ar botensial cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol asedau naturiol a diwylliannol Cymoedd y De. Er bod asedau amgylcheddol yn rhan allweddol o'r fframwaith, mae'r polisi hefyd yn ceisio gwireddu'r potensial ar gyfer datblygiad newydd i helpu'r gwaith o adfywio'r ardal. Ni ellir diystyru effeithiau ar safleoedd Natura 2000/ Ramsar felly.</p> <p>Darperir y goblygiadau posibl i safleoedd Natura 2000/ Ramsar o ganlyniad i'r polisi hwn yn fwy manwl yn yr Asesiad Priodol.</p>	Sgriniwyd i mewn (Categori I)

## 2 Asesiad Cyfunol

Mae'n angenrheidiol o dan y Rheoliadau Cynefinoedd asesu effeithiau cyfunol posibl y Fframwaith Datblygu Cenedlaethol. Yn gyntaf, asesir y potensial i wahanol bolisïau a amlinellir yn y Fframwaith Datblygu Cenedlaethol weithredu o'u cyfuno â'i gilydd i gynyddu'r tebygolrwydd o effeithiau sylweddol; yna caiff y potensial i effeithiau cyfunol rhwng y Fframwaith Datblygu Cenedlaethol a Chynlluniau neu Brosiectau cyfredol neu arfaethedig eraill ei ystyried.

### 2.1 Polisïau yn y Fframwaith Datblygu Cenedlaethol

Datblygwyd y polisïau a nodir yn y Fframwaith Datblygu Cenedlaethol gan gymryd gofynion Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015 i ystyriaeth. Maent wedi eu seilio felly ar egwyddorion cynaliadwyedd, sy'n cynnwys y gofyniad i ddiogelu safleoedd dynodedig Natura 2000/ Ramsar. Serch hynny, mae gan unrhyw bolisïau sydd â'r nod o gynorthwyo datblygiad y potensial i gael effeithiau niweidiol ar safleoedd o'r fath, a hyd yn oed os ydynt wedi eu gwirio yn benodol i leihau'r perygl o effeithiau o'r fath i lefelau 'derbyniol', nid yw bob amser yn bosibl sicrhau nad oes achosion o wrthdaro â pholisïau eraill a allai beryglu'r mesurau diogelu hyn.

Mae'r Fframwaith Datblygu Cenedlaethol yn cynnwys dwy brif adran sy'n nodi polisïau: mae Pennod 4 yn disgrifio'r polisïau hynny sy'n gysylltiedig â dewisiadau strategol a gofodol a fyddai'n berthnasol ledled Cymru (fel polisïau eang yn ymwneud â thwf trefol, tai neu ynni adnewyddadwy), tra bod Pennod 5 yn nodi polisïau sy'n berthnasol i ranbarthau penodol (h.y. Gogledd Cymru, Canolbarth a De-orllewin Cymru a De-ddwyrain Cymru). Er yr ystyrir ei bod yn annhebygol y byddai effeithiau cyfunol rhwng y tri rhanbarth (gan fod effeithiau sy'n gysylltiedig â'r polisïau rhanbarthol yn cynnwys elfen ofodol sy'n annhebygol o effeithio ar safleoedd mewn rhanbarthau eraill), mae'n bosibl y gallai'r polisïau gofodol ar gyfer y rhanbarthau hyn weithredu ar y cyd â'r polisïau strategol cyffredin ym Mhennod 4. Mae hyn oherwydd bod natur genedlaethol yr olaf yn golygu ei bod yn bosibl y gallent arwain at ddatblygiad ychwanegol mewn rhanbarth i'r hyn a benderfynwyd eisoes gan y polisïau rhanbarthol. Fodd bynnag, gan nad yw elfen ofodol y polisïau strategol cenedlaethol yn hysbys ar hyn o bryd, nid yw'n bosibl asesu'r effeithiau cyfunol.

Ystyrir ei bod yn bosibl hefyd y gallai unrhyw un o'r polisïau strategol a sgriniwyd i mewn ym Mhennod 4 weithredu cyfunol â'i gilydd. Mae hyn oherwydd os oes gan bolisïau sy'n amlinellu'r dull ar gyfer gwahanol fathau o ddatblygiad yr un pwyslais gofodol, yna gallai effeithiau efallai nad ydynt yn sylweddol ar eu pen eu hunain ddod yn sylweddol o'u cyfuno â'i gilydd pe gallai cynigion arwain at effeithio ar yr un safle Natura 2000/ Ramsar. Felly, er enghraifft, gallai'r polisïau strategol yn ymwneud ag ynni adnewyddadwy a thai gael effeithiau sylweddol pe bai pob un ohonynt yn arwain at ddatblygiad nesaf at yr un safle Ewropeaidd, hyd yn oed os nad ydynt yn sylweddol ar eu pen eu hunain. Fodd bynnag, eto, gan nad oes unrhyw fanylion penodol yn ymwneud â dosbarthiad gofodol datblygiadau a allai gael eu cyflwyno mewn cynlluniau haen is yn deillio o'r polisïau Pennod 4 hyn, nid yw'n bosibl eto asesu'r effeithiau cyfunol.

Bydd y potensial ar gyfer effeithiau cyfunol sy'n gysylltiedig â'r polisïau a sgriniwyd i mewn yn cael eu hasesu yn yr Asesiad Priodol (Adran 5 yr adroddiad hwn) yn dilyn asesiad mwy manwl o'r polisïau unigol a gweithrediad mesurau lliniaru (os oes angen).

Yn ogystal ag effeithiau cyfunol rhwng polisïau a sgriniwyd i mewn, ceir y potensial hefyd i bolisïau a sgriniwyd allan fel 'Categori J' yn yr asesiad sgrinio (gweler Tabl 2) weithredu ar y cyd â pholisïau eraill; mae hyn oherwydd bod y categori yn ymwneud â pholisïau na fyddent, ar eu pen eu hunain, yn cael effaith sylweddol ond a allai gael effaith o'u cyfuno â pholisïau eraill. Fodd bynnag, ni chategoreiddiwyd unrhyw bolisïau fel hyn, felly ni ragwelir unrhyw effeithiau cyfunol o bolisïau a sgriniwyd allan gyda pholisïau eraill yn y Fframwaith Datblygu Cenedlaethol.

### 2.2 Cynlluniau neu Brosiectau Eraill

#### Cynlluniau haen is

Bydd y dogfennau cynllunio haen is sy'n deillio o'r Fframwaith Datblygu Cenedlaethol (e.e. y Cynlluniau Datblygu Strategol neu eu Cynlluniau Datblygu Lleol cyfansoddol) yn nodi'r lleoliadau i'w neilltuo ar gyfer datblygiad, ac felly dim ond ar y lefel hon y gellir asesu'r potensial ar gyfer effeithiau ar safleoedd Natura 2000/ Ramsar yn iawn. Hefyd, nid yw'n bosibl ystyried effeithiau cyfunol rhwng y dogfennau hyn a'r Fframwaith

Datblygu Cenedlaethol gan nad ydynt yn annibynnol ar ei gilydd (nid leiaf oherwydd y bydd angen i gynlluniau o'r fath gydymffurfio â'r polisiau yn y Fframwaith Datblygu Cenedlaethol).

## Cynlluniau datblygu eraill

Mae'r Fframwaith Datblygu Cenedlaethol yn bodoli ochr yn ochr â nifer o Strategaethau/Cynlluniau Llywodraeth eraill gan gynnwys (ond heb eu cyfyngu i) Cynllun Buddsoddi yn Seilwaith Cymru, Cynllun Morol Cenedlaethol Morol Drafft Cymru, Strategaeth Drafndiaeth Cymru, y Polisi Adnoddau Naturiol a dogfen Brexit a'n Tir. Amlinellir yr effeithiau cyfunol sy'n gysylltiedig â'r cynlluniau hyn isod.

### *Cynllun Buddsoddi yn Seilwaith Cymru*

Mae Cynllun Buddsoddi yn Seilwaith Cymru yn nodi'r cyfleoedd buddsoddi posibl yn y sectorau cyhoeddus a phreifat yng Nghymru. Ceir potensial ar gyfer effeithiau cyfunol gyda'r cynllun hwn a pholisiau'r Fframwaith Datblygu Cenedlaethol yn ymwneud â thwf, diwydiant a thai. Fodd bynnag, gan nad oes unrhyw fanylion penodol yn ymwneud â natur y datblygiadau posibl yn y Fframwaith Datblygu Cenedlaethol, nid yw'n bosibl ar y lefel uchel hon asesu'r effeithiau cyfunol posibl rhwng y dogfennau hyn.

### *Cynllun Morol Cenedlaethol Drafft Cymru*

Mae Cynllun Morol Cenedlaethol Drafft Cymru yn nodi sut y gellir sicrhau datblygu cynaliadwy yn yr ardal forol i elwa o werth economaidd ac ecolegol moroedd y glannau a'r môr mawr o amgylch Cymru. Er bod potensial ar gyfer effeithiau cyfunol gyda sawl polisi Fframwaith Datblygu Cenedlaethol (fel ynni adnewyddadwy, Porthladd Caergybi a Dyfrffordd y Ddau Gleddau), mae Cynllun Morol Cenedlaethol Drafft Cymru wedi bod yn destun Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd a ddaeth i'r casgliad bod y Cynllun yn cynnwys darpariaethau lliniaru lefel cynllun priodol a fydd yn sicrhau bod y perygl o effeithiau cyfunol o ganlyniad i weithgareddau yn ardal y Cynllun Morol cyn lleied â phosibl. Bydd hyn, ar y cyd â'r geiriad polisi amddiffynnol yn y Fframwaith Datblygu Cenedlaethol, yn diogelu amgylcheddau morol, ac felly'n sicrhau na fyddai unrhyw effeithiau cyfunol.

### *Strategaeth Drafndiaeth Cymru*

Bwriadwyd i Strategaeth Drafndiaeth Cymru '*hyrwyddo rhwydweithiau trafndiaeth cynaliadwy sy'n gwarchod yr amgylchedd ac eto'n cryfhau bywyd economaidd a chymdeithasol ein gwlad.*' Ceir y potensial felly ar gyfer effeithiau cyfunol gyda Pholisi 22 y Fframwaith Datblygu Cenedlaethol (Cysylltiadau Trafndiaeth â Gogledd-orllewin Lloegr). Fodd bynnag, nid oes unrhyw Gynlluniau trafndiaeth penodol yn y Fframwaith Datblygu Cenedlaethol na'r Strategaeth Drafndiaeth, ac felly nid yw'n bosibl asesu'r effeithiau cyfunol. Fodd bynnag, mae'r ddwy ddogfen yn cynnwys geiriad polisi amddiffynnol i sicrhau nad yw safleoedd Natura 2000/ Ramsar yn cael eu heffeithio'n niweidiol, ac fel y cyfryw, ystyrir bod effeithiau cyfunol yn annhebygol.

### *Y Polisi Adnoddau Naturiol*

Mae'r Polisi Adnoddau Naturiol yn canolbwyntio ar reolaeth gynaliadwy o adnoddau naturiol Cymru i sicrhau bod eu cyfraniad at gyflawni nodau yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol mor fawr â phosibl. Mae'r polisi hwn yn ychwanegu at ddiogelu safleoedd dynodedig yng Nghymru ac ni fyddai'n arwain at effeithiau cyfunol negyddol gyda'r Fframwaith Datblygu Cenedlaethol (yn wir byddai'n cynorthwyo i ychwanegu at y geiriad amddiffynnol a nodir ym Mholisi 8 y Fframwaith Datblygu Cenedlaethol mewn gwirionedd (bydd Polisi 8 yn darparu clustogfa amddiffynnol yn anuniongyrchol ar gyfer safleoedd Natura 2000/ Ramsar trwy ddiogelu a gwella gwasanaethau ecosystem, rhwydweithiau ecolegol a bioamrywiaeth yn y cefn gwlad ehangach).

### *Brexit a'n Tir*

Mae'r ddogfen Brexit a'n Tir yn cyflwyno'r Rhaglen Rheoli Tir newydd arfaethedig a fydd yn disodli'r Polisi Amaethyddol Cyffredin (PAC), yn ei gyfanrwydd, yn dilyn Brexit. Yn dibynnu ar gynnwys terfynol y Cynllun Rheoli Tirwedd, ceir y potensial ar gyfer effeithiau cyfunol gyda pholisiau Fframwaith Datblygu Cenedlaethol sy'n cefnogi datblygu gwledig, fel P4 – Cefnogi Cymunedau Gwledig. Fodd bynnag, o gofio'r ansicrwydd ynghylch Brexit, nid yw'n bosibl asesu effeithiau cyfunol yn ystyrion ar hyn o bryd.

## Y ffin rhwng Cymru a Lloegr

Yn ogystal â chynlluniau datblygu Cymru, a nodir uchod, ceir y potensial hefyd ar gyfer effeithiau cyfunol ar safleoedd Natura 2000/ Ramsar rhwng y Fframwaith Datblygu Cenedlaethol a chynlluniau Lloegr.

Ceir nifer o safleoedd Natura 2000/ Ramsar sydd ar y ffin rhwng Cymru a Lloegr, er enghraifft, AGA/ACA/safle Ramsar Aber Afon Dyfrdwy, AGA/ACA/ safle Ramsar Aber Afon Hafren, safleoedd Ramsar Midland Meres and Mosses, AGA Bae Lerpwl, ac ACAau Afon Gwy, yn ogystal â'r rhai yn ardal y ffin yng Nghymru a Lloegr. Gallai effeithiau cyfunol posibl ar y safleoedd Natura 2000/ Ramsar hyn ddeillio o bolisiau a weithredir yn y ddwy wlad.

Mae'r Fframwaith Polisi Cynllunio Cenedlaethol (NPPF) *yn nodi polisiau cynllunio'r llywodraeth ar gyfer Lloegr a sut y dylid cymhwyso'r rhain. Mae'n darparu fframwaith y gellir llunio cynlluniau a baratowyd yn lleol ar gyfer tai a datblygiadau eraill yn unol ag ef.* Mae gan y fframwaith polisi yn ymwneud â meysydd fel cyflenwad tai, yr economi, trafniadaeth gynaliadwy, defnydd tir, a deunyddiau y potensial ar gyfer effeithiau cyfunol gyda pholisiau'r Fframwaith Datblygu Cenedlaethol sy'n ymwneud â thwf, diwydiant a thai. Fodd bynnag, gan nad oes unrhyw fanylion penodol yn ymwneud â natur y datblygiadau posibl a allai ddigwydd o ganlyniad i weithredu polisiau yn y Fframwaith Datblygu Cenedlaethol, nid yw'n bosibl ar y lefel uchel hon asesu'r effeithiau cyfunol posibl rhwng yr NPPF a'r Fframwaith Datblygu Cenedlaethol. Serch hynny, mae'r ddau yn cynnwys geiriad polisi amddiffynol i sicrhau nad yw safleoedd Natura 2000/ Ramsar yn cael eu heffeithio'n niweidiol (fel Adranau 13 i 15 yr NPPF a Pholisi 8 y Fframwaith Datblygu Cenedlaethol (y rhagwelir y bydd yn darparu clustogfa amddiffynol i safleoedd Natura 2000/ Ramsar yn anuniongyrchol trwy ddiogelu a gwella gwasanaethau ecosystem, rhwydweithiau ecolegol a bioamrywiaeth yn y cefn gwlad ehangach), ac fel y cyfryw, ystyrir bod effeithiau cyfunol yn annhebygol.

## Prosiectau

Nid yw'r Fframwaith Datblygu Cenedlaethol yn cynnwys cyfeiriad at Brosiectau Seilwaith o Arwyddocâd Cenedlaethol neu Ddatblygiad o Arwyddocâd Cenedlaethol penodol nac unrhyw ddatblygiad lefel prosiect arall. Mae'n debygol y byddai datblygiadau o'r fath yn deillio o gynlluniau haen is, fel cynlluniau strategol neu ddatblygu lleol. Byddai'r cynlluniau hyn yn destun y geiriad polisi amddiffynol yn y Fframwaith Datblygu Cenedlaethol haen uwch felly, ac fel y cyfryw ni fyddai unrhyw effeithiau cyfunol yn codi.

## 3 Crynodeb/Casgliad Sgrinio

O'r 33 o bolisiau a nodir yn y Fframwaith Datblygu Cenedlaethol drafft, gellir sgrinio 13 allan o Asesiad Priodol pellach oherwydd na fyddent yn arwain yn uniongyrchol at newid, neu pe baent, byddai unrhyw newid ar raddfa mor fach na allai unrhyw effaith sylweddol debygol ar safleoedd Natura 2000/ Ramsar ddigwydd ar ei phen ei hun nac yn gyfunol.

Ystyrir bod gan yr 20 polisi sy'n weddill y potensial i gyfarwyddo datblygiad yn y dyfodol fel y gallent arwain at oblygiadau i safleoedd Natura 2000/ Ramsar. Sgriniwyd y polisiau hyn i mewn felly ar gyfer Asesiad Priodol pellach, ac amlinellir canlyniadau'r rhain yn Adran 4.



## 4 Asesiad Priodol

### 4.1 Trosolwg

Mae'r Adran hon yn cynnwys yr Asesiad Priodol (Cam 2) o'r 20 polisi na ellid eu sgrinio allan yng ngham sgrinio'r broses Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd (cyfeiriwch at Tabl 3).

Mae Tabl 4 yn cynnig asesiad mwy manwl o'r goblygiadau posibl i safleoedd Natura 2000/Ramsar a allai ddeillio o ganlyniad i weithrediad y polisïau. Pan fo'r polisi yn cynnwys elfen ofodol, nodir y safleoedd Natura 2000/Ramsar a allai gael eu heffeithio o ganlyniad i'r polisi (pan fo'n bosibl) gydag enghreifftiau o'r mathau o effeithiau a allai ddigwydd. Gan nad oes unrhyw neilltuadau neu gynigion datblygu penodol yn cael eu nodi yn y Fframwaith Datblygu Cenedlaethol, ni ellir nodi'r ystod lawn o effeithiau posibl ar y cam strategol hwn, ac felly ni ystyrir bod unrhyw effeithiau a nodir yma yn rhestr gynhwysfawr o'r holl effeithiau posibl.

Yn ogystal â'r asesiad o'r potensial ar gyfer effaith niweidiol ar gyfanrwydd safle Natura 2000/Ramsar pob un o'r polisïau a sgriniwyd i mewn, mae'r gofyniad am fesurau lliniaru i sicrhau na fyddai effeithiau o'r fath yn codi wedi ei gynnwys yn yr asesiad hefyd. Ar lefel strategol y Fframwaith Datblygu Cenedlaethol, mae mesurau lliniaru yn canolbwyntio'n bennaf ar newid geiriad polisi. Fodd bynnag, er yn yr achos hwn y gallai hynny olygu sicrhau bod y Fframwaith Datblygu Cenedlaethol terfynol yn cynnwys geiriad polisi sydd wedi ei gynllunio i sicrhau y byddai'n rhaid i unrhyw ddogfennau polisi/cynllunio haen is gymryd safleoedd Natura 2000/Ramsar i ystyriaeth yn briodol yn ystod y broses gynllunio, mae eisoes yn ofynnol i'r holl gynlluniau a phrosiectau haen is mewn safleoedd Natura 2000/ Ramsar neu'n agos atynt gydymffurfio â'r Rheoliadau Cadwraeth Cynefinoedd a Rhywogaethau (2017) fel mater o gyfraith. Felly, beth bynnag fo'r geiriad polisi sydd wedi ei gynnwys yn y Fframwaith Datblygu Cenedlaethol, byddai Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd statudol o gynlluniau/ prosiectau haen is yn ofynnol.

Mae'n bwysig serch hynny bod yr Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd hwn o'r Fframwaith Datblygu Cenedlaethol haen uwch yn nodi'r mathau o effeithiau posibl a allai ddeillio o weithredu polisi, a hefyd yn nodi sut y gellid osgoi neu liniaru'r rhain ar gamau diweddarach y broses gynllunio. Darperir y manylion hyn yn y tabl isod felly. Mae hefyd yn bwysig bod yr Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd hwn yn rhoi'r sicrwydd polisi lefel uchel y bydd Cynlluniau Datblygu Strategol a Chynlluniau Datblygu Lleol y dyfodol yn dilyn y broses angenrheidiol i nodi ac asesu goblygiadau posibl i safleoedd Natura 2000/Ramsar wrth neilltuo tir ar gyfer datblygiad. Bydd angen i'r Asesiadau Rheoliadau Cynefinoedd cynllun lleol dilynol, neu lefel prosiect hyd yn oed, gymryd i ystyriaeth yr effeithiau posibl a nodwyd yn yr Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd hwn i lywio eu datblygiad polisi a sicrhau y gellir darparu mesurau lliniaru neu wneud iawn priodol pan nodir effeithiau niweidiol posibl.

Mae Tabl 4, isod, yn darparu'r Asesiad Priodol ar gyfer yr 20 o bolisïau a sgriniwyd i mewn.

Tabl 4: Asesiad Priodol o'r Polisiâu a Sgriniwyd i Mewn

Polisi	Effeithiau posibl ar gyfanrwydd safleoedd Natura 2000/ Ramsar a gofynion lliniaru arfaethedig	Casgliad (gan dybio y rhoddir mesurau lliniaru ar waith)
<p>P6 – Cynllunio mewn Parthau Gweithredu Symudol</p>	<p><i>Effeithiau</i></p> <p>Er y byddai'r rhan fwyaf o seilwaith ar gyfer technoleg symudol ar raddfa fach ac yn gysylltiedig â datblygiadau presennol yn gyffredinol (er enghraifft, gosod ceblau ar hyd lleiniau ffyrdd), gallai'r gofyniad am seilwaith mwy, fel mastiau ffonau symudol, arwain at effeithiau posibl ar safleoedd Natura 2000/ Ramsar, pe baent wedi eu lleoli mewn ardaloedd o'r fath neu'n agos atynt. Er nad yw union fanylion Cynlluniau o'r fath yn hysbys, mae effeithiau posibl yn debygol o gael eu cyfyngu i'r byrdymor i raddau helaeth ac yn gysylltiedig â cham adeiladu datblygiad. Gallai effeithiau posibl wrth adeiladu gynnwys: tarfu ar nodweddion cymhwys (er enghraifft, tarfu/ dadleoli rhywogaethau adar cymwys os bydd seilwaith newydd yn cael ei leoli mewn AGAau/safleoedd Ramsar arfordirol neu ucheldir, neu'n agos atynt); difrod i gynefinoedd pwysig sy'n gysylltiedig â safleoedd Ramsar/ ACAau, neu eu colli (er enghraifft, colled barhaol cynefin o dan ôl troed strwythurau newydd, neu ddiffrod wrth osod ceblau ar draws gyrsiau dŵr neu drwy gynefinoedd ACA/safle Ramsar eraill); ac effeithiau hydrolegol (er enghraifft, cloddio ffosydd ceblau yn arwain at ddraenio anfwriadol, a thrwy hynny sychu, cynefinoedd gwlyptir ACA/safle Ramsar).</p> <p><i>Mesurau Lliniaru</i></p> <p>Yn gyffredinol, mae gosod seilwaith ar gyfer technoleg symudol yn annhebygol o gael effaith niweidiol ar safleoedd Natura 2000/ Ramsar (oherwydd natur dros dro a byrdymor gweithfeydd seilwaith o'r fath, a lleoliadau trefol tebygol). Fodd bynnag, pan fydd angen ehangu seilwaith symudol mewn Parthau Gweithredu Symudol, lle gallai cynefinoedd a rhywogaethau sensitif fod yn bresennol, dylid rhoi ystyriaeth i'r mesurau osgoi/ lliniaru canlynol wrth weithredu'r polisi, naill ai'n rhanbarthol a/neu'n lleol:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Pan fo'n bosibl, dylid osgoi neilltuo tir ar gyfer seilwaith symudol newydd mewn safleoedd Natura 2000/ Ramsar neu'n agos atynt, ac os nad yw hyn yn bosibl, dylid sicrhau bod dealltwriaeth dda o lwybrau effaith fel bod y potensial ar gyfer effeithiau sylweddol tebygol yn cael ei osgoi.</li> <li>• Dylid sicrhau bod ôl troed seilwaith mwy a/ neu lwybrau ceblau cyn lleied â phosibl os na ellir osgoi eu gosod mewn safleoedd Natura 2000/ Ramsar yn rhesymol.</li> <li>• Os oes rhywogaethau sensitif wedi eu lleoli'n gyfagos, dylid amseru gwaith i osgoi effeithiau posibl (er enghraifft, dylid osgoi cyfnod y gaeaf os bydd ardal yn cael eu defnyddio gan rywogaethau adar cymwys sy'n gaeafu yno).</li> </ul> <p><i>Casgliad</i></p> <p>Dylai ystyriaeth o'r mesurau a nodir uchod yn ystod cynllunio rhanbarthol/lleol ac wrth ddylunio prosiect, yn ogystal â chydymffurfiaid â P8 y Fframwaith Datblygu Cenedlaethol (y rhagwelir y bydd yn darparu clustogfa amddiffynnol ar gyfer safleoedd Natura 2000/ Ramsar yn anuniongyrchol trwy ddiogelu a gwella gwasanaethau ecosystem, rhwydweithiau ecolegol a bioamrywiaeth yn y cefn gwlad ehangach), sicrhau na fydd unrhyw effaith niweidiol ar gyfanrwydd safleoedd Natura 2000/ Ramsar o ganlyniad i weithredu'r polisi hwn.</p>	<p>Dim effaith niweidiol ar gyfanrwydd safleoedd Natura 2000/ Ramsar</p>
<p>P9 – Coedwig Genedlaethol</p>	<p><i>Effeithiau</i></p>	<p>Dim effaith niweidiol ar gyfanrwydd safleoedd Natura 2000/ Ramsar</p>

Polisi	Effeithiau posibl ar gyfanrwydd safleoedd Natura 2000/ Ramsar a gofynion lliniaru arfaethedig	Casgliad (gan dybio y rhoddir mesurau lliniaru ar waith)
	<p>Nid yw union leoliad Coedwig Genedlaethol newydd i Gymru yn hysbys ar hyn o bryd; fodd bynnag, mae Polisi P9 yn nodi ei bod yn debygol o gael ei gwasgaru ar draws nifer o leoliadau, gyda tharged i gynyddu gorchudd coetir yng Nghymru o 2000 hectar y flwyddyn o leiaf o 2020.</p> <p>Ystyrir bod creu Coedwig Genedlaethol i Gymru yn bolisi cadarnhaol, â llawer o fanteision amgylcheddol; fodd bynnag, os caiff ardaloedd o goedwig eu plannu mewn lleoliadau anaddas, mae'n bosibl y gallai'r polisi arwain at effeithiau niweidiol ar gynefinoedd a rhywogaethau presennol (e.e. cynefinoedd agored fel rhostir neu laswelltir, lle nad yw gorchudd coetir o fudd). Er y byddai plannu coetir mewn cynefinoedd o'r fath mewn safleoedd Natura 2000/ Ramsar yn amlwg yn mynd yn groes i'w hamcanion cadwraeth, mae hefyd yn bosibl y gallai plannu coetir nesaf at safleoedd o'r fath gael effeithiau niweidiol hefyd, yn enwedig os yw rhywogaethau o'r safleoedd hynny yn dibynnu ar gynefinoedd agored tebyg y tu hwnt i ffiniau'r safle (e.e. i chwilota am fwyd neu glwydo). Gallai plannu coetir nesaf at y safleoedd hyn hefyd gynnig gorchudd i anifeiliaid ysglyfaethus y rhywogaethau cymhwys (yn enwedig adar sy'n nythu ar y ddaear), neu mae'n bosibl y gallai effeithio ar hydroleg y dirwedd, a allai gael effaith niweidiol ar safleoedd gwlyptir. Gallai cynyddu nifer yr ymwelwyr ag ardaloedd plannu coetir newydd hefyd gael effeithiau niweidiol yn gysylltiedig â phwysau hamdden (fel tarfu yn sgil presenoldeb dynol cynyddol a phobl sy'n mynd â'u cŵn am dro).</p> <p><i>Mesurau Lliniaru</i></p> <p>Mae'n amlwg yn bwysig sicrhau nad yw safleoedd a ddewisir i gefnogi darpariaeth y polisi hwn eisoes wedi eu dynodi ar sail presenoldeb cynefinoedd eraill (nad ydynt yn goetir) a fyddai'n cael eu peryglu gan blannu o'r fath (e.e. safleoedd glaswelltir neu rostir agored). Pan allai cynefinoedd a rhywogaethau sensitif fod yn bresennol, dylid rhoi ystyriaeth i'r mesurau osgoi/ lliniaru canlynol wrth weithredu'r polisi, naill ai'n rhanbarthol a/neu'n lleol:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Dylid osgoi plannu coetir newydd mewn safleoedd dynodedig lle byddai plannu coetir newydd yn niweidiol i amcanion cadwraeth y safle.</li> <li>• Dylid osgoi plannu coetir newydd nesaf at safleoedd dynodedig lle gallai hyn effeithio'n anuniongyrchol ar gynefinoedd neu rywogaethau cymhwyso'r safle.</li> <li>• Os mai nod creu ardal o Goedwig Genedlaethol yn agos at safle Natura 2000/ Ramsar yw darparu adnodd ar gyfer hamdden, dylid ystyried goblygiadau tarfu dynol a phobl yn mynd â chŵn am dro ar gynefinoedd sensitif a rhywogaethau cymhwyso unrhyw safleoedd dynodedig cyfagos (yn benodol, y goblygiadau i rywogaethau adar sy'n nythu ar y ddaear a difrod a achosir sathru).</li> </ul> <p><i>Casgliad</i></p> <p>Dylai ystyriaeth o'r mesurau a nodir uchod yn ystod cynllunio rhanbarthol/lleol ac yn ystod gweithrediad penodol i safle y polisi, yn ogystal â chydymffurfiaid â P8 y Fframwaith Datblygu Cenedlaethol (y rhagwelir y bydd yn darparu clustogfa amddiffynnol ar gyfer safleoedd Natura 2000/ Ramsar yn anuniongyrchol trwy ddiogelu a gwella gwasanaethau ecosystem, rhwydweithiau ecolegol a bioamrywiaeth yn y cefn gwlad ehangach), sicrhau na fydd unrhyw effaith niweidiol ar gyfanrwydd safleoedd Natura 2000/ Ramsar o ganlyniad i weithredu'r polisi hwn.</p>	
P10 – Ynni'r Gwynt a'r Haul	<i>Effeithiau &amp; Mesurau Lliniaru</i>	Gan dybio y bydd y broses Ardaloedd

Polisi	Effeithiau posibl ar gyfanwydd safleoedd Natura 2000/ Ramsar a gofynion lliniaru arfaethedig	Casgliad (gan dybio y rhoddir mesurau lliniaru ar waith)
mewn Ardaloedd Blaenoriaeth	<p>Mae Llywodraeth Cymru eisoes wedi nodi nifer o Ardaloedd Blaenoriaeth posibl ar gyfer datblygiadau Ynni'r Haul a'r Gwynt ledled Cymru. Cynhaliwyd adolygiad o'r ardaloedd hyn o ran safleoedd Natura 2000/ Ramsar i ddarganfod y goblygiadau posibl y gallai datblygiadau yn yr ardaloedd hyn eu cael ar safleoedd o bwysigrwydd rhyngwladol. Cadarnhaodd yr adolygiad cychwynnol (Arcadis, Mawrth 2019) bod y broses ddethol wreiddiol wedi osgoi i raddau helaeth nid yn unig safleoedd Natura 2000/ Ramsar ond ardaloedd dynodedig eraill hefyd, gan gynnwys Parciau Cenedlaethol ac AHNEau; mae'r rhain yn aml yn cynnal rhywogaethau, yn enwedig adar ac ystlumod, sydd wedi eu diogelu o dan y Rheoliadau Cynefinoedd, hyd yn oed os nad yw'r unigolion yn gysylltiedig yn uniongyrchol â safle dynodedig penodol. Fodd bynnag, ni wnaeth yr adolygiad nodi rhai safleoedd Natura 2000/ Ramsar a oedd wedi eu lleoli o fewn neu'n agos at ffin nifer o Ardaloedd Blaenoriaeth, ac felly argymhellwyd y dylid mireinio'r ffiniau ymhellach i sicrhau bod unrhyw gynigion sy'n codi yn yr Ardaloedd Blaenoriaeth yn osgoi unrhyw effeithiau uniongyrchol ar safleoedd Natura 2000/ Ramsar.</p> <p>Yn dilyn y mireinio hwn, cynhaliwyd Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd terfynol o'r broses Ardaloedd Blaenoriaeth, gan gymryd newidiadau i ffiniau'r Ardaloedd Blaenoriaeth i ystyriaeth (Arcadis, Mehefin 2019). Daeth Adroddiad yr Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd (gweler Atodiad B) i'r casgliad bod y broses ar gyfer blaenoriaethu ardaloedd ar gyfer datblygu ffermydd gwynt a solar wedi llwyddo i leihau'r perygl i'r rhwydwaith safleoedd Natura 2000 ledled Cymru. Fodd bynnag, eglurodd hefyd nad yw hyn yn golygu bod yr holl effeithiau posibl wedi cael eu hosgoi o reidrydd, gan fod y clustogfeydd (a ddangosir yn Ffigur 2 yr adroddiad) yn dangos yn eglur bod cyfran sylweddol o'r ardal a flaenoriaethwyd ar gyfer datblygu ynni adnewyddadwy yn dal i fod yn ddigon agos i safleoedd Natura 2000/ Ramsar fel y gallai effeithiau godi. Bydd y clustogfeydd hyn yn bwysig ar gyfer hysbysu cwrpas Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd cynllun lleol/lefel prosiect dilynol ar gyfer cynigion ffermydd gwynt a solar yn y dyfodol.</p> <p>Daeth Adroddiad yr Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd i'r casgliad terfynol, gan dybio y defnyddir y map Ardaloedd Blaenoriaeth yn gyntaf oll i flaenoriaethu lle bydd datblygiad ynni'r gwynt a'r haul yn cael ei ganolbwyntio yn y dyfodol, ac y byddai rhwyd diogelwch pellach yn cael ei ddarparu gan y broses Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd lefel cynllun lleol/prosiect (ar gyfer pob safle a gynigir sydd wedi ei leoli yng nghlustogfa un neu fwy o safleoedd Natura 2000/ Ramsar), y byddai'r dull strategol hwn o ddatblygu ynni adnewyddadwy ledled Cymru (fel y sefydlwyd gan y Fframwaith Datblygu Cenedlaethol) yn cydymffurfio â'r Rheoliadau Cynefinoedd.</p> <p><i>Casgliad</i></p> <p>Dylai ystyriaeth o'r mesurau a nodir uchod yn ystod cynllunio rhanbarthol/lleol ac yn ystod gweithrediad penodol i safle y polisi, yn ogystal â chydymffurfiaid â P8 y Fframwaith Datblygu Cenedlaethol (y rhagwelir y bydd yn darparu clustogfa amddiffynnol ar gyfer safleoedd Natura 2000/ Ramsar yn anuniongyrchol trwy ddiogelu a gwella gwasanaethau ecosystem, rhwydweithiau ecolegol a bioamrywiaeth yn y cefn gwlad ehangach), sicrhau na fydd unrhyw effaith niweidiol ar gyfanwydd safleoedd Natura 2000/ Ramsar o ganlyniad i weithredu'r polisi hwn.</p>	Blaenoriaeth ar gyfer Ynni'r Haul a'r Gwynt yn cael ei dilyn, ni fyddai unrhyw effaith niweidiol ar gyfanwydd safleoedd Natura 2000/ Ramsar yn cael eu rhagweld.
P11 – Ynni Gwynt a Haul y Tu Allan i Ardaloedd Blaenoriaeth	<p><i>Effeithiau</i></p> <p>Fel y nodir yn erbyn Polisi P10 (uchod), mae Llywodraeth Cymru wedi nodi Ardaloedd Blaenoriaeth ar gyfer datblygiadau Ynni'r Haul a'r Gwynt. Er yr ystyrir ei bod yn debygol y bydd y mwyafrif o gynigion ar gyfer datblygiadau ynni'r gwynt a'r haul yn yr ardaloedd hyn felly, nid yw hynny'n golygu na ellir cydsynio i ddatblygiad o'r fath y tu allan i'r Ardaloedd Blaenoriaeth. Fodd bynnag, mewn llawer o achosion, byddai posiblwydd cryf y byddai'r fferm wynt neu solar arfaethedig yn agosach at safleoedd Natura 2000/ Ramsar, felly byddai'r risgiau posibl i gynefinoedd a rhywogaethau sy'n gysylltiedig â'r safleoedd hynny yn fwy.</p>	Dim effaith niweidiol ar gyfanwydd safleoedd Natura 2000/ Ramsar

Polisi	Effeithiau posibl ar gyfanrwydd safleoedd Natura 2000/ Ramsar a gofynion lliniaru arfaethedig	Casgliad (gan dybio y rhoddir mesurau lliniaru ar waith)
	<p><i>Mesurau Lliniaru</i></p> <p>Mae'n amlwg yn bwysig sicrhau bod unrhyw safleoedd neu ardaloedd a gynigir ar gyfer datblygiad ynni'r gwynt a/neu'r haul y tu allan i'r rhwydwaith Ardaloedd Blaenoriaeth yn cael eu hasesu'n drwyadl iawn, trwy ymarfer sgrinio ymarferoldeb ac Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd i gychwyn fel bod dealltwriaeth o'r posibilrwydd o gydsyniad (neu'r tebygolrwydd o wrthodiad yn wir) yn gynnar yn y broses. Os bydd prosiectau yn cael eu cynnig y tu allan i'r Ardaloedd Blaenoriaeth, mae'r geiriad polisi yn P11 yn ei gwneud yn ofynnol nad oes unrhyw effeithio niweidiol annerbyniol ar safleoedd a rhywogaethau cadwraeth natur. Er y dylai'r gofyniad hwn sicrhau bod effeithiau posibl yn cael eu hasesu'n llawn, ni ellir dibynnu arno ar hyn o bryd i sicrhau y tu hwn i amheuaeth wyddonol resymol y gellir diystyru effeithiau niweidiol ar safleoedd Natura 2000/ Ramsar. Ni ellir nodi manylion safleoedd Natura 2000/ Ramsar penodol a allai gael eu heffeithio gan y polisi hwn ar hyn o bryd gan nad oes unrhyw elfennau gofodol i'r polisi; bydd angen felly i gynlluniau haen is/cynigion prosiect unigol nodi pa safleoedd dynodedig allai gael eu heffeithio. Lle gallai cynefinoedd a/neu rywogaethau sensitif fod yn bresennol, dylid rhoi ystyriaeth i'r mesurau osgoi/lliniaru canlynol wrth weithredu'r polisi hwn, naill ai'n rhanbarthol a/neu'n lleol:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Dylid osgoi lleoli ffermydd gwynt neu ffermydd solar newydd o fewn 5 cilomedr i safleoedd Ramsar, a hefyd ACAau lle <i>nad yw</i> ystlumod (ac adar) yn nodwedd gymhwys.</li> <li>• Dylid osgoi lleoli ffermydd gwynt newydd o fewn 10 cilomedr i ACAau a buddiannau ystlumod.</li> <li>• Dylid ystyried nid yn unig presenoldeb afonydd ACA o fewn 5 cilomedr i unrhyw fferm wynt neu solar arfaethedig, ond hefyd presenoldeb isafonydd i'r afonydd hyn, gan y gallai'r rhywogaethau cymhwys hefyd ymddangos cryn bellter i fyny'r afon o ffiniau dynodedig swyddogol y safleoedd hyn.</li> <li>• Dylid osgoi lleoli ffermydd gwynt newydd o fewn 20 cilomedr i AGAau a/neu safleoedd Ramsar a buddiannau adar (ac o fewn 40 cilomedr i'r AGAau/ safleoedd Ramsar hynny mae'r frân goesgoch yn rhywogaeth gymhwys ar eu cyfer).</li> </ul> <p><i>Casgliad</i></p> <p>Dylai ystyriaeth o'r mesurau a nodir uchod yn ystod cynllunio rhanbarthol/lleol ac yn ystod gweithrediad penodol i safle y polisi, yn ogystal â chydymffuriad â P8 y Fframwaith Datblygu Cenedlaethol (y rhagwelir y bydd yn darparu clustogfa amddiffynnol ar gyfer safleoedd Natura 2000/ Ramsar yn anuniongyrchol trwy ddiogelu a gwella gwasanaethau ecosystem, rhwydweithiau ecolegol a bioamrywiaeth yn y cefn gwlad ehangach), sicrhau na fydd unrhyw effaith niweidiol ar gyfanrwydd safleoedd Natura 2000/ Ramsar o ganlyniad i weithredu'r polisi hwn.</p>	
P13 – Datblygiadau Ynni Adnewyddadwy Eraill	<p><i>Effeithiau</i></p> <p>Mae Llywodraeth Cymru hefyd yn cefnogi technolegau ynni adnewyddadwy eraill (h.y. yn ogystal ag ynni'r gwynt a'r haul) mewn egwyddor ac mae'n paratoi Atlas Ynni i nodi cyfleoedd ar gyfer pob math o brosiectau ynni adnewyddadwy. Ni amlinellir manylion neu leoliadau unrhyw brosiectau technoleg ynni adnewyddadwy eraill yn y Fframwaith Datblygu Cenedlaethol; fodd bynnag, mae gan ddatblygiadau ynni newydd y potensial i effeithio ar safleoedd Natura 2000/ Ramsar lluosog.</p> <p>Gallai enghreifftiau o effeithiau a allai ddeillio o ddatblygiadau cysylltiedig ag ynni newydd gynnwys (ond nid ydynt wedi eu cyfyngu i): effeithiau cysylltiedig â gwrthdrawiadau ar adar os caiff strwythurau mawr newydd eu hadeiladu mewn ardaloedd sensitif neu nesaf</p>	Dim effaith niweidiol ar gyfanrwydd safleoedd Natura 2000/ Ramsar

Polisi	Effeithiau posibl ar gyfanrwydd safleoedd Natura 2000/ Ramsar a gofynion lliniaru arfaethedig	Casgliad (gan dybio y rhoddir mesurau lliniaru ar waith)
	<p>atynt; colli cynefinoedd sensitif neu ddifrod iddynt; colli tir sydd â chysylltiad gweithredol â safle Natura 2000/ Ramsar neu ddifrod iddo; tarfu/ dadleoli rhywogaethau cymhwys yn y môr ac ar y tir; ac effeithiau hydrolegol a hydroddaearegol.</p> <p><i>Mesurau Lliniaru</i></p> <p>Mae'r geiriad polisi yn P13 yn cydnabod y dylai cynigion sicrhau nad oes unrhyw effaith niweidiol annerbyniol sylweddol ar yr amgylchedd naturiol cyfagos a chymunedau lleol a bod y datblygiad yn dod â manteision cymdeithasol, amgylcheddol ac economaidd cadarnhaol yn ei sgil. Er y dylai'r gofyniad hwn sicrhau bod effeithiau posibl yn cael eu hasesu'n llawn, ni ellir dibynnu arno ar hyn o bryd i sicrhau y tu hwn i amheuaeth wyddonol resymol y gellir diystyru effeithiau niweidiol ar safleoedd Natura 2000/ Ramsar. Ni ellir nodi manylion safleoedd Natura 2000/ Ramsar penodol a allai gael eu heffeithio gan y polisi hwn ar hyn o bryd gan nad oes unrhyw elfennau gofodol i'r polisi; bydd angen felly i gynlluniau haen is/cynigion prosiect unigol nodi pa safleoedd dynodedig allai gael eu heffeithio. Lle gallai cynefinoedd a rhywogaethau sensitif fod yn bresennol, dylid rhoi ystyriaeth i'r mesurau osgoi/liniaru canlynol wrth weithredu'r polisi hwn, naill ai'n rhanbarthol a/neu'n lleol:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Dylid osgoi neilltuo tir ar gyfer datblygiadau ynni newydd mewn safleoedd Natura 2000/ Ramsar neu'n uniongyrchol nesaf atynt, i leihau effeithiau ar safleoedd o'r fath neu sicrhau eu bod cyn lleied â phosibl (er enghraifft, osgoi cynefinoedd sy'n cynnal cynefinoedd a rhywogaethau sensitif y mae'n hysbys eu bod mewn safleoedd ag AGA/ safleoedd Ramsar cyfagos neu'n gysylltiedig â nhw yn weithredol). Efallai y bydd angen astudiaethau dichonoldeb i ddarganfod effeithiau posibl ar yr amgylchedd naturiol.</li> <li>• Dylid osgoi safleoedd dynodedig morol hysbys (fel AGAau Morol, Parthau Cadwraeth Morol neu Safleoedd Morol Ewropeaidd) wrth ystyried lleoliadau ar gyfer prosiectau ynni morol newydd posibl. Efallai y bydd angen astudiaethau dichonoldeb i ddarganfod effeithiau posibl ar yr amgylchedd morol.</li> <li>• Dylai lleoliad a llwybrau ceblau (a seilwaith cysylltiedig) o ddatblygiadau ynni newydd hefyd osgoi safleoedd dynodedig neu sicrhau cyn lleied â phosibl o goridoriau llwybr trwy ardaloedd sensitif (os na ellir eu hosgoi).</li> </ul> <p><i>Casgliad</i></p> <p>Dylai ystyriaeth o'r mesurau a nodir uchod yn ystod cynllunio rhanbarthol/lleol ac yn ystod gweithrediad penodol i safle y polisi, yn ogystal â chydymffurfiaid â P8 y Fframwaith Datblygu Cenedlaethol (y rhagwelir y bydd yn darparu clustogfa amddiffynnol ar gyfer safleoedd Natura 2000/ Ramsar yn anuniongyrchol trwy ddiogelu a gwella gwasanaethau ecosystem, rhwydweithiau ecolegol a bioamrywiaeth yn y cefn gwlad ehangach), sicrhau na fydd unrhyw effaith niweidiol ar gyfanrwydd safleoedd Natura 2000/ Ramsar o ganlyniad i weithredu'r polisi hwn.</p>	
P17 – Wrecsam a Glannau Dyfrdwy	<p><i>Effeithiau</i></p> <p>Mae nifer o safleoedd Natura 2000/ Ramsar yn bresennol yng ngogledd-ddwyrain Cymru. Yn benodol, ACA Safleoedd Madfallod Glannau Dyfrdwy a Bwcle, ACA Safle Madfallod Johnstown, safle Ramsar Midland Meres and Mosses, ACA Afon Dyfrdwy a Llyn Tegid, ac ACA/AGA/safle Ramsar Aber Afon Dyfrdwy. Mae'r safleoedd hyn i gyd yn bresennol yn agos at drefi Wrecsam a Glannau Dyfrdwy.</p>	Dim effaith niweidiol ar gyfanrwydd safleoedd Natura 2000/ Ramsar



Polisi	Effeithiau posibl ar gyfanrwydd safleoedd Natura 2000/ Ramsar a gofynion lliniaru arfaethedig	Casgliad (gan dybio y rhoddir mesurau lliniaru ar waith)
	<p>Gallai twf cynyddol yn yr ardaloedd hyn arwain at effeithiau ar safleoedd madfallod, fel gwahanu llwybrau cymudo, lleihau cysylltedd rhwng y safleoedd sy'n cyfansoddi'r ACA, neu drwy effeithiau eraill fel llygredd neu darfu a difrod cynyddol o ganlyniad i bwysau hamdden. Mae effeithiau posibl eraill yn cynnwys tarfu/dadleoli rhywogaethau adar cymwys sy'n gysylltiedig ag ACA/AGA/safle Ramsar Aber Afon Dyfrdwy, yn ogystal â llygredd a phwysau hamdden ar safleoedd Natura 2000/ Ramsar eraill.</p> <p><i>Mesurau Lliniaru</i></p> <p>Mae'n ofynnol i gynlluniau haen is, fel Cynlluniau Datblygu Lleol, gynnal Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd o safleoedd neilltuo arfaethedig a pholisïau (fel mater o gyfraith) i ddarganfod y potensial ar gyfer Effaith Sylweddol Debygol) a gweithredu mesurau lliniaru priodol fel sy'n ofynnol. Fodd bynnag, dylid rhoi ystyriaeth hefyd i'r mesurau osgoi/ lliniaru canlynol wrth weithredu'r polisi hwn, naill ai'n rhanbarthol a/neu'n lleol:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Dylid canolbwyntio neilltuadau tir mewn lleoliadau trefol presennol.</li> <li>• Dylid osgoi neilltuo datblygiad newydd mewn safleoedd Natura 2000/ Ramsar neu'n uniongyrchol nesaf atynt, i leihau effeithiau fel gwahanu cysylltedd rhwng safleoedd ACA Madfallod ac effeithiau tarfu/ dadleoli ar rywogaethau adar cymwys, neu sicrhau eu bod cyn lleied â phosibl.</li> <li>• Dylid ystyried goblygiadau posibl pwysau hamdden (yn enwedig trwy effeithiau cyfunol) i safleoedd Natura 2000/ Ramsar wrth benderfynu ar dargedau tai a chyflogaeth (h.y. ystyried a all safle Natura 2000/ Ramsar gynnal y cynnydd i nifer y trigolion ychwanegol a gynigir gan gynllun haen is). Efallai y bydd angen astudiaeth ddichonoldeb o bwysau hamdden. Dylid ystyried potensial ar gyfer effeithiau sylweddol tebygol o ran pwysau hamdden cyfunol â chynlluniau is eraill hefyd, yn enwedig pan fo safleoedd Natura 2000/ Ramsar yn bresennol ar y ffin rhwng Awdurdodau Lleol (ALlau), fel Aber Afon Dyfrdwy.</li> <li>• Dylid ystyried goblygiadau posibl mwy o lygredd aer yn Wrecsam a Glannau Dyfrdwy, yn ogystal ag ar draws y rhanbarth (cyfunol). Dylid rhoi ystyriaeth i annog atebion trafndiaeth cynaliadwy (fel llwybrau beicio a llwybrau trafndiaeth gyhoeddus integredig).</li> </ul> <p><i>Casgliad</i></p> <p>Dylai ystyriaeth o'r mesurau a nodir uchod yn ystod cynllunio rhanbarthol/lleol ac yn ystod gweithrediad penodol i safle y polisi, yn ogystal â chydymffurfiaid â P8 y Fframwaith Datblygu Cenedlaethol (y rhagwelir y bydd yn darparu clustogfa amddiffynnol ar gyfer safleoedd Natura 2000/ Ramsar yn anuniongyrchol trwy ddiogelu a gwella gwasanaethau ecosystem, rhwydweithiau ecolegol a bioamrywiaeth yn y cefn gwlad ehangach), sicrhau na fydd unrhyw effaith niweidiol ar gyfanrwydd safleoedd Natura 2000/ Ramsar o ganlyniad i weithredu'r polisi hwn.</p>	
P18 – Aneddiadau Arfordirol Gogledd Cymru	<p><i>Effeithiau</i></p> <p>Mae nifer o safleoedd Natura 2000/ Ramsar wedi eu lleoli o gwmpas morlin gogledd-orllewin Cymru fel AGA Bae Lerpwl, AGA Traeth Lafan ac ACA Afon Menai a Bae Conwy, yn ogystal â safleoedd mewndirol gan gynnwys ACA Eryri a choetir llai ac ACAau a ddynodwyd ar sail eu buddiannau ystlumod.</p> <p>Gallai twf cynyddol yn yr ardaloedd arfordirol hyn arwain at effeithiau ar safleoedd Natura 2000/ Ramsar trwy darfu/ dadleoli posibl o rywogaethau adar sy'n gysylltiedig ag ACA/ safleoedd Ramsar cyfagos (er enghraifft, colli tir â chysylltiad gweithredol o dan yr ôl troed</p>	Dim effaith niweidiol ar gyfanrwydd safleoedd Natura 2000/ Ramsar

Polisi	Effeithiau posibl ar gyfanrwydd safleoedd Natura 2000/ Ramsar a gofynion lliniaru arfaethedig	Casgliad (gan dybio y rhoddir mesurau lliniaru ar waith)
	<p>tir a neilltuwyd ar gyfer datblygiad mewn cynlluniau haen is), gwahanu llwybrau cymudo ar gyfer ystlumod sy'n gysylltiedig ag ACAau (h.y. lleihau cysylltedd rhwng y safleoedd trwy golli perthi/ coetir), neu drwy effeithiau eraill fel llygredd dŵr/ aer neu darfu cynyddol o ganlyniad i bwysau hamdden yn sgil poblogaeth fwy yn y rhanbarth.</p> <p><i>Mesurau Lliniaru</i></p> <p>Mae'n ofynnol i gynlluniau haen is, fel Cynlluniau Datblygu Lleol, gynnal Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd o safleoedd neilltuo arfaethedig a pholisïau (fel mater o gyfraith) i ddarganfod y potensial ar gyfer Effaith Sylweddol Debygol) a gweithredu mesurau lliniaru priodol fel sy'n ofynnol. Fodd bynnag, dylid rhoi ystyriaeth hefyd i'r mesurau osgoi/ lliniaru canlynol wrth weithredu'r polisi hwn, naill ai'n rhanbarthol a/neu'n lleol:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Dylid canolbwyntio neilltuadau tir mewn lleoliadau trefol presennol.</li> <li>• Dylid osgoi neilltuo datblygiad newydd mewn safleoedd Natura 2000/ Ramsar neu'n uniongyrchol nesaf atynt, i leihau effeithiau ar safleoedd o'r fath neu sicrhau eu bod cyn lleied â phosibl (er enghraifft, osgoi tir nesaf at yr arfordir y mae'n hysbys ei fod wedi ei gysylltu'n weithredol ag AGA/ safleoedd Ramsar cyfagos).</li> <li>• Dylid ystyried goblygiadau posibl pwysau hamdden (yn enwedig trwy effeithiau cyfunol) i safleoedd Natura 2000/ Ramsar wrth benderfynu ar dargedau tai a chyflogaeth (h.y. ystyried a all safle Natura 2000/ Ramsar gynnal y cynnydd i nifer y trigolion ychwanegol a gynigir gan gynllun haen is?). Efallai y bydd angen astudiaeth ddichonoldeb o bwysau hamdden. Dylid ystyried potensial ar gyfer effeithiau sylweddol tebygol o ran pwysau hamdden cyfunol â chynlluniau is eraill hefyd, yn enwedig pan fo safleoedd Natura 2000/ Ramsar yn bresennol ar y ffin rhwng ALLau.</li> <li>• Dylid ystyried goblygiadau posibl mwy o lygredd aer mewn ardaloedd arfordirol, yn ogystal ag ar draws y rhanbarth (cyfunol). Dylid rhoi ystyriaeth hefyd i annog atebion trafndiaeth cynaliadwy (fel llwybrau beicio a llwybrau trafndiaeth gyhoeddus integredig).</li> </ul> <p><i>Casgliad</i></p> <p>Dylai ystyriaeth o'r mesurau a nodir uchod yn ystod cynllunio rhanbarthol/lleol ac yn ystod gweithrediad penodol i safle y polisi, yn ogystal â chydymffurfiaid â P8 y Fframwaith Datblygu Cenedlaethol (y rhagwelir y bydd yn darparu clustogfa amddiffynnol ar gyfer safleoedd Natura 2000/ Ramsar yn anuniongyrchol trwy ddiogelu a gwella gwasanaethau ecosystem, rhwydweithiau ecolegol a bioamrywiaeth yn y cefn gwlad ehangach), sicrhau na fydd unrhyw effaith niweidiol ar gyfanrwydd safleoedd Natura 2000/ Ramsar o ganlyniad i weithredu'r polisi hwn.</p>	
P20 – Porthladd Caergybi	<p><i>Effeithiau</i></p> <p>Er nad yw union fanylion y twf sy'n gysylltiedig â Phorthladd Caergybi yn hysbys ar hyn o bryd, mae Llywodraeth Cymru yn cefnogi datblygiad y porthladd a'r cyfleusterau yn gyffredinol, gan gynnwys cynyddu ei gapasiti i groesawu llongau mordeithio.</p> <p>Mae'n bosibl y gallai cynyddu capasiti'r porthladd a gweithgareddau eraill sy'n gysylltiedig â'r porthladd effeithio ar un neu fwy o safleoedd Natura 2000/ Ramsar wedi eu lleoli o amgylch arfordir Ynys Môn, gan gynnwys ACA Gogledd Cymru ac AGA Môr-wenoliaid Ynys Môn. Gallai effeithiau posibl gynnwys (ond nid ydynt wedi eu cyfyngu i): effeithiau tarfu/dadleoli ar nodweddion cymhwyso'r safleoedd morol (gan gynnwys llamidyddion a môr-wenoliaid bridio); colli/ difrod i gynefinoedd morol ac arfordirol sensitif; cynnydd</p>	Dim effaith niweidiol ar gyfanrwydd safleoedd Natura 2000/ Ramsar



Polisi	Effeithiau posibl ar gyfanwydd safleoedd Natura 2000/ Ramsar a gofynion lliniaru arfaethedig	Casgliad (gan dybio y rhoddir mesurau lliniaru ar waith)
	<p>posibl i lygredd aer trwy fwy o draffig cychod; llygredd yn yr amgylchedd morol; ac effeithiau anuniongyrchol fel pwysau hamdden cynyddol ar yr arfordir trwy dwristiaeth ychwanegol yn yr ardal.</p> <p><i>Mesurau Lliniaru</i></p> <p>O ystyried maint posibl y datblygiad o gwmpas y porthladd, rhagwelir y byddai cynlluniau o'r fath yn rhan o gwmpas Prosiectau Seilwaith o Arwyddocâd Cenedlaethol neu Ddatblygiad o Arwyddocâd Cenedlaethol. Er y byddai hyn yn sicrhau bod effeithiau posibl ar safleoedd Natura 2000/ Ramsar yn cael eu hasesu'n llawn drwy'r broses Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd (ni waeth beth yw geiriad Polisi P20 yn y Fframwaith Datblygu Cenedlaethol), ystyrir ei bod yn hanfodol hefyd bod asesiad lefel uchel yn cael ei gynnal (cyn unrhyw asesiadau haen is) er mwyn darganfod a all safleoedd Natura 2000/ Ramsar addasu i unrhyw estyniad i'r porthladd a/neu gynydd i forgludiant.</p> <p>Byddai angen i astudiaeth ddichonoldeb o'r fath gynnwys nodi effeithiau posibl ar nodweddion cymhwys AGA/safleoedd Ramsar/ ACAau (yn y môr ac ar y tir) sy'n gysylltiedig ag ansawdd aer, pwysau hamdden, ac effeithiau cyfunol posibl â phrosiectau graddfa fawr eraill yn rhanbarthol/ cenedlaethol. Gallai hyn fod yn ddefnyddiol ar gyfer cyfarwyddo gwaith pellach ar gamau'r cynllun/prosiect yn y dyfodol ond byddai'n sicr yn cynnig cyd-destun hanfodol ar gyfer y polisi hwn cyn y gellir ei weithredu mewn unrhyw ffordd.</p> <p>Dylid rhoi ystyriaeth hefyd i sut y mae seilwaith newydd sy'n gysylltiedig â datblygiad y porthladd yn integreiddio â'r rhydwaith ffyrdd/ rheilffyrdd presennol, ac i annog atebion trafniadaeth cynaliadwy (fel llwybrau trafniadaeth gyhoeddus integredig).</p> <p><i>Casgliad</i></p> <p>Bydd ystyriaeth o'r mesurau a nodir uchod, cydymffurfiaid â P8 y Fframwaith Datblygu Cenedlaethol a'r gofyniad i ddatblygiad ar raddfa fawr o'r fath bod yn destun Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd statudol ar y lefel prosiect, yn sicrhau bod dim effeithiau niweidiol ar gyfanwydd safleoedd Natura 2000/ Ramsar.</p>	
P21 – Cynyddu cysylltiadau Trafniadaeth â Gogledd-orllewin Lloegr	<p><i>Effeithiau</i></p> <p>Nid yw union fanylion y twf arfaethedig i gysylltiadau trafniadaeth rhwng gogledd-orllewin Lloegr a Chymru yn hysbys ar hyn o bryd; fodd bynnag, mae Llywodraeth Cymru yn cefnogi datblygu Metro Gogledd Cymru newydd a gwelliannau i'r A55 i leihau tagfeydd.</p> <p>Mae nifer o safleoedd Natura 2000/ Ramsar wedi eu lleoli o gwmpas gogledd-orllewin Lloegr a Chymru, gan gynnwys AGA Bae Lerpwl, AGA Traeth Lafan, ACA Afon Menai a Bae Conwy, ac ACA/AGA/safle Ramsar Aber Afon Dyfrdwy, yn ogystal â safleoedd mewndirol gan gynnwys ACA Eryri, ACA Safleoedd Madfallod Glannau Dyfrdwy a Bwcle ac ACA Madfallod Johnstown, a choetir llai ac ACAau a ddynodwyd ar sail ystumod.</p> <p>Gallai unrhyw gynigion ar gyfer datblygiad sy'n gysylltiedig â gwella cysylltedd trafniadaeth o fewn gogledd-orllewin Lloegr arwain at effeithiau sylweddol tebygol ar safleoedd Natura 2000/ Ramsar trwy effeithiau posibl sy'n cynnwys (ond heb eu cyfyngu i): golli cynefin o dan ôl troed cynlluniau ffyrdd newydd; darnio cynefinoedd, gwahanu cysylltedd rhwng safleoedd (yn enwedig o ran safleoedd ACA madfallod) a marwolaeth posibl yn gysylltiedig â ffyrdd; tarfu, dadleoli a/neu farwolaeth sy'n gysylltiedig â ffyrdd rhywogaethau adar cymwys sy'n gysylltiedig ag AGAau/ safleoedd Ramsar; yn ogystal â llygredd dŵr ac aer posibl yn sgil cynlluniau o'r fath.</p> <p><i>Mesurau Lliniaru</i></p>	Dim effaith niweidiol ar gyfanwydd safleoedd Natura 2000/ Ramsar

Polisi	Effeithiau posibl ar gyfanrwydd safleoedd Natura 2000/ Ramsar a gofynion lliniaru arfaethedig	Casgliad (gan dybio y rhoddir mesurau lliniaru ar waith)
	<p>O ystyried maint y Cynllun Metro newydd posibl, a gwelliannau graddfa fawr posibl i'r A55, rhagwelir y gallent fod yn rhan o gwmpas Prosiect Seilwaith o Arwyddocâd Cenedlaethol neu Ddatblygiad o Arwyddocâd Cenedlaethol. Byddai hyn yn sicrhau bod effeithiau posibl ar safleoedd Natura 2000/ Ramsar yn cael eu hasesu'n llawn drwy'r broses Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd (heb ystyried Polisi P21 yn y Fframwaith Datblygu Cenedlaethol). Byddai datblygiad y Cynllun Metro hefyd yn destun proses achos busnes Arweiniad ar Arfarnu Trafnidiaeth Cymru (WelTAG), sy'n ymgorffori gofynion yr Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd ar y cam cynllunio priodol. Fodd bynnag, dylid rhoi ystyriaeth hefyd i'r mesurau osgoi/ lliniaru canlynol wrth weithredu polisiau naill ai'n rhanbarthol a/neu'n lleol o ran gwella cysylltiadau trafndiaeth:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Dylai cysylltiadau trafndiaeth newydd geisio osgoi effeithiau ar safleoedd Natura 2000/ Ramsar, pan fo'n bosibl. Dylid gwneud hyn trwy gynlluniau llwybrau mewn modd sensitif i osgoi datblygiad mewn safleoedd Natura 2000/ Ramsar, neu'n uniongyrchol nesaf atynt. Efallai y bydd angen astudiaethau dichonoldeb i asesu effeithiau posibl ar safleoedd dynodedig ar gam cynnar.</li> <li>• Dylid rhoi ystyriaeth i oblygiadau posibl llygredd aer cynyddol o ganlyniadau i newidiadau i'r cysylltiadau trafndiaeth yn lleol yn ogystal ag ar draws rhanbarth y gogledd-orllewin (h.y. effeithiau cyfunol â chynlluniau ffyrdd newydd eraill).</li> <li>• Dylid rhoi ystyriaeth i annog atebion trafndiaeth cynaliadwy (e.e. cynnwys llwybrau beicio, pontydd troed i gysylltu llwybrau troed presennol a llwybrau trafndiaeth gyhoeddus integredig, defnydd o lonydd bysiau).</li> </ul> <p><i>Casgliad</i></p> <p>Dylai ystyriaeth o'r mesurau a nodir uchod yn ystod cynllunio rhanbarthol/lleol ac yn ystod gweithrediad penodol i safle y polisi, yn ogystal â chydymffuriad â P8 y Fframwaith Datblygu Cenedlaethol (y rhagwelir y bydd yn darparu clustogfa amddiffynnol ar gyfer safleoedd Natura 2000/ Ramsar yn anuniongyrchol trwy ddiogelu a gwella gwasanaethau ecosystem, rhwydweithiau ecolegol a bioamrywiaeth yn y cefn gwlad ehangach), sicrhau na fydd unrhyw effaith niweidiol ar gyfanrwydd safleoedd Natura 2000/ Ramsar o ganlyniad i weithredu'r polisi hwn.</p>	
P22 – Gogledd-orllewin Cymru ac Ynni	<p><i>Effeithiau</i></p> <p>Mae Llywodraeth Cymru yn cefnogi gogledd-orllewin Cymru fel lleoliad ar gyfer datblygiad a buddsoddiad ynni newydd, gan gynnwys ynni'r gwynt a'r llanw, datblygiad gorsaf bŵer bosibl Wylfa Newydd, ac Adweithyddion Modiwlwr (niwclear) llai.</p> <p>Mae gogledd-orllewin Cymru (gan gynnwys Ynys Môn) wedi ei amgylchynu gan safleoedd Natura 2000/ Ramsar, gan gynnwys pedwar AGA (Môr-wenoliaid Ynys Môn, Traeth Lafan, Ynys Seiriol a Bae Lerpwl) ac ACA Afon Menai a Bae Conwy. Hefyd, mae nifer o safleoedd Natura 2000/ Ramsar llai yn bresennol o gwmpas yr arfordir a'r mewndir, gan gynnwys ACA/safle Ramsar Ffeniau Ynys Môn, ACA Twyni Abermenai i Aberffraw, ACA Eryri ac ACA/AGA Arfordir Ynys Gybi. Mae'n bosibl felly y gallai unrhyw ddatblygiadau ynni newydd yn y rhanbarth effeithio ar safleoedd Natura 2000/ Ramsar lluosog.</p> <p>Gallai enghreifftiau o effeithiau a allai ddeillio o ddatblygiadau cysylltiedig ag ynni newydd gynnwys (ond nid ydynt wedi eu cyfyngu i): effeithiau cysylltiedig â gwrthdrawiadau ar adar o ganlyniad i ddatblygiadau ynni'r gwynt; colli cynefinoedd sensitif neu ddifrod iddynt; tarfu/ dadleoli rhywogaethau morol a daearol cymhwys; newidiadau hydrolegol a hydroddaearegol; ac effeithiau ar anifeiliaid morol o ganlyniad i olyngfeydd dŵr poeth o orsafoedd pŵer niwclear. Mae datblygiadau solar yn tueddu i gael effeithiau amgylcheddol llai; fodd</p>	Dim effaith niweidiol ar gyfanrwydd safleoedd Natura 2000/ Ramsar

bynag, gallai'r rhain hefyd effeithio ar safleoedd Natura 2000/Ramsar o'u lleoli yn anghywir, trwy golled/ difrod cynefin ac effeithiau posibl ar rywogaethau o olau tanbaidd yr haul.

#### *Mesurau Lliniaru*

O ystyried maint datblygiadau ynni niwclear newydd, bydd unrhyw gynigion niwclear yn y dyfodol yn dod o dan ofynion Prosiectau Seilwaith o Arwyddocâd Cenedlaethol neu Ddatblygiad o Arwyddocâd Cenedlaethol. Bydd y rhain yn sicrhau bod unrhyw effeithiau posibl ar safleoedd Natura 2000/ Ramsar yn cael eu hasesu'n llawn ac unrhyw fesurau lliniaru neu wneud iawn yn cael eu cynnwys mewn unrhyw gynigion. Mae datblygiadau ynni'r gwynt a'r llanw newydd hefyd yn debygol o fod yn rhan o gylch gwaith Prosiectau Seilwaith o Arwyddocâd Cenedlaethol neu Ddatblygiad o Arwyddocâd Cenedlaethol New. Mae'r geiriad polisi yn P22 yn cydnabod y bydd angen mantoli ystyriaethau â'r effaith hirdymor y gall y datblygiadau graddfa fawr hyn ei chael ar ardaloedd sensitif a'r amgylchedd cyfagos ac yn ei gwneud yn ofynnol y dylid rhoi ystyriaeth i effeithiau ar yr amgylchedd naturiol a hanesyddol.

Ni ellir nodi manylion safleoedd Natura 2000/ Ramsar penodol a allai gael eu heffeithio gan y polisi hwn ar hyn o bryd gan nad oes unrhyw elfennau gofodol i'r polisi (ac eithrio Wylfa, gweler isod); felly bydd angen i gynlluniau haen is/cynigion prosiect unigol nodi pa safleoedd dynodedig allai gael eu heffeithio gan ddatblygiadau ynni yng ngogledd-orllewin Cymru yn y dyfodol. Lle gallai cynefinoedd a rhywogaethau sensitif fod yn bresennol, dylid rhoi ystyriaeth i'r mesurau osgoi/ lliniaru canlynol wrth weithredu'r polisi hwn, naill ai'n rhanbarthol a/neu'n lleol:

- Dylid defnyddio'r Ardaloedd Blaenoriaeth ar gyfer Ynni'r Haul a'r Gwynt (gweler Polisi P10) pan fo'n bosibl, ac osgoi neilltuo tir ar gyfer datblygiadau ynni'r gwynt newydd mewn safleoedd Natura 2000/ Ramsar neu'n uniongyrchol nesaf atynt i leihau effeithiau/ sicrhau bod effeithiau cyn lleied â phosibl ar safleoedd o'r fath (er enghraifft, osgoi cynefinoedd ucheldir sy'n cynnal cynefinoedd a rhywogaethau sensitif y mae'n hysbys bod ganddynt gysylltiad gweithredol ag AGA/ safleoedd Ramsar cyfagos). Efallai y bydd angen astudiaethau dichonoldeb i ddarganfod effeithiau posibl ar yr amgylchedd naturiol.
- Dylid osgoi safleoedd dynodedig morol hysbys (fel AGAau Morol, Parthau Cadwraeth Morol neu Safleoedd Morol Ewropeaidd) wrth ystyried lleoliadau ar gyfer prosiectau ynni tonnau newydd posibl. Unwaith eto, efallai y bydd angen astudiaethau dichonoldeb i ddarganfod effeithiau posibl ar yr amgylchedd morol.
- Dylai lleoliad a llwybrau ceblau (a seilwaith cysylltiedig) o ddatblygiadau ynni newydd hefyd ystyried osgoi safleoedd dynodedig neu sicrhau cyn lleied â phosibl o goridorau llwybr trwy ardaloedd sensitif, os na ellir eu hosgoi.

Cynhaliwyd asesiadau ecolegol sylweddol eisoes yn safle gorsaf pŵer niwclear posibl Wylfa Newydd, a chynigiwyd mesurau lliniaru. Bydd angen i ystyriaeth ofalus o'r rhain (ac unrhyw asesiad pellach) sicrhau bod dim effaith niweidiol ar gyfanrwydd safleoedd Natura 2000/ Ramsar cyfagos yn rhan o'r gofyniad statudol i gynnal Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd ar gyfer y Cynllun.

#### *Casgliad*

Dylai ystyriaeth o'r mesurau a nodir uchod yn ystod cynllunio rhanbarthol/lleol ac yn ystod gweithrediad penodol i safle y polisi, yn ogystal â chydymffurfiaid â P8 y Fframwaith Datblygu Cenedlaethol (y rhagwelir y bydd yn darparu clustogfa amddiffynnol ar gyfer safleoedd Natura 2000/ Ramsar yn anuniongyrchol trwy ddiogelu a gwella gwasanaethau ecosystem, rhwydweithiau ecolegol a

Polisi	Effeithiau posibl ar gyfanwydd safleoedd Natura 2000/ Ramsar a gofynion lliniaru arfaethedig	Casgliad (gan dybio y rhoddir mesurau lliniaru ar waith)
	<p>bioamrywiaeth yn y cefn gwlad ehangach), sicrhau na fydd unrhyw effaith niweidiol ar gyfanwydd safleoedd Natura 2000/ Ramsar o ganlyniad i weithredu'r polisi hwn.</p>	
<p>P23 – Bae Abertawe a Llanelli</p>	<p><i>Effeithiau</i></p> <p>Mae AGA/safle Ramsar Cilfach Tywyn ac ACA Bae Caerfyrddin ac Aberoedd ar yr arfordir i'r de o Lanelli ac i'r gorllewin o Abertawe. Mae ACA/safle Ramsar Cors Crymlyn ar gyrion dwyreiniol Abertawe, ac mae ACA Tiroedd Comin Gŵyr ac ACA Coedydd Ynn Gŵyr i'r de-orllewin o Abertawe.</p> <p>Ystyrir bod canolbwyntio twf mewn canolfannau trefol presennol a'u cyffiniau yn debygol o sicrhau bod y potensial ar gyfer effeithiau sylweddol tebygol ar safleoedd dynodedig cyn lleied â phosibl; fodd bynnag, yn absenoldeb unrhyw gynigion datblygu manwl, ni ellir diystyru'r potensial i safleoedd Natura 2000/ Ramsar gael eu heffeithio. Gallai twf cynyddol yn yr ardaloedd arfordirol hyn arwain at effeithiau ar safleoedd Natura 2000/ Ramsar trwy darfu/ dadleoli posibl o rywogaethau adar sy'n gysylltiedig ag AGA/ safleoedd Ramsar cyfagos (er enghraifft, colli tir â chysylltiad gweithredol o dan yr ôl troed tir a neilltuwyd ar gyfer datblygiad mewn cynlluniau haen is), neu drwy effeithiau eraill fel llygredd dŵr/ aer neu darfu cynyddol o ganlyniad i bwysau hamdden yn sgil poblogaeth fwy yn y rhanbarth.</p> <p><i>Mesurau Lliniaru</i></p> <p>Mae'n ofynnol i gynlluniau haen is, fel Cynlluniau Datblygu Lleol, gynnal Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd o safleoedd neilltuo arfaethedig a pholisiau (fel mater o gyfraith) i ddarganfod y potensial ar gyfer Effaith Sylweddol Debygol a gweithredu mesurau lliniaru priodol fel sy'n ofynnol. Fodd bynnag, dylid rhoi ystyriaeth hefyd i'r mesurau osgoi/ lliniaru canlynol wrth weithredu'r polisi hwn, naill ai'n rhanbarthol a/neu'n lleol:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Dylid canolbwyntio neilltuadau tir (mewn cynlluniau Strategol a Datblygu Lleol) mewn lleoliadau trefol presennol yn Abertawe a Llanelli.</li> <li>• Dylid osgoi neilltuo datblygiad newydd mewn safleoedd Natura 2000/ Ramsar neu'n uniongyrchol nesaf atynt, i leihau effeithiau ar safleoedd o'r fath neu sicrhau eu bod cyn lleied â phosibl (er enghraifft, osgoi tir nesaf at yr arfordir y mae'n hysbys ei fod wedi ei gysylltu'n weithredol ag AGA/ safleoedd Ramsar cyfagos).</li> <li>• Dylid ystyried goblygiadau posibl pwysau hamdden (yn enwedig trwy effeithiau cyfunol) i safleoedd Natura 2000/ Ramsar wrth benderfynu ar dargedau tai a chyflogaeth (h.y. ystyried a all safle Natura 2000/ Ramsar gynnal y cynnydd i nifer y trigolion ychwanegol a gynigir gan gynllun haen is?). Efallai y bydd angen astudiaeth ddichonoldeb o bwysau hamdden. Dylid ystyried potensial ar gyfer effeithiau sylweddol tebygol o ran pwysau hamdden cyfunol â chynlluniau is eraill hefyd, yn enwedig pan fo safleoedd Natura 2000/ Ramsar yn bresennol ar y ffin rhwng ALLau.</li> <li>• Dylid ystyried goblygiadau posibl mwy o lygredd aer mewn ardaloedd arfordirol, yn ogystal ag ar draws y rhanbarth (cyfunol). Dylid rhoi ystyriaeth hefyd i annog atebion trafndiaeth cynaliadwy (fel llwybrau beicio a llwybrau trafndiaeth gyhoeddus integredig).</li> </ul> <p><i>Casgliad</i></p>	<p>Dim effaith niweidiol ar gyfanwydd safleoedd Natura 2000/ Ramsar</p>

Polisi	Effeithiau posibl ar gyfanwydd safleoedd Natura 2000/ Ramsar a gofynion lliniaru arfaethedig	Casgliad (gan dybio y rhoddir mesurau lliniaru ar waith)
	<p>Dylai ystyriaeth o'r mesurau a nodir uchod yn ystod cynllunio rhanbarthol/lleol ac yn ystod gweithrediad penodol i safle y polisi, yn ogystal â chydymffurfiaid â P8 y Fframwaith Datblygu Cenedlaethol (y rhagwelir y bydd yn darparu clustogfa amddiffynnol ar gyfer safleoedd Natura 2000/ Ramsar yn anuniongyrchol trwy ddiogelu a gwella gwasanaethau ecosystem, rhwydweithiau ecolegol a bioamrywiaeth yn y cefn gwlad ehangach), sicrhau na fydd unrhyw effaith niweidiol ar gyfanwydd safleoedd Natura 2000/ Ramsar o ganlyniad i weithredu'r polisi hwn.</p>	
<p>P24 – Canolfannau Rhanbarthol</p>	<p><i>Effeithiau</i></p> <p>Mae Trefi'r Ddau Gleddau wedi eu lleoli ar hyd Aber Afon Cleddau ac Aberdaugleddau (sy'n rhan o ACA Sir Benfro Forol). Mae Caerfyrddin nesaf at ACA Afon Tywi (gydag ACA/safle Morol Bae Caerfyrddin ac Aberoedd i'r de) ac AGA Gogledd Bae Ceredigion. Mae'n bosibl y gallai twf yn yr holl ardaloedd hyn effeithio ar safleoedd dynodedig.</p> <p>Ystyrir bod y posibilrwydd o effeithiau yn sgil twf yn y Drenewydd, Llanfair-ym-Muallt a Llandrindod (a enwir yn y polisi hwn hefyd) yn isel, o ystyried pellter y trefi hyn o safleoedd Natura 2000/ Ramsar; fodd bynnag, o ystyried nad oes unrhyw elfen ofodol yn gysylltiedig â'r polisi, ni ellir diystyru effeithiau posibl.</p> <p>Ystyrir bod canolbwyntio twf mewn canolfannau trefol presennol a'u cyffiniau yn debygol o sicrhau bod y potensial ar gyfer effeithiau sylweddol tebygol ar safleoedd dynodedig cyn lleied â phosibl; fodd bynnag, yn absenoldeb unrhyw gynigion datblygu manwl, ni ellir diystyru'r potensial i safleoedd Natura 2000/ Ramsar gael eu heffeithio. Gallai twf cynyddol yn yr ardaloedd arfordirol hyn arwain at effeithiau ar safleoedd Natura 2000/ Ramsar trwy darfu/ dadleoli posibl o rywogaethau adar sy'n gysylltiedig ag AGA/ safleoedd Ramsar cyfagos (er enghraifft, colli tir â chysylltiad gweithredol o dan yr ôl troed tir a neilltuwyd ar gyfer datblygiad mewn cynlluniau haen is), neu drwy effeithiau eraill fel llygredd dŵr/ aer neu darfu cynyddol o ganlyniad i bwysau hamdden yn sgil poblogaeth fwy yn y rhanbarth.</p> <p><i>Mesurau Lliniaru</i></p> <p>Mae'n ofynnol i gynlluniau haen is, fel Cynlluniau Datblygu Lleol, gynnal Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd o safleoedd neilltuo arfaethedig a pholisïau (fel mater o gyfraith) i ddarganfod y potensial ar gyfer Effaith Sylweddol Debygol a gweithredu mesurau lliniaru priodol fel sy'n ofynnol. Fodd bynnag, dylid rhoi ystyriaeth hefyd i'r mesurau osgoi/ lliniaru canlynol wrth weithredu'r polisi hwn, naill ai'n rhanbarthol a/neu'n lleol:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Dylid canolbwyntio neilltuadau tir (mewn cynlluniau Strategol a Datblygu Lleol) mewn lleoliadau trefol presennol yn y gwahanol ganolfannau rhanbarthol.</li> <li>• Dylid osgoi neilltuo datblygiad newydd mewn safleoedd Natura 2000/ Ramsar neu'n uniongyrchol nesaf atynt, i leihau effeithiau ar safleoedd o'r fath neu sicrhau eu bod cyn lleied â phosibl (er enghraifft, osgoi tir nesaf at yr arfordir y mae'n hysbys ei fod wedi ei gysylltu'n weithredol ag AGA/ safleoedd Ramsar cyfagos).</li> <li>• Dylid ystyried goblygiadau posibl pwysau hamdden (yn enwedig trwy effeithiau cyfunol) i safleoedd Natura 2000/ Ramsar wrth benderfynu ar dargedau tai a chyflogaeth (h.y. ystyried a all safle Natura 2000/ Ramsar gynnal y cynnydd i nifer y trigolion ychwanegol a gynigir gan gynllun haen is). Efallai y bydd angen astudiaeth ddichonoldeb o bwysau hamdden hefyd. Dylid ystyried</li> </ul>	<p>Dim effaith niweidiol ar gyfanwydd safleoedd Natura 2000/ Ramsar</p>

Polisi	Effeithiau posibl ar gyfanwydd safleoedd Natura 2000/ Ramsar a gofynion lliniaru arfaethedig	Casgliad (gan dybio y rhoddir mesurau lliniaru ar waith)
	<p>potensial ar gyfer effeithiau sylweddol tebygol o ran pwysau hamdden cyfunol â chynlluniau is eraill hefyd, yn enwedig pan fo safleoedd Natura 2000/ Ramsar yn bresennol ar y ffin rhwng ALLau.</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>Dylid ystyried goblygiadau posibl mwy o lygredd aer mewn ardaloedd arfordirol, yn ogystal ag ar draws y rhanbarth (cyfunol). Dylid rhoi ystyriaeth hefyd i annog atebion trafndiaeth cynaliadwy (fel llwybrau beicio a llwybrau trafndiaeth gyhoeddus integredig).</li> </ul> <p><i>Casgliad</i></p> <p>Dylai ystyriaeth o'r mesurau a nodir uchod yn ystod cynllunio rhanbarthol/lleol ac yn ystod gweithrediad penodol i safle y polisi, yn ogystal â chydymffuriad â P8 y Fframwaith Datblygu Cenedlaethol (y rhagwelir y bydd yn darparu clustogfa amddiffynnol ar gyfer safleoedd Natura 2000/ Ramsar yn anuniongyrchol trwy ddiogelu a gwella gwasanaethau ecosystem, rhwydweithiau ecolegol a bioamrywiaeth yn y cefn gwlad ehangach), sicrhau na fydd unrhyw effaith niweidiol ar gyfanwydd safleoedd Natura 2000/ Ramsar o ganlyniad i weithredu'r polisi hwn.</p>	
P25 – Dyfrffordd y Ddau Gleddau	<p><i>Effeithiau</i></p> <p>Er bod Dyfrffordd y Ddau Gleddau yn borthladd cyfredol â diwydiannau hirsefydlog, ac yn lleoliad allweddol i gyflenwadau ynni'r DU, mae hefyd yn safle bywyd gwyllt pwysig, ac wedi ei ddynodi o dan ACA Gorllewin Cymru Forol ac ACA Sir Benfro Forol. Mae'r Fframwaith Datblygu Cenedlaethol yn nodi'r potensial ar gyfer datblygu'r ddyfrffordd yn strategol ac yn cynnig cymorth i hwyluso datblygiad newydd 'priodol'.</p> <p>Er nad yw union fanylion estyniad arfaethedig y ddyfrffordd yn hysbys ar hyn o bryd, mae'n bosibl y gallai unrhyw gynnydd i gapasiti'r porthladd a gweithgareddau eraill sy'n gysylltiedig â'r porthladd effeithio ar un neu fwy o'r safleoedd Natura 2000/ Ramsar arfordirol. Gallai effeithiau posibl gynnwys (ond nid ydynt wedi eu cyfyngu i): effeithiau tarfu/dadleoli ar nodweddion cymhwyso'r safleoedd morol; colli/ difrod i gynfinoedd morol ac arfordirol sensitif; cynnydd posibl i lygredd aer trwy fwy o draffig cychod a thwf diwydiannol cysylltiedig; a llygredd yn yr amgylchedd morol. Pe bai twf ar y ddyfrffordd hefyd yn cynnwys cynnydd i draffig cychod hamdden, byddai angen ystyried effeithiau anuniongyrchol pwysau hamdden ar y morlin hefyd.</p> <p><i>Mesurau Lliniaru</i></p> <p>O ystyried maint posibl y datblygiad o gwmpas y porthladd, rhagwelir y byddai cynlluniau o'r fath yn rhan o gwmpas Prosiect Seilwaith o Arwyddocâd Cenedlaethol neu Ddatblygiad o Arwyddocâd Cenedlaethol. Er y byddai hyn yn sicrhau bod effeithiau posibl ar safleoedd Natura 2000/ Ramsar yn cael eu hasesu'n llawn drwy'r broses Asesiad Rheoliadau Cynfinoedd (ni waeth beth yw geiriad Polisi P25 yn y Fframwaith Datblygu Cenedlaethol), ystyrir ei bod yn hanfodol hefyd bod asesiad lefel uchel yn cael ei gynnal (cyn unrhyw asesiadau haen is) er mwyn darganfod a all safleoedd Natura 2000/ Ramsar addasu i unrhyw estyniad i Ddyfrffordd y Ddau Gleddau a/neu gynnydd i forgludiant.</p> <p>Byddai angen i astudiaeth ddichonoldeb o'r fath gynnwys nodi effeithiau posibl ar nodweddion cymhwyso AGA/safleoedd Ramsar/ ACAau (yn y môr ac ar y tir) sy'n gysylltiedig ag ansawdd aer, pwysau hamdden, ac effeithiau cyfunol posibl â phrosiectau graddfa fawr eraill yn rhanbarthol/ cenedlaethol. Gallai hyn fod yn ddefnyddiol ar gyfer cyfarwyddo gwaith pellach ar gamau'r cynllun/prosiect yn y dyfodol ond byddai'n sicr yn cynnig cyd-destun hanfodol ar gyfer y polisi hwn cyn y gellir ei weithredu mewn unrhyw ffordd.</p>	Dim effaith niweidiol ar gyfanwydd safleoedd Natura 2000/ Ramsar



Polisi	Effeithiau posibl ar gyfanrwydd safleoedd Natura 2000/ Ramsar a gofynion lliniaru arfaethedig	Casgliad (gan dybio y rhoddir mesurau lliniaru ar waith)
	<p>Dylid rhoi ystyriaeth hefyd i sut y mae seilwaith newydd sy'n gysylltiedig â datblygiad y ddyfrffordd yn integreiddio â'r rhwydwaith ffyrdd/ rheilffyrdd presennol, ac i annog atebion trafndiaeth cynaliadwy (fel llwybrau beicio a llwybrau trafndiaeth gyhoeddus integredig).</p> <p><i>Casgliad</i></p> <p>Dylai ystyriaeth o'r mesurau a nodir uchod yn ystod cynllunio rhanbarthol/lleol ac yn ystod gweithrediad penodol i safle y polisi, yn ogystal â chydymffuriad â P8 y Fframwaith Datblygu Cenedlaethol (y rhagwelir y bydd yn darparu clustogfa amddiffynnol ar gyfer safleoedd Natura 2000/ Ramsar yn anuniongyrchol trwy ddiogelu a gwella gwasanaethau ecosystem, rhwydweithiau ecolegol a bioamrywiaeth yn y cefn gwlad ehangach), sicrhau na fydd unrhyw effaith niweidiol ar gyfanrwydd safleoedd Natura 2000/ Ramsar o ganlyniad i weithredu'r polisi hwn.</p>	
P26 – Metro Abertawe	<p><i>Effeithiau</i></p> <p>Mae Llywodraeth Cymru yn cefnogi datblygiad Metro Bae Abertawe i wella cysylltiadau ar draws y rhanbarth. Er ei bod yn debygol y byddai'r rhan fwyaf o unrhyw gynllun metro o'r fath yn cael ei leoli mewn lleoliadau trefol yn Abertawe, ni ellir diystyru effeithiau posibl ar safleoedd Natura 2000/ Ramsar gan nad yw union fanylion unrhyw gynigion yn hysbys ar hyn o bryd.</p> <p>Mae AGA/safle Ramsar Cilfach Tywyn ac ACA Bae Caerfyrddin ac Aberoedd i'r gorllewin o Abertawe. Mae ACA/safle Ramsar Cors Crymlyn ar gyrion dwyreiniol Abertawe, ac mae ACA Tiroedd Comin Gŵyr ac ACA Coedydd Ynn Gŵyr i'r de-orllewin.</p> <p>Gallai effeithiau posibl gynnwys (ond nid ydynt wedi eu cyfyngu i): tarfu/dadleoli rhywogaethau adar sy'n gysylltiedig ag AGA/ safleoedd Ramsar cyfagos (er enghraifft, colli tir â chysylltiad gweithredol o dan ôl troed y metro os yw y tu allan i leoliadau trefol, neu ar hyd yr arfordir), neu drwy effeithiau eraill fel llygredd dŵr/ aer neu darfu/difrod cynyddol o ganlyniad i bwysau hamdden yn sgil poblogaeth fwy yn y rhanbarth (pe bai'r metro yn cynnig mwy o fynediad at ardaloedd trefol y mae'n hysbys eu bod yn cynnal cynefinoedd a rhywogaethau sensitif).</p> <p><i>Mesurau Lliniaru</i></p> <p>O ystyried maint y Cynllun Metro newydd posibl, rhagwelir y gallai hwn fod yn rhan o gwmpas Prosiect Seilwaith o Arwyddocâd Cenedlaethol neu Ddatblygiad o Arwyddocâd Cenedlaethol. Byddai hyn yn sicrhau bod effeithiau posibl ar safleoedd Natura 2000/ Ramsar yn cael eu hasesu'n llawn drwy'r broses Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd (heb ystyried Polisi P26 yn y Fframwaith Datblygu Cenedlaethol). Byddai datblygiad y cynllun metro hefyd yn destun proses achos busnes WelTAG, sy'n ymgorffori gofynion yr Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd ar y cam cynllunio priodol. Fodd bynnag, dylid rhoi ystyriaeth hefyd i'r mesurau osgoi/ lliniaru canlynol wrth weithredu polisiau naill ai'n rhanbarthol a/neu'n lleol o ran gwella cysylltiadau trafndiaeth:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Dylai'r metro newydd, ac unrhyw gysylltiadau neu seilwaith cysylltiedig, geisio osgoi effeithiau ar safleoedd Natura 2000/ Ramsar, pan fo'n bosibl. Dylid gwneud hyn trwy gynllunio llwybrau mewn modd sensitif i osgoi datblygiad mewn safleoedd Natura 2000/ Ramsar, neu'n uniongyrchol nesaf atynt. Efallai y bydd angen astudiaethau dichonoldeb i asesu effeithiau posibl ar safleoedd dynodedig.</li> <li>• Dylid rhoi ystyriaeth i oblygiadau posibl llygredd aer cynyddol o ganlyniad i newidiadau i'r metro newydd yn lleol yn ogystal ag ar draws y rhanbarth (h.y. effeithiau cyfunol â chynlluniau newydd eraill).</li> </ul>	Dim effaith niweidiol ar gyfanrwydd safleoedd Natura 2000/ Ramsar

Polisi	Effeithiau posibl ar gyfanrwydd safleoedd Natura 2000/ Ramsar a gofynion lliniaru arfaethedig	Casgliad (gan dybio y rhoddir mesurau lliniaru ar waith)
	<p><i>Casgliad</i></p> <p>Dylai ystyriaeth o'r mesurau a nodir uchod yn ystod cynllunio rhanbarthol/lleol ac yn ystod gweithrediad penodol i safle y polisi, yn ogystal â chydymffurfiad â P8 y Fframwaith Datblygu Cenedlaethol (y rhagwelir y bydd yn darparu clustogfa amddiffynnol ar gyfer safleoedd Natura 2000/ Ramsar yn anuniongyrchol trwy ddiogelu a gwella gwasanaethau ecosystem, rhwydweithiau ecolegol a bioamrywiaeth yn y cefn gwlad ehangach), sicrhau na fydd unrhyw effaith niweidiol ar gyfanrwydd safleoedd Natura 2000/ Ramsar o ganlyniad i weithredu'r polisi hwn.</p>	
P27 - Caerdydd	<p><i>Effeithiau</i></p> <p>Mae ACA/AGA/safle Ramsar Aber Afon Hafren ac ACA Coedwig Ffawydd Caerdydd wedi eu lleoli yn agos at Gaerdydd ac felly gallent gael eu heffeithio gan dwf yn y ddinas a'i chyffiniau.</p> <p>Ystyrir bod canolbwyntio twf yn ardal drefol bresennol Caerdydd a'i chyffiniau yn debygol o sicrhau bod y potensial ar gyfer effeithiau niweidiol ar safleoedd dynodedig cyn lleied â phosibl; fodd bynnag, yn absenoldeb unrhyw gynigion datblygu manwl, ni ellir diystyru'r potensial i safleoedd Natura 2000/ Ramsar gael eu heffeithio. Gallai twf cynyddol yng Nghaerdydd arwain at effeithiau ar safleoedd Natura 2000/ Ramsar trwy darfu/ dadleoli posibl o rywogaethau adar sy'n gysylltiedig ag AGA/ safleoedd Ramsar cyfagos (er enghraifft, colli tir â chysylltiad gweithredol o dan yr ôl troed tir a neilltuwyd ar gyfer datblygiad mewn cynlluniau haen is), neu drwy effeithiau eraill fel llygredd dŵr/ aer neu darfu cynyddol o ganlyniad i bwysau hamdden yn sgil poblogaeth fwy yn y rhanbarth.</p> <p><i>Mesurau Lliniaru</i></p> <p>Mae'n ofynnol i gynlluniau haen is, fel Cynlluniau Datblygu Lleol, gynnal Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd o safleoedd neilltuo arfaethedig a pholisïau (fel mater o gyfraith) i ddarganfod y potensial ar gyfer Effaith Sylweddol Debygol a gweithredu mesurau lliniaru priodol fel sy'n ofynnol. Fodd bynnag, dylid rhoi ystyriaeth hefyd i'r mesurau osgoi/ lliniaru canlynol wrth weithredu'r polisi hwn, naill ai'n rhanbarthol a/neu'n lleol:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Dylid canolbwyntio neilltuadau tir (mewn cynlluniau Strategol a Datblygu Lleol) mewn lleoliadau trefol presennol yng Nghaerdydd.</li> <li>• Dylid osgoi neilltuo datblygiad newydd mewn safleoedd Natura 2000/ Ramsar neu'n uniongyrchol nesaf atynt, i leihau effeithiau ar safleoedd o'r fath neu sicrhau eu bod cyn lleied â phosibl (er enghraifft, osgoi tir nesaf at yr arfordir y mae'n hysbys ei fod wedi ei gysylltu'n weithredol ag AGA/ safleoedd Ramsar cyfagos).</li> <li>• Dylid ystyried goblygiadau posibl pwysau hamdden (yn enwedig trwy effeithiau cyfunol) i safleoedd Natura 2000/ Ramsar wrth benderfynu ar dargedau tai a chyflogaeth (h.y. ystyried a all safle Natura 2000/ Ramsar gynnal y cynnydd i nifer y trigolion ychwanegol a gynigir gan gynllun haen is). Efallai y bydd angen astudiaeth ddichonoldeb o bwysau hamdden.</li> <li>• Dylid ystyried goblygiadau posibl mwy o lygredd aer mewn ardaloedd arfordirol, yn ogystal ag ar draws y rhanbarth (cyfunol). Dylid rhoi ystyriaeth hefyd i annog atebion trafndiaeth cynaliadwy (fel llwybrau beicio a llwybrau trafndiaeth gyhoeddus integredig).</li> </ul> <p><i>Casgliad</i></p> <p>Dylai ystyriaeth o'r mesurau a nodir uchod yn ystod cynllunio rhanbarthol/lleol ac yn ystod gweithrediad penodol i safle y polisi, yn ogystal â chydymffurfiad â P8 y Fframwaith Datblygu Cenedlaethol (y rhagwelir y bydd yn darparu clustogfa amddiffynnol ar gyfer</p>	Dim effaith niweidiol ar gyfanrwydd safleoedd Natura 2000/ Ramsar



Polisi	Effeithiau posibl ar gyfanwydd safleoedd Natura 2000/ Ramsar a gofynion lliniaru arfaethedig	Casgliad (gan dybio y rhoddir mesurau lliniaru ar waith)
	safleoedd Natura 2000/ Ramsar yn anuniongyrchol trwy ddiogelu a gwella gwasanaethau ecosystem, rhwydweithiau ecolegol a bioamrywiaeth yn y cefn gwlad ehangach), sicrhau na fydd unrhyw effaith niweidiol ar gyfanwydd safleoedd Natura 2000/ Ramsar o ganlyniad i weithredu'r polisi hwn.	
P28 Casnewydd	<p><i>Effeithiau</i></p> <p>Mae ACA Afon Wysg ac ACA/AGA/safle Ramsar Aber Afon Hafren wedi eu lleoli yn agos at Gasnewydd ac felly gallent gael eu heffeithio gan dwf yn y ddinas a'i chyffiniau.</p> <p>Ystyrir bod canolbwyntio twf yn ardal drefol bresennol Casnewydd a'i chyffiniau yn debygol o sicrhau bod y potensial ar gyfer effeithiau niweidiol ar safleoedd dynodedig cyn lleied â phosibl; fodd bynnag, yn absenoldeb unrhyw gynigion datblygu manwl, ni ellir diystyru'r potensial i safleoedd Natura 2000/ Ramsar gael eu heffeithio. Gallai twf cynyddol yng Nghasnewydd arwain at effeithiau trwy darfu/ dadleoli posibl o rywogaethau adar sy'n gysylltiedig ag ACA/ safle Ramsar Aber Afon Hafren (er enghraifft, colli tir â chysylltiad gweithredol o dan yr ôl troed tir a neilltuwyd ar gyfer datblygiad mewn cynlluniau haen is), neu drwy effeithiau eraill fel llygredd dŵr/ aer neu darfu cynyddol o ganlyniad i bwysau hamdden yn sgil poblogaeth fwy yn y rhanbarth.</p> <p><i>Mesurau Lliniaru</i></p> <p>Mae'n ofynnol i gynlluniau haen is, fel Cynlluniau Datblygu Lleol, gynnal Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd o safleoedd neilltuo arfaethedig a pholisïau (fel mater o gyfraith) i ddarganfod y potensial ar gyfer Effaith Sylweddol Debygol a gweithredu mesurau lliniaru priodol fel sy'n ofynnol. Fodd bynnag, dylid rhoi ystyriaeth hefyd i'r mesurau osgoi/ lliniaru canlynol wrth weithredu'r polisi hwn, naill ai'n rhanbarthol a/neu'n lleol:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Dylid canolbwyntio neilltuadau tir (mewn cynlluniau Strategol a Datblygu Lleol) mewn lleoliadau trefol presennol yng Nghasnewydd, gan osgoi cymryd tir nesaf at ACA Afon Wysg.</li> <li>• Dylid osgoi neilltuo datblygiad newydd mewn safleoedd Natura 2000/ Ramsar neu'n uniongyrchol nesaf atynt, i leihau effeithiau ar safleoedd o'r fath neu sicrhau eu bod cyn lleied â phosibl (er enghraifft, osgoi tir nesaf at yr arfordir y mae'n hysbys ei fod wedi ei gysylltu'n weithredol ag ACA/ safleoedd Ramsar cyfagos).</li> <li>• Dylid ystyried goblygiadau posibl pwysau hamdden (yn enwedig trwy effeithiau cyfunol) i safleoedd Natura 2000/ Ramsar wrth benderfynu ar dargedau tai a chyflogaeth (h.y. ystyried a all safle Natura 2000/ Ramsar gynnal y cynnydd i nifer y trigolion ychwanegol a gynigir gan gynllun haen is). Efallai y bydd angen astudiaeth ddichonoldeb o bwysau hamdden.</li> <li>• Dylid ystyried goblygiadau posibl mwy o lygredd aer yn yr ardal ac ar draws y rhanbarth (cyfunol). Dylid rhoi ystyriaeth i annog atebion trafndiaeth cynaliadwy (fel llwybrau beicio a llwybrau trafndiaeth gyhoeddus integredig).</li> </ul> <p><i>Casgliad</i></p> <p>Dylai ystyriaeth o'r mesurau a nodir uchod yn ystod cynllunio rhanbarthol/lleol ac yn ystod gweithrediad penodol i safle y polisi, yn ogystal â chydymffurfiaid â P8 y Fframwaith Datblygu Cenedlaethol (y rhagwelir y bydd yn darparu clustogfa amddiffynnol ar gyfer safleoedd Natura 2000/ Ramsar yn anuniongyrchol trwy ddiogelu a gwella gwasanaethau ecosystem, rhwydweithiau ecolegol a</p>	Dim effaith niweidiol ar gyfanwydd safleoedd Natura 2000/ Ramsar

Polisi	Effeithiau posibl ar gyfanrwydd safleoedd Natura 2000/ Ramsar a gofynion lliniaru arfaethedig	Casgliad (gan dybio y rhoddir mesurau lliniaru ar waith)
	<p>bioamrywiaeth yn y cefn gwlad ehangach), sicrhau na fydd unrhyw effaith niweidiol ar gyfanrwydd safleoedd Natura 2000/ Ramsar o ganlyniad i weithredu'r polisi hwn.</p>	
<p>P29 – Blaenau'r Cymoedd</p>	<p><i>Effeithiau</i></p> <p>Ceir nifer fach o safleoedd Natura 2000/ Ramsar yn ardal Blaenau'r Cymoedd, gan gynnwys ACA Blaen Cynon (a ddynodwyd ar sail glöyn byw britheg y gors), ACA Coedydd Nedd a Mellte ac ACA Cwm Cadlan.</p> <p>Ystyrir bod canolbwyntio twf yn y canolfannau trefol presennol a'u cyffiniau yn debygol o sicrhau bod y potensial ar gyfer effeithiau niweidiol ar y safleoedd dynodedig hyn cyn lleied â phosibl; fodd bynnag, yn absenoldeb unrhyw gynigion datblygu manwl, ni ellir diystyru'r potensial i safleoedd Natura 2000/ Ramsar gael eu heffeithio. Gallai twf cynyddol yn ardal Blaenau'r Cymoedd arwain at effeithiau ar safleoedd Natura 2000/ Ramsar trwy golled posibl safleoedd britheg y gors (os caiff tir ei neilltuo mewn ardaloedd y mae'n hysbys eu bod yn cynnal y rhywogaeth) neu drwy effeithiau eraill fel llygredd dŵr/ aer a tharfu/ difrod cynyddol i gynefinoedd sensitif a rhywogaethau o ganlyniad i bwysau hamdden yn sgil poblogaeth fwy yn y rhanbarth.</p> <p><i>Mesurau Lliniaru</i></p> <p>Mae'n ofynnol i gynlluniau haen is, fel Cynlluniau Datblygu Lleol, gynnal Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd o safleoedd neilltuo arfaethedig a pholisïau (fel mater o gyfraith) i ddarganfod y potensial ar gyfer Effaith Sylweddol Debygol a gweithredu mesurau lliniaru priodol fel sy'n ofynnol. Fodd bynnag, dylid rhoi ystyriaeth hefyd i'r mesurau osgoi/ lliniaru canlynol wrth weithredu'r polisi hwn, naill ai'n rhanbarthol a/neu'n lleol:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Dylid canolbwyntio neilltuadau tir (mewn cynlluniau Strategol a Datblygu Lleol) mewn lleoliadau trefol presennol yn ardal Blaenau'r Cymoedd.</li> <li>• Dylid osgoi neilltuo datblygiad newydd mewn safleoedd Natura 2000/ Ramsar neu'n uniongyrchol nesaf atynt, i leihau effeithiau ar safleoedd o'r fath neu sicrhau eu bod cyn lleied â phosibl (er enghraifft, osgoi tir y mae'n hysbys ei fod yn cynnal glöyn byw britheg y gors).</li> <li>• Dylid ystyried goblygiadau posibl pwysau hamdden (yn enwedig trwy effeithiau cyfunol) i safleoedd Natura 2000/ Ramsar wrth benderfynu ar dargedau tai a chyflogaeth (h.y. ystyried a all safle Natura 2000/ Ramsar gynnal y cynnydd i nifer y trigolion ychwanegol a gynigir gan gynllun haen is). Efallai y bydd angen astudiaeth ddichonoldeb o bwysau hamdden.</li> <li>• Dylid ystyried goblygiadau posibl mwy o lygredd aer yn y cymoedd yn ogystal ag ar draws y rhanbarth (cyfunol). Dylid rhoi ystyriaeth i annog atebion trafndiaeth cynaliadwy (fel llwybrau beicio a llwybrau trafndiaeth gyhoeddus integredig).</li> </ul> <p><i>Casgliad</i></p> <p>Dylai ystyriaeth o'r mesurau a nodir uchod yn ystod cynllunio rhanbarthol/lleol ac yn ystod gweithrediad penodol i safle y polisi, yn ogystal â chydymffurfiaid â P8 y Fframwaith Datblygu Cenedlaethol (y rhagwelir y bydd yn darparu clustogfa amddiffynnol ar gyfer safleoedd Natura 2000/ Ramsar yn anuniongyrchol trwy ddiogelu a gwella gwasanaethau ecosystem, rhwydweithiau ecolegol a bioamrywiaeth yn y cefn gwlad ehangach), sicrhau na fydd unrhyw effaith niweidiol ar gyfanrwydd safleoedd Natura 2000/ Ramsar o ganlyniad i weithredu'r polisi hwn.</p>	<p>Dim effaith niweidiol ar gyfanrwydd safleoedd Natura 2000/ Ramsar</p>

Polisi	Effeithiau posibl ar gyfanwydd safleoedd Natura 2000/ Ramsar a gofynion lliniaru arfaethedig	Casgliad (gan dybio y rhoddir mesurau lliniaru ar waith)
<p>P31 – Twf mewn trafndiaeth gynaliadwy – yn ymateb i ofynion aneddiadau</p>	<p><i>Effeithiau</i></p> <p>Mae'r polisi hwn yn ymwneud â thwf yn ne Cymru, a rhanbarth y de-ddwyrain yn arbennig. Ceir nifer o safleoedd Natura 2000/ Ramsar yn rhanbarth y de-ddwyrain (gan gynnwys ACA/AGA/safle Ramsar Aber Afon Hafren, ACA Afon Wysg ac ACA Coedwig Ffawydd Caerdydd).</p> <p>Mae'r polisi yn canolbwyntio ar ddatblygu twf mewn lleoliadau trefol presennol â chysylltiadau trafndiaeth a seilwaith cymdeithasol da, fel y bydd cynlluniau datblygu strategol y dyfodol yn nodi'r lleoliadau mwyaf cynaliadwy ar gyfer datblygiad newydd. Er yr ystyrir bod canolbwyntio twf ar y rhwydwaith trafndiaeth presennol ac o'i gwmpas yn debygol o sicrhau bod y potensial ar gyfer effeithiau niweidiol ar safleoedd dynodedig cyn lleied â phosibl, yn absenoldeb unrhyw gynigion datblygu manwl neu elfen ofodol i'r polisi, ni ellir diystyru'r potensial i safleoedd Natura 2000/ Ramsar gael eu heffeithio. Gallai twf cynyddol yn ne Cymru arwain at effeithiau ar safleoedd Natura 2000/ Ramsar trwy darfu/ dadleoli posibl o rywogaethau adar sy'n gysylltiedig ag AGA/ safleoedd Ramsar cyfagos (er enghraifft, colli tir â chysylltiad gweithredol o dan yr ôl troed tir a neilltuwyd ar gyfer datblygiad mewn cynlluniau haen is), neu drwy effeithiau eraill fel llygredd dŵr/ aer neu darfu cynyddol o ganlyniad i bwysau hamdden yn sgil poblogaeth fwy yn y rhanbarth.</p> <p><i>Mesurau Lliniaru</i></p> <p>Mae'n ofynnol i Gynlluniau Datblygu Strategol haen is gynnal Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd o safleoedd neilltuo arfaethedig a pholisïau (fel mater o gyfraith) i ddarganfod y potensial ar gyfer Effaith Sylweddol Debygol a gweithredu mesurau lliniaru priodol fel sy'n ofynnol. Fodd bynnag, dylid rhoi ystyriaeth i'r mesurau osgoi/ lliniaru canlynol wrth weithredu'r polisi hwn, naill ai'n rhanbarthol a/neu'n lleol:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Dylid canolbwyntio neilltuadau tir (mewn cynlluniau Strategol a Datblygu Lleol) mewn lleoliadau trefol os yw'n bosibl.</li> <li>• Dylid osgoi neilltuo datblygiad newydd mewn safleoedd Natura 2000/ Ramsar neu'n uniongyrchol nesaf atynt, i leihau effeithiau ar safleoedd o'r fath neu sicrhau eu bod cyn lleied â phosibl (er enghraifft, osgoi tir nesaf at yr arfordir y mae'n hysbys ei fod wedi ei gysylltu'n weithredol ag AGA/ safleoedd Ramsar cyfagos).</li> <li>• Dylid ystyried goblygiadau posibl pwysau hamdden (yn enwedig trwy effeithiau cyfunol) i safleoedd Natura 2000/ Ramsar wrth benderfynu ar dargedau tai a chyflogaeth (h.y. ystyried a all safle Natura 2000/ Ramsar gynnal y cynnydd i nifer y trigolion ychwanegol a gynigir gan gynllun haen is). Efallai y bydd angen astudiaeth ddichonoldeb o bwysau hamdden hefyd. Dylid ystyried potensial ar gyfer effeithiau sylweddol tebygol o ran pwysau hamdden cyfunol â chynlluniau is eraill. Dylid ystyried y posibilrwydd o effeithiau sylweddol tebygol hefyd o ran pwysau hamdden cyfunol â chynlluniau haen is eraill, yn enwedig pan fo safleoedd Natura 2000/ Ramsar yn bresennol ar y ffin rhwng ALLau.</li> <li>• Dylid ystyried goblygiadau posibl mwy o lygredd aer mewn ardaloedd arfordirol, yn ogystal ag ar draws y rhanbarth (cyfunol). Dylid rhoi ystyriaeth hefyd i annog atebion trafndiaeth cynaliadwy (fel llwybrau beicio a llwybrau trafndiaeth gyhoeddus integredig).</li> </ul> <p><i>Casgliad</i></p> <p>Dylai ystyriaeth o'r mesurau a nodir uchod yn ystod cynllunio rhanbarthol/lleol ac yn ystod gweithrediad penodol i safle y polisi, yn ogystal â chydymffurfiaid â P8 y Fframwaith Datblygu Cenedlaethol (y rhagwelir y bydd yn darparu clustogfa amddiffynnol ar gyfer safleoedd Natura 2000/ Ramsar yn anuniongyrchol trwy ddiogelu a gwella gwasanaethau ecosystem, rhwydweithiau ecolegol a</p>	<p>Dim effaith niweidiol ar gyfanwydd safleoedd Natura 2000/ Ramsar</p>

Polisi	Effeithiau posibl ar gyfanrwydd safleoedd Natura 2000/ Ramsar a gofynion lliniaru arfaethedig	Casgliad (gan dybio y rhoddir mesurau lliniaru ar waith)
	<p>bioamrywiaeth yn y cefn gwlad ehangach), sicrhau na fydd unrhyw effaith niweidiol ar gyfanrwydd safleoedd Natura 2000/ Ramsar o ganlyniad i weithredu'r polisi hwn.</p>	
<p>P32 – Maes Awyr Caerdydd</p>	<p><i>Effeithiau</i></p> <p>Mae Llywodraeth Cymru yn cefnogi twf a datblygiad Maes Awyr Caerdydd, gan gynnwys ehangu capasiti'r maes awyr a darparu cyfleusterau gwell i deithwyr.</p> <p>Mae maes awyr Caerdydd wedi ei leoli nesaf at Fôr Hafren; fodd bynnag, yr unig safle Natura 2000/ Ramsar o fewn 10 cilomedr i'r maes awyr yw AGA/ safle Ramsar/ACA Aber Afon Hafren (dros 8.5 cilomedr i'r dwyrain). O ystyried pellter y maes awyr o'r safle Natura 2000/ Ramsar agosaf, ni ragwelir effeithiau uniongyrchol (fel colli cynefin ac unrhyw effeithiau ar ansawdd dŵr) o ganlyniad i ddatblygiad ym maes awyr Caerdydd ei hun. Fodd bynnag, gallai unrhyw estyniad i gapasiti'r maes awyr o ran mwy o deithiau gael effeithiau amgylcheddol llawer ehangach, a byddai'r goblygiadau posibl i safleoedd Natura 2000/ Ramsar yn ymestyn ymhell y tu hwnt yr hyn y byddent o ran datblygiad graddfa fach ar y ddaear. Gallai cynyddu capasiti'r maes awyr gynnwys effeithiau fel: cynnydd i lygredd aer o ganlyniad i deithiau ychwanegol a llif traffig cynyddol o deithwyr i'r maes awyr ac oddi yno; effeithiau anuniongyrchol fel pwysau hamdden cynyddol ar y rhanbarth trwy dwristiaeth ychwanegol; ac effeithiau cyfunol posibl gyda phrosiectau graddfa fawr eraill yn rhanbarthol/ cenedlaethol.</p> <p><i>Mesurau Lliniaru</i></p> <p>O ystyried maint posibl unrhyw ehangiad posibl i faes awyr Caerdydd, byddai'r math hwn o gynllun yn rhan o gwmpas Prosiect Seilwaith o Arwyddocâd Cenedlaethol neu Ddatblygiad o Arwyddocâd Cenedlaethol. Er y byddai hyn yn sicrhau bod effeithiau posibl ar safleoedd Natura 2000/ Ramsar yn cael eu hasesu'n llawn drwy'r broses Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd (ni waeth beth yw geiriad Polisi P32 yn y Fframwaith Datblygu Cenedlaethol), ystyrir ei bod yn hanfodol hefyd bod asesiad lefel uchel yn cael ei gynnal (cyn unrhyw asesiadau haen is) er mwyn darganfod a all safleoedd Natura 2000/ Ramsar addasu i unrhyw gynnydd i draffig awyr.</p> <p>Byddai angen i astudiaeth ddichonoldeb o'r fath gynnwys nodi effeithiau posibl ar nodweddion cymhwyso AGA/safleoedd Ramsar/ ACAu cyfagos sy'n gysylltiedig ag ansawdd aer a gwaddodi nitrogen, yn ogystal ag effeithiau cyfunol posibl â phrosiectau graddfa fawr eraill yn rhanbarthol/ cenedlaethol. Gallai hyn fod yn ddefnyddiol ar gyfer cyfarwyddo gwaith pellach ar gamau'r cynllun/prosiect yn y dyfodol ond byddai'n sicr yn cynnig cyd-destun hanfodol ar gyfer y polisi hwn cyn y gellir ei weithredu mewn unrhyw ffordd.</p> <p>Dylid rhoi ystyriaeth hefyd i sut y mae seilwaith newydd sy'n gysylltiedig â datblygiad y ddyfrffordd yn integreiddio â'r rhwydwaith ffyrdd/ rheilffyrdd presennol, ac i annog atebion trafndiaeth cynaliadwy (fel llwybrau trafndiaeth gyhoeddus integredig).</p> <p><i>Casgliad</i></p> <p>Bydd ystyriaeth o'r mesurau a nodir uchod, cydymffurfiaid â P8 y Fframwaith Datblygu Cenedlaethol a'r gofyniad i ddatblygiad ar raddfa fawr o'r fath bod yn destun Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd statudol ar y lefel prosiect, yn sicrhau bod dim effeithiau niweidiol ar gyfanrwydd safleoedd Natura 2000/ Ramsar.</p>	<p>Dim effaith niweidiol ar gyfanrwydd safleoedd Natura 2000/ Ramsar</p>

Polisi	Effeithiau posibl ar gyfanwydd safleoedd Natura 2000/ Ramsar a gofynion lliniaru arfaethedig	Casgliad (gan dybio y rhoddir mesurau lliniaru ar waith)
P33 – Parc Rhanbarthol y Cymoedd	<p><i>Effeithiau</i></p> <p>Mae Llywodraeth Cymru yn cefnogi sefydlu Parc Rhanbarthol y Cymoedd, er nad yw'r union leoliad wedi ei benderfynu eto. Ceir nifer o safleoedd Natura 2000/ Ramsar yn ardal y Cymoedd, gan gynnwys ACA Blaen Cynon, ACA Coedydd Nedd a Melte ac ACA Cwm Cadlan.</p> <p>Ystyrir bod creu Parc Rhanbarthol y Cymoedd yn bolisi cadarnhaol, â llawer o fanteision amgylcheddol, economaidd a chymdeithasol; fodd bynnag, os caiff y Parc ei leoli mewn lleoliad anaddas, mae'n bosibl y gallai'r polisi arwain at effeithiau niweidiol ar gynefinoedd a rhywogaethau presennol. Er enghraifft, byddai lleoli'r Parc newydd mewn ACA neu nesaf at un yn mynd yn groes i'r amcanion cadwraeth ar gyfer y safle. Gallai cyflwyno cynefinoedd newydd nesaf at gynefinoedd sensitif presennol gael effeithiau negyddol ar hydroleg yr ardal, gallai gyflwyno gwahanol storfa hadau o rywogaeth annymunol, a/neu gallai ddarparu gorchudd i anifeiliaid ysglyfaethus rhywogaethau cymhwyso. O ystyried mai un o brif ddibenion y Parc Rhanbarthol yw annog ymwelwyr â'r ardal, gallai pwysau hamdden fod yn ystyriaeth hefyd, yn enwedig mewn ardaloedd nad ydynt yn cael eu tarfu gan weithgarwch dynol ar hyn o bryd.</p> <p><i>Mesurau Lliniaru</i></p> <p>Mae'n bwysig sicrhau nad yw'r dewis o safle ar gyfer y Parc Rhanbarthol newydd (i gefnogi darpariaeth y polisi hwn) yn cynnwys ardaloedd sydd eisoes wedi eu dynodi ar sail presenoldeb cynefinoedd a rhywogaethau dynodedig eraill, a allai gael eu peryglu gan Gynllun o'r fath. Pan allai cynefinoedd a rhywogaethau sensitif fod yn bresennol, dylid rhoi ystyriaeth i'r mesurau osgoi/ lliniaru canlynol wrth weithredu'r polisi hwn, naill ai'n rhanbarthol a/neu'n lleol:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Dylid osgoi dewis safle ar gyfer y Parc Rhanbarthol mewn ardaloedd dynodedig neu nesaf atynt lle byddai creu'r Parc yn niweidiol i amcanion cadwraeth y safle;</li> <li>• Dylid osgoi newid y mathau o gynefin nesaf at safleoedd dynodedig lle gallai hyn effeithio'n anuniongyrchol ar rywogaethau cymhwyso'r safle;</li> <li>• Gan mai nod y Parc newydd yw darparu adnodd ar gyfer hamdden, dylid ystyried golygiadau tarfu dynol a phobl yn mynd â chŵn am dro ar gynefinoedd sensitif a rhywogaethau cymhwyso unrhyw safleoedd dynodedig cyfagos (yn benodol, y goblygiadau i rywogaethau adar sy'n nythu ar y ddaear a difrod a achosir sathru).</li> </ul> <p><i>Casgliad</i></p> <p>Dylai ystyriaeth o'r mesurau a nodir uchod yn ystod cynllunio rhanbarthol/lleol ac yn ystod gweithrediad penodol i safle y polisi, yn ogystal â chydymffurfiaid â P8 y Fframwaith Datblygu Cenedlaethol (y rhagwelir y bydd yn darparu clustogfa amddiffynnol ar gyfer safleoedd Natura 2000/ Ramsar yn anuniongyrchol trwy ddiogelu a gwella gwasanaethau ecosystem, rhwydweithiau ecolegol a bioamrywiaeth yn y cefn gwlad ehangach), sicrhau na fydd unrhyw effaith niweidiol ar gyfanwydd safleoedd Natura 2000/ Ramsar o ganlyniad i weithredu'r polisi hwn.</p>	Dim effaith niweidiol ar gyfanwydd safleoedd Natura 2000/ Ramsar

## 5 Effeithiau Cyfunol

Mae Adran 2 yn disgrifio'n fanwl y mathau o effeithiau cyfunol y mae angen eu hystyried wrth asesu sut y gallai gwahanol ddatganiadau polisi neu gynlluniau lefel uchel weithio gyda'i gilydd i arwain at effeithiau ychwanegol ar safleoedd Natura 2000/Ramsar.

Mae'r Asesiad Priodol o'r polisïau a Sgriniwyd i mewn, fel y nodir yn Nhabl 4, wedi dod i'r casgliad nad yw'n bosibl, oherwydd natur lefel uchel y Fframwaith Datblygu Cenedlaethol, asesu'n effeithiol goblygiadau llawn y polisïau, gan nad oes unrhyw fanylion am ddisbarthiad gofodol datblygiadau a allai gael eu cyflwyno mewn cynlluniau haen is sy'n deillio o'r polisïau hyn. Nid yw'n bosibl felly asesu'r effeithiau cyfunol posibl yn effeithiol, ac eithrio i ddod i'r casgliad, ar y cam hwn yn y broses, bod effeithiau ychwanegol o'r fath yn annhebygol o oresgyn yr amddiffyniadau sydd wedi eu cynnwys yn y Fframwaith Datblygu Cenedlaethol, yn enwedig o ystyried y mesurau lliniaru a gyflwynir yn Nhabl 4.

## 6 Crynodeb/Casgliad yr Asesiad Priodol

Adolygwyd 20 o bolisïau a sgriniwyd i mewn gan yr Asesiad Priodol ar gyfer effeithiau niweidiol ar gyfanrwydd safleoedd Natura 2000/ Ramsar o ganlyniad i weithredu'r polisïau.

Ni ystyrir bod yr un o'r polisïau yn y Fframwaith Datblygu Cenedlaethol yn cyfarwyddo datblygiad yn weithredol yn y fath leoliad neu fodd na ellir osgoi neu liniaru effeithiau posibl sy'n deillio o brosiectau a gyflwynir o dan y polisïau (neu gynlluniau haen is a fydd yn nodi cyfleoedd datblygu ar gyfer neilltuo) ar y lefel haen is. Fodd bynnag, mae'n bwysig nodi y dylid cynnal astudiaethau dichonoldeb pryd bynnag y cânt eu hargymell. Mae hyn yn gyffredinol yn yr ardaloedd hynny lle mae angen eglurhad pellach, ar lefel strategol, ynghylch y graddau y gallai unrhyw ddatblygiad pellach effeithio ar amcanion cadwraeth safleoedd Natura 2000/Ramsar (h.y. a yw nodweddion cymhwysio eisoes yn agos i gael eu peryglu'n sylweddol gan bwysau/ bygythiadau dynol/ amgylcheddol presennol). Gan dybio bod hyn yn cael ei wneud, byddai trosglwyddo'r gofyniad am Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd i gynlluniau a/neu brosiectau haen is yn fesur lliniaru priodol a chyflawnadwy ar y cam hwn.

Hefyd, mae cynnwys Polisi P8 yn y Fframwaith Datblygu Cenedlaethol (y rhagwelir fydd yn darparu clustogfa amddiffynnol ar gyfer safleoedd Natura 2000/ Ramsar yn anuniongyrchol trwy ddiogelu a gwella gwasanaethau ecosystem, rhwydweithiau ecolegol a bioamrywiaeth yn y cefn gwlad ehangach) yn darparu mesur diogelu cyffredin y bydd yn ofynnol i bolisïau eraill yn y Fframwaith Datblygu Cenedlaethol, yn ogystal â'r rhai mewn cynlluniau haen is, gydymffurfio ag ef.

Mae Polisi 16 yn pennu'r meini prawf ar gyfer Cynlluniau Strategol haen is (a'u Cynlluniau Datblygu Lleol cyfansoddol) i'w dilyn wrth nodi neilltuadau ar gyfer datblygu. Yn yr un modd â Pholisi P8, mae'r polisi hwn yn cynnwys cyfeiriad at nodi rhwydweithiau ecolegol, yr ystyrir hefyd y byddant yn darparu clustogfa amddiffynnol ar gyfer safleoedd Natura 2000/ Ramsar yn anuniongyrchol trwy ddiogelu a gwella gwasanaethau ecosystem, rhwydweithiau ecolegol a bioamrywiaeth yn y cefn gwlad ehangach.

Mae Polisïau P10, P11, P13, P20, P21, P22, P25, P26 a P32 i gyd yn ymwneud â'r mathau o ddatblygiad sydd â thebygolrwydd uwch yn nodweddiadol o arwain at effeithiau niweidiol ar safleoedd Natura 2000/ Ramsar. Mae hyn oherwydd maint a graddfa'r datblygiadau (gweithgareddau yn ymwneud ag ynni a phorthladdoedd) a chan eu bod yn dueddol o fod yn fwy tebygol o gael eu lleoli oddi wrth ardaloedd trefol presennol, a/neu ar yr arfordir, lle mae'r perygl o wrthdaro â safleoedd Ewropeaidd a ddynodwyd ar gyfer cadwraeth natur yn uwch. Fel y cyfryw, argymhellwyd mesurau lliniaru penodol i sicrhau eu bod yn cynnig canllaw digon cryf i gynlluniau a phrosiectau haen is sy'n deillio o elfennau hyn y Fframwaith Datblygu Cenedlaethol.

Ni nododd yr Asesiad Priodol unrhyw effeithiau gweddilliol, gan dybio y bydd cydymffurfiaid priodol â Pholisi P8 ac y rhoddir ystyriaeth briodol i'r mesurau lliniaru a nodir yn Nhabl 4 wrth weithredu'r polisïau hyn ar y lefelau rhanbarthol a lleol (yn enwedig wrth gynnal astudiaethau dichonoldeb cyn neilltuo tir ar gyfer datblygiad graddfa fawr mewn ardaloedd fel maes awyr Caerdydd, neu ehangu cyfleusterau porthladd presennol). Byddai'n ofynnol i gynlluniau haen is gymryd goblygiadau posibl datblygiad ar safleoedd Natura 2000/ Ramsar i ystyriaeth yn ystod y broses gynllunio, ac i fabwysiadu'r mesurau lliniaru lefel uchel a gynigir, yn ogystal â mesurau mwy penodol (i'w penderfynu yn ystod Asesiadau Rheoliadau Cynefinoedd dilynol). Hefyd, byddai'r potensial i effeithiau cyfunol godi pan fydd gwaith cynllunio gofodol yn cael ei wneud ar y lefel strategol a lleol yn cael ei asesu'n llawn, a mesurau priodol yn cael eu rhoi ar waith yn y cynlluniau haen is i sicrhau na fyddai unrhyw effeithiau cyfunol yn cael effaith niweidiol ar gyfanrwydd safleoedd Natura 2000/ Ramsar.

## 7 Casgliad Cyffredinol

Er bod yr adroddiad hwn wedi ei gwneud yn eglur ei bod yn anodd ar gam lefel uchel iawn hwn y broses cynllunio datblygiad yng Nghymru i fod yn eglur am sut y gallai safleoedd dynodedig Ewropeaidd gael eu heffeithio gan benderfyniadau polisi strategol, mae'n bwysig nodi bod y goblygiadau posibl i safleoedd Natura 2000/ Ramsar wedi cael eu hystyried trwy gydol datblygiad y Cynllun (trwy ddefnyddio'r ddogfen Synnwyr y Fawd a gyflwynir yn Atodiad A), fel bod osgoi'r materion yn gynnar (a/neu leihau'r risg) wedi bod yn elfen allweddol o'r broses.

Mae Tabl 4 yr Asesiad Priodol (cyfeiriwch at Adran 4) yn nodi'r mathau o effeithiau a allai godi trwy weithredu'r polisïau (lle na ellid cadarnhau Effaith Sylweddol Debygol) ac yn tynnu sylw at fesurau lliniaru y byddai angen eu hystyried wrth lunio cynlluniau haen is. Mae hyn wedi cynnig lefel ychwanegol ragofalus o ddiogelwch i safleoedd Natura 2000/Ramsar yr ystyrir y bydd, yn ogystal â'r gofyniad cyfreithiol am Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd o gynlluniau a phrosiectau haen is, yn cynnig diogelwch digonol i allu cadarnhau na ragwelir unrhyw effeithiau niweidiol ar gyfanrwydd o ganlyniadau i weithredu'r polisïau yn y Fframwaith Datblygu Cenedlaethol.

## 8 Cyfeiriadau

Arcadis, Mawrth 2019. *Fframwaith Datblygu Cenedlaethol Cymru – Goblygiadau rhwydwaith Meysydd Blaenoriaeth Natura 2000 ar gyfer Datblygu Ynni Adnewyddadwy Cymru*

Mott Macdonald, 2017. *South Wales Metro – A Report to Inform a Strategic Habitats Regulations Assessment*



## **ATODIAD A**

**Fframwaith Datblygu Cenedlaethol Llywodraeth Cymru – Aseiad**  
Rheoliadau Cynefinoedd: Synwyr y Fawd



## **ATODIAD B**

**Fframwaith Datblygu Cenedlaethol Cymru – Goblygiadau i'r rhwydwaith Natura 2000 o Ardaloedd Blaenoriaeth ar gyfer Ynni Haul a'r Gwynt ledled Cymru – Adroddiad Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd**

**Arcadis UK**

**Error! Reference source not found.**

Ff: +44 (0) 20 7812 2000

**[arcadis.com](http://arcadis.com)**